

5

7

S

R







# ORIAU'R HWYR:

SEF

## GWEITHIAU BARDDONOL

JOHN CERROG RUGHES.

[AIL ARGRAFFIAD.]

RHUTHYN:

CYHOEDDWDYD AC ARGRAFFWDYD GAN I. CLARKE.

I'W GAEL GAN Y LLYFRWERTHWYR.

—  
*Pris 1s.*

WORKS PUBLISHED BY I. CLARKE, RUTHIN.

---

H A N D B O O K  
FOR  
THE VALE OF CLWYD,

Containing a Topographical and Historical description of the  
TOWNS OF RHYL, ABERGELE, SAINT ASAPH,  
DENBIGH, AND RUTHIN;

With all the adjacent Villages, Castles, Mansions, Churches,  
Monuments, Antiquities, Picturesque Scenery,  
and every object of attraction in that

BEAUTIFUL AND FAR-FAMED VALE,

Compiled from authentic sources and personal observation, as a  
General Guide for the information of Visitors and Residents,

BY WILLIAM DAVIS, JESUS CHAPEL.

OPINIONS OF THE PRESS.

"The beauties and objects of natural history of this romantic scenery, and the sites which historical personages and incidents have rendered for ever memorable are excellently described in this volume. We cordially recommend it to all whom pleasure or business attracts to the Vale of Clwyd. It is handsomely illustrated with engravings and a map; and is remarkably cheap when its accessories are taken into consideration."—*Chester Chronicle*.

"Will be found indispensable to the Tourist who wanders in that romantic part of North Wales."—*Weekly Dispatch*.

"It is neatly printed, well got up,—the engravings are numerous and of surpassing excellence, while its descriptions are florid, but not over-drawn, and its historical accounts are confidently to be relied on."—*North Wales Chronicle*.

"At length the beauties of the 'Eden of Wales,' the quiet Vale of Clwyd, have been laid open, and the inhabitants are much indebted to Mr. Davis for the simple and earnest manner in which he has performed this task of love. The work is extensively illustrated; and above all, it is furnished with a map of the Vale, reduced from the Ordnance survey, in which every place worthy of note is distinguished, and the lines of the roads plainly marked. The typographical features of the volume are highly creditable to Mr. Clarke's press."—*Cambrian Quarterly Mag.*

---

NOW READY, price 2s. 6d., in cloth cases,

HISTORY OF THE CYMRY,  
OR ANCIENT BRITONS,

From the earliest period to the present time. By the REV.  
R. W. MORGAN, Tregynon.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG GAN I. CLARKE, RHUTHYN.

---

*Yn awr yn barod, Cyf. I. a II., 5s. yr un, mewn  
llian, o*

## TALIESIN,

Yn cynnwys Cynhyrchion Rhyddieithol a Barddonol yr  
Eisteddfodau diweddar, &c.

Bydd y Cylehgrawn hwn yn dyfod allan yn chwarterol, o dan  
olygiad rhai o brif ysgrifenywyr Cymru, pris 1s. y rhifyn. Bydd Rhif. 9  
yn barod yn mis Medi, a rhoddir i'r derbynwyr yr holl fantais a ddeillia  
oddiwrth symudiad y dreth ar bapwr.

---

*Yn awr yn gyflawn, pris 3s. yn rhanau, neu 3s. 6c.  
mewn llian,*

## Y DELYN GYMREIG:

YN CYNWYS

TONAU A DARNAU MOESOL A DIFYRUS,

At wasanaeth Teuluoedd, Cymdeithasau Llenyddol, yr Ysgol  
Sabbthol, &c., &c.

*Y'nghyd ag amryw Anthemau a Darnau Cysegredig.*

CYFANSODDEDIG GAN J. D. JONES, C.M., RHUTHYN.

Awdwr y "Per-ganiedydd," "Cerub," "Cydymaith y Cerddor," &c.

---

*Yn awr yn barod, wedi ei rwymo mewn llian yn hardd,  
pris 3s.,*

## HANES YR HEN GYMRY,

Eu defodau a'u sefydliadau, o gyfnod y Diluw hyd yr  
amser presenol :

GAN Y PARCH. R. W. MORGAN, TREGYNON.

**O DAN OLYGIAD AB ITHIEL.**

Anfonir y llyfr, ar dderbyniad ei werth yn Stamps, gan  
I. CLARKE, RUTHYN.

# ORIAU'R HWYR';

BY

JOHN CEIRIOG HUGHES.

## Extracts from Reviews

### *North Wales Chronicle.*

"A young man of undoubted ability and one who has attained his present eminent position as a Welsh poet, by the pure and simple force of his genius, without the ordinary adventitious aid which sometimes conspires to a result so devoutly wished. The satiric portions of Ceiriog's productions wear a peculiar comic style of poetry at once so popular that it mocks imitation. With regard to the pastoral character of his productions, he greatly excels in the form and conception of his ideas and the natural simplicity of his language. Most of what we have read have a tendency, not only to charm the youthful mind by their inert grace and beauty, but to refine and exalt their affections."

### *Wrexham Advertiser.*

"Ceiriog's compositions are of a serious turn, but the greater number partake of a merry and lively spirit. Indeed there cannot be two opinions upon his *forte*—he is a genuine wit. He is not afraid to let the world see Ceiriog *merry* as well as Ceiriog *religious*. We have no patience with people who never show themselves except in their "best clothes." We wish Ceiriog every success for its straightforward honest *humanity*."

### *Carnarvon and Denbigh Herald.*

"Ceiriog has made rapid strides in popularity, and deservedly so, for he is unquestionably a genuine poet. His book contains many sweet flowers and pretty gems, although there may be here and there a simplicity bordering upon childishness; this is far better than puffy, inflated obscurity, swelling into bombast. Most Welsh poets become *religious* instead of *loving*, in their love. Whereas Ceiriog is delicately and intensely loving, without cant or hypocrisy. I doubt if there is anything in the Welsh language on the subject of love that are equal to the verses quoted. "Myfanwy" though irregular and unequal has a glorious burst towards the middle, that takes the shine out of the poem "Owain Wynne," and most other Welsh poems."



*Cronicl Bach.*

"We do not recollect to have read a number of pages so full of imagery, ingenuity, and of wit."

*Gwladgarwr.*

"This pleasant book thrills with magic, electrifying the very soul. The ideas are those of human nature and the human heart, speaking to the innermost man. The book requires no eulogy for it is certain to work its way to be a household family volume."

*Baner ac Amserau Cymru.*

"Ceiriog undoubtedly is our Burns; and we can venture to assert if he composed in English, as well as he has in Welsh, he would be considered fully equal in every sense to the Burns of Scotland. The Welsh nation ought to be proud of him, and thankful to the publisher of "Oriau'r Hwyr."

*Llais y wlad.*

"The compositions of Ceiriog, the true child of nature and the poet of the people. His "Owain Wynne" and "Myfanwy Vychan," stand entirely by themselves amongst the numerous compositions of Welsh bards, ancient and modern. There is not in the Welsh language, and we might add there are no compositions in English that excel them."

*Y Greal.*

"His productions have drawn attention throughout Wales, as thrilling with poetry and glowing with nature."

*Seren Cymru.*

"He really feels what he writes about. With him poetry is no fiction, but a stern reality. The book is well got up and neatly printed. We heartily commend it to the notice of all who can read and appreciate Welsh Poetry."

*Similar extracts might be quoted from the "Taliesin Quarterly," "The Welshman," "Star of Gwent," "The Cambrian Daily Leader," and the Welsh periodicals published in America.*

11595. b 77.

3/4  
**ORIAU'R HWYR:**

**SKY**

**GWEITHIAU BARDDONOL**

*K*  
**JOHN CEIRIOG HUGHES.**

**(ALL ARGRAFFIAD.)**



**RHUTHYN:**

**CYHOEDDWDYD AC ARGRAFFWYD GAN I. CLARKE.**



[ SECOND EDITION. ]

To Alfred Tennyson, Esq.,

*POET LAUREATE,*

As a Tribute of Respect to his great talent,

AND GRATITUDE FOR THE NOBLE MANNER  
IN WHICH HE HAS TREATED

*The Cymric Legends,*

THIS SMALL VOLUME

IS RESPECTFULLY INSCRIBED,

BY THE AUTHOR.



# CYNWYSIAD.

## BARDDONIAETH.

	<b>TUDAL.</b>
A thithau Owain nid wyt mwy ... ..	55
Beth yw Cariad? ... ..	69
Caru'r Lleuad ... ..	29
Charles o'r Bala ... ..	60
Claddasom di, Elen ... ..	59
Cyfieithiad o "Chatterton's Resignation" ... ..	63
Dafydd y Gareg Wen ... ..	52
Draw ar ben y Wyddfa fawr... ..	58
Dychweliad y Cloddiwr Aur ... ..	32
Dyngarwch ... ..	13
Etifedd Nanhoron ... ..	62
Goffdian Serch ... ..	114
Gwahoddiad i Fanceinion ... ..	66
Gweddolen Pugh ... ..	28
Gwladgarwch ... ..	13
Gwyn, gwyn yw mur... ..	66
Heddwch ... ..	15
I goffadwriaeth Dr. W. O. Pughe ... ..	65
I gyfaill, ar farwolaeth un a garai ... ..	"
John Elias ... ..	58
Jona ... ..	42
Llef o'r Tloty ... ..	72
Llewelyn Samuel—Beddargraff ... ..	66
Mae Jane ein Merch ... ..	70
Marwolaeth Ieuan Glan Geirionydd ... ..	31
Meddyliau am y Nefoedd ... ..	64
Myfanwy Fychan ... ..	15
Nant y Mynydd ... ..	30
Nedi Jones ... ..	27
Newyddion da... ..	62
Ochenaid am fy Ngwlad ... ..	67
O! dowch i'r Mynyddoedd ... ..	68
Owain Wyn ... ..	33
Rhyddid ... ..	14
Ti wyddost beth ddywed fy nghalon ... ..	53
Tuag adre' ... ..	67

CYNEWYSLAD.

	TUDAL.
Y Baban diwrnod oed ... ..	56
Y Fenyw fach, a'r Beibl mawr ... ..	41
Y Gareg Wen ... ..	9
Y Gwely o Gymru ... ..	71
Yn foren tyr'd i'r Ysgol Sul ... ..	31
Y Pererin colledig ... ..	61
Y Rhosyn ... ..	54
Y Telyniwr dall ... ..	11

CANIADAU A GOHEBIAETHAU SWYDDOGOL SYR MEURIG.

Arwerthiant peirianau a nwyddau ... ..	73
Arwerthiant yr offerynnau llenyddol ... ..	80
Boneddwr mawr o'r Bala ... ..	104
Cadwch oddiwrthi, onide ... ..	112
Cân y Gynen ... ..	97
Dafydd Llwyd y Mynydd du ... ..	95
Eisteddfod Cyrn y Bwch ... ..	123
Evan Benwan ... ..	100
Fy anwyl Arthur Ifan ... ..	112
Gair tros y Delyn ... ..	105
Gweno'r Snisyn ... ..	125
Llygad y Dydd ... ..	111
Mae Robyn yn flin ... ..	94
Pastai Eisteddfod fawr Llangollen ... ..	98
Pobl y Potes a Phobl y Llymru ... ..	115
Priodas meddyg ... ..	105
Sulgwyn Llynedd, (1859) ... ..	114
Sulgwyn Yleni, (1860) ... ..	117
Sulgwyn nesaf, (1861) ... ..	119
Syr Meurig Grynthwth ... ..	106
Telyn Cymru ... ..	113
Y Botel Wâg ... ..	106
Y Falenten hyll ... ..	100
Ymddyddanion y Felin ... ..	109
Y Pedwar Hen Lanc ... ..	108
Y Peiriant Galarnadol ... ..	87
Y Peiriant Englynu ... ..	75
Yr Afr ... ..	78
Y Rhychddryll ... ..	"
Y Rheifflgorau ... ..	103
Y Taclau Beirniadu ... ..	82
Y Trên ( <i>The Train</i> ) ... ..	93
Y Wibymdaith anturus... ..	77



## RHAGDRAETH.

---

WRTH gynyg “*Oriau'r Hwyr*” i sylw fy nghydgenedl nis gallaf lai na thraethu gair neu ddau fel esgusodiad, oblegid fy ymddangosiad ger eich bronau yn y llyfryn hwn.

Rai blynyddau yn ol fe gyhoeddwyd yn y *Traethodydd*, y fugeilgerdd “*Owain Wyn*,” ac yn ddiweddarach yn y *Taliesin*, ymddangosodd rhiangerdd “*Myfanwy Fychan*.” Cefais gan berchenogion y cylchgronau chwarterol uchod, gopïau o'r caneuon crybwylledig yn llyfrynau bychain ar wahan ; ac er na feddwn ddim hawl ar ewyllys da fy nghydwladwyr, fe werthwyd mewn ychydig wythnosau yr oll o'r canïadau dan sylw. Ond yr oedd eirchion a thaliadau cydgaunedig yn parhau i ddyfod i law yn ddidor, a gwelais yn fuan fod rhwymau cymwynasol arnaf i gael un ai ail-argraffiad o'r fugeilgerdd a'r rhiangerdd, neu y dylwn gyhoeddi llyfryn bychan o fy ychydig ganiadau. Ar ol cadw eirchion fy nghyfeillion ar law er 's cymaint o amser, y mae parodrwydd y cyhoeddwr i anturio gydag “*Oriau'r Hwyr*” yn hyfrydwch gwirioneddol ac yn ollyngdod esmwythäol i mi. Y mae y wybyddiaeth o fod allan o ddyled fy ngharedigion yn deimlad tra ohysurus a dedwydd. Caffed yr oll o honom ei fwynhau. Teimlad o annibyniaeth ac o anrhydedd ydyw. Hir y parhao yn ein mynwesau.

Fel gwr ieuanc oddi cartref, yn teimlo anwyldeb cynef at Gymru, yn nghanol claiarwech ffurfiol un o drefydd mawrion Lloegr, y mae fy oriau hwyrol er'r blynyddoedd bellaoh, pan na byddai dyledswyddau eraill yn fy lluddias, wedi eu treulio genyf i chware ar lwybrau barddoniaeth. Fe wél y darllynydd oddiwrth neillduolion mewnol y casgliad hwn,—oddiwrth ddewisiad amryw o'r testynau, bydrä y cyfansoddiadau, ac oddiwrth y wedd amaherffaith sydd ar yr oll o honynt, fod fy nefnyddiad o'r gair *chware* yn syml a phriodol. Yr wyf er hyny yn

gobeithio y caniateir fod yma ddarnau eraill o natur bwysicach, a chanddynt well amcan mewn golwg na difyru y darlennydd am y foment. Os caf foddhad byth i fy meddwl wrth fwrw golwg tros y llyfryn hwn, disgwyliaf hyny oddiwrth y caniaidau moesol a chrefyddol sydd ynddo; ar yr un pryd, y mae y rhanau difyrus yn gyfryw nad all un dyn ystyriol fy nghyhuddo o ysgafnder a gwamalarwydd. Yr wyf wedi ymdrechu gwneud i'r holl ddyddanion gynwys llinell o wirionedd trwyddynt, ac yr wyf yn hyderu yr ail-ddarllenir yr hyn sydd yn ymddangos yn ffolineb ar yr olwg gyntaf, nes canfod llygedyn purach. Yr wyf yn crybwyll hyn am fod rhediad neillduol ysgrifeniadau o'r fath yn dra agored i'w camgymeryd gan ambell ddarlennydd arwynebol, neu gritig rhagfarnllyd, pa rai a wyrdröant dueddiad gwirioneddol y syniadau, gan dafu eu delw ddu eu hunain i'r gwaith, fel y gwél y diafol wrth ben y dyfroedd puraf adlewyrchiad hagr o'i ddelw ei hun. Faint bynag o anafau mesurol, o wallau llenyddol, ac o farweidd-dra barddonol sydd yn y dalenau canlynol, ni chynwysant un awgrymiad anheilwng o gymeriad crefyddol, ac o burdeb moes fy nghydwladwyr. Ychydig iawn o ganeuon difyrus sydd yn ein hiaith, heb ymylu ar anweddustrwydd, ac y mae y ffaith hon, yn ddiau, wedi cadw llawer canig orchestol o waith ein prif-feirdd allan o olwg y byd, rhag ofn y buasai rhagfarn, er mor faddeuol yw eu fodolaeth, yn cysylltu eu henwau gyda beirdd y gwagedd. Wrth gyhoeddi nifer fechan o ganiadau difyr a diniwed, mae yn bleser genyf wneud hyny ar anogaeth dynion cyfrifol a da, pa rai sydd wedi dyrchafu eu hunain i ymddiried y wlad, fel beirniaid manylgraff, o chwaeth bur, ac o wybodaeth eang. Yr ydwyf erioed yn edrych ar farddoniaeth fel cyfrwng moesol i enyn gwladgarwech a gwroldeb, i feithrin haelioni a chydymdeimlad yn y fynwes, ac i anadlu cariad, rhinwedd, a phob daioni. Os cyhuddir fi gan rai o fod yn rhy syml o ran meddwl, neu yn meddu gormod *slang* o ran iaith, gwell genyf hyny na bod yn rhy uchel neu ddwfn i'm hamgyfred, neu fod yr iaith yn rhy ansathredig i'w deall.

Ffoledd ar fy rhan fyddai ymgais i foddhau pob darlennydd, neu bob chwaeth a barn sydd yn bodoli yn mysg gwahanol bleidiau. Fel ag y dywed Ruskin am brif-feistri-

aid darluniaeth, "Nid yw darluniau Titian yn ddigon ysgafnliw i'r dyn nwyfus, gwell ganddo ef Correggio; nid yw Titian yn ddigon eglur gan edrychdydd ffurfgar, Leonardo yw ei ddyn ef; nid yw Titian yn ddigon difrifol gan y crefyddwr, ond y mae darluniau Raffael yn gampus; nid yw Titian yn ddigon llednais gan ddyn y byd, ond am Vandyke y mae yn ysblenydd; nid yw Titian yn rhoi digon o nerth ac aruthredd yn ei baentiadau, gan un hoff o olygfeydd rhamantus, ond y mae Rembrant yn berffeithrwydd. Felly y mae Vandyke yn boddhau un blaid, a Correggio yn boblogaidd gan blaid arall. Darlunwyr ailraddol yw yr oll o honynt, ond y mae lluwys yn hoffi eu gweithiau." Y mae enw tebyg i'r olaf, ond mwy ailraddol, yn disgwyl cyffelyb driniaeth oddiar ddwyllaw y Cymry. Wrth roi cymaint o amrywiaeth testynau yn y llyfryn hwn, fe allai y tybir mai enill poblogrwydd i'r casgliad yw yr amcan, ac fod amrywiaeth y testynau yn cael ei wneud gyda'r dyben hwnw yn benaf mewn golwg. Ond cynrychioliad teg yw yr Oriau hyn o ansawdd meddwl cyfnewidiog, o nawniau pruddglwyfus, o oriau difrifol, ac o funudau llawen,

Yr eiddoch yn ddiffuant,

*Awst*, 1860.

J. C. H.

9, *Parker Street, Hyde Road,*  
*Manchester.*

v'

## ORIAU'R HWYR.

### H Gareg Wlen.

Os pell yw telyn aur fy ngwlad  
O'm dwylaw musgrell i;  
Os unig wyf o dŷ fy nhad,  
Lle gynt chwareuid hi:  
Mae'r *iaith* er hyny gyda swyn,  
Fel ysbrydoliaeth yn fy nwyn,  
I ganu cerdd, os nad yn fwyn  
I'r byd—mae'n fwyn i mi.

Mae nant yn rhedeg ar ei hynt  
I ardd fy nghartref i,  
Lle cododd un o'm teidiau gynt  
Ddisgynfa iddi hi.  
Mae helyg melyn uwch y fân,  
Lle syrthia tros y dibyn bân,  
A choed afalau-ar y lân,  
Yn edrych ar y lli.

O dan ddisgynfa'r dwr mae llyn,  
A throsto bont o bren;  
A *chareg* fawr, fel marmor gwyn,  
Gynalia'r bont uwch ben.  
Fy mebyd dreuliais uwch y lli,  
Yn eistedd yno arni hi;  
A mwy na brenin oeddwn i,  
Pan ar fy *Nghareg Wen!*

Pan ddeuai'r Gwanwyn tég ei bryd  
Ar ol tymhestlog hin,  
Ac adfywhau'r llysiuog fyd  
Yn ei gawodydd gwin:  
Yn afon *fawr* âi'r gornant fach;  
Pysgotwn ar ei glenydd iach—  
A phin blygedig oedd fy mach  
Yn grog wrth edau lîn.

Ni waeth pa ran o'r ïang fyd  
 A grwydraf tra b'wyf byw,  
 Wyf wrth y *Gareg Wen* o hyd,  
 A'r *nant* sydd yn fy nghlyw ;  
 A phan hysbyswyf estron ddyn,  
 Mai ati 'hedaf yn fy hûn,  
 Maddeus'm ffoledd am mai un  
 O gofion mebyd yw.

Ffurfafen bell yw mebyd oes,  
 Serenog fel y nen ;  
 Ac yn mysg dynion neb nid oes,  
 Na hoffa godi ei ben ;  
 I edrych draw i'r amser fu—  
 A syllaf finau gyda'r llu—  
 Ac O ! fy seren fore gu  
 Wyt ti, fy *Nghareg Wen* !

Os cyraedd ail fabandod wnafl,  
 Cyn gollwng arna'r llen ;  
 Os gauat einioes byth a gaf,  
 A'i eira i wynu'm pen—  
 Bydd angau imi'n "*frenin braw*,"  
 Nes caffwyf fyn'd i Walia draw,  
 At dŷ fy nhad, i ro'i fy llaw  
 Ar ben y *Gareg Wen* !

Byth, byth, ni ddygir o fy ngho'  
 Gyfeillion mud yr ardd ;  
 Nes clywir trystfawr sŵn y gro  
 Ar gauad arch y bardd :  
 A dagrau pur tros ruddiau'r nen  
 Fo'r oll o'r dagrau uwch fy mhen—  
 Os cyfaill fydd, gwnaed garnedd wen  
 O geryg gwynion hardd.

Colofnau wnaed i feibion bri,  
 Uchelfawr tua'r nen ;  
 Ond noder fy ninoddedd i  
 Gan garnedd uwch fy mhen :  
 'Rol gado 'gwlad y cystudd mawr,'  
 Os byw fy enw haner awr,  
 Na alwed neb fi ar y llawr  
 Ond Bardd y *Gareg Wen*.

## Y Delyniwr Dall.

YMGYNDDEIRIOGI 'roedd y gwynt,  
 A rhuai yn y cwm ;  
 Ac ar ffenestri'm bwthyn gwael  
 Y cenllysg gurai'n drwm :  
 Parhaent yn daerion, fel pe'n d'weyd,  
 Fod hono'n noson flin ;  
 Neu fel pe'n erfyn arnaf fi  
 Am loches rhag yr hin.

Ymgrymai'r llwyn tu cefn i'm tŷ  
 Wrth draed y dymestl gerth—  
 'Roedd llawer derwen gawraidd gref  
 Yn ildio gwraidd ei nerth,  
 A holl gerbydau chwyrn y storm  
 Yn erlid naill y llall,  
 Pan genid cerdd wrth ddrws fy nhŷ  
 Gan hên delyniwr dall.

Ei farf yn fraith, a'i wallt yn wyn,  
 A'i rudd yn welw-lwyd—  
 'Roedd ganddo sgrepan draws ei war,  
 Ond sgrepan *wdg o fwyd* :  
 Chwim oedd ei law o dant i dant,  
 Yn chwareu "Lili Lon ;"  
 A d'wedai, "Dyma mywyd i,  
 Fy anwyl delyn hon."

Gwahoddwyd ef i ddod i mewn,  
 Ac at y tân fe ddaeth ;  
 Estynwyd enllyn ar y bwrdd,—  
 Teisenau ceirch a llaeth.  
 Ac wed'yn, gylch y fantell ddu  
 Eisteddem oll yn rhawd,  
 A chanu'r gwynt a'r storm yn mhell  
 Wnai'r hên delyniwr tlawd.

Adroddai chwedlau rhyfedd iawn,  
 Rhai difyr a rhai prudd,  
 Nes oedd tywyllwch dudew'r nôs  
 Yn gymysg gyda'r dydd.

Rhyw wely bach ar lawr y llofft  
 I'r hen delyniwr wnaed ;  
 Rhodd yntau'r glustog tan ei ben,  
 A'r delyn wrth ei draed.

Mwynhau wnai'r hên bererin hwn  
 Ei yagafn felus hûn ;  
 Ac o ddedwyddach fron nag ef  
 'Rhoed ni anadlodd dyn,—  
 Pe cynygasid coron aur  
 A theyrnas iddo fe,  
 Rwy'n credu na werthasai byth  
 Ei delyn yn eu lle.

Ar uchaf gopa Berwyn bân  
 Dydd newydd rodd ei droed,  
 A thano'r eira gwyn a phur  
 Ai'n wynach nag erioed :  
 'Rol storm ofnadwy'r nôs fe ddaeth  
 Têg foreu fel bu'r ffawd ;  
 A myn'd i'w daith dros drothwy'r bardd  
 Wnai'r hên delyniwr tlawd.

Pan welais ef yr eilfed waith,  
 'Mhen misoedd wedi hyn,  
 Wrth ddôr meddygdŷ curo'r oedd,  
 A'i ben mewn cadach gwyn,—  
 Ei gefn yn glai gan ôl y traed  
 A'i mathrent yn y ffôs,—  
 'Roedd wedi cwrdd dau lofrudd du  
 Yn un o'i deithiau nôs.

Dangosai fraich gleisiedig ddu,  
 Ac archoll yn ei gnawd,  
 A d'wedai, " Nid yw gwaedu'n ddim  
 I gorff cardotyn tlawd :  
 O na! mae'm *telyn* wedi myn'd—  
 Am byth ysgarwyd ni!  
 Ac wrth ei gollwng o fy llaw,  
 A'm gwaed y nodais hi."

Wrth ddwyn i ben fy nghaniad fer,  
 Os chwedl bruddaidd yw !  
 I gael ei delyn yn ei hol,  
 Bu'r hên delyniwr fyw.



O dŷ i dŷ chwareuodd hon  
 Yn fwynach nag erioed,—  
 Ond am y delyn, darn o raff  
 Am wddf y lladron roed.

## Dyngarwch.

ALAW,—“*Toriad y Dydd.*”

Buddugol yn Eisteddfod Cymrodorion Merthyr Tydfil, 1859.

A WELAIST ti garchardŷ, a bolltau oer ei glô,  
 Mor rydlyd, na wnai allwedd fach dyngarwch roddi tro?  
 Rho air yn sŵn y cyffion, oherwydd nid oes un,  
 Yn ysgwyd ei gadwynau rhwym, nad yw ef eto'n *ddyn*!  
 A welaist ti dylotŷ, nad oedd ei furiau e'  
 Yn agor gloer, it' wel'd i mewn i brudd ddirgelau'r lle?  
 O! cofia, pan gynfyddot y tlawd yn gofyn bwyd,  
 Fod Duw yn edrych arnat ti trwy lawer gwyneb llwyd!

A welaist ti mo'r meddwyn, a basiai ddrws dy dŷ,  
 Yn pasio eilwaith tua'r bedd mewn elor-gerbyd du!  
 'Roedd cnul yr angladd hwnw, fel geiriau barn o'r nef,  
 Yn galw pob dyngwrwr byw i'r beddrod ato ef.  
 O! dos ar draeth y Werydd, a gwrando ar bob tòn  
 Yn d'weyd gruddfianau'r caethion pell wrth greigiau'r ynys  
 A chofia pan benliniot, i ofyn ffafrau'r Iôr, [hon;  
 Am weddi'r Negro atat ti sy'n dyfod tros y mor!

## Gwladgarwch.

ALAW,—“*Morfa Rhuddlan.*”

Buddugol yn Eisteddfod Cymrodorion Merthyr, 1859.

TUA gwlad, mam a thad, gwena pob gwyneb;  
 Hwn yw tir codiad haul, serch ac anwydeh.  
 Yno mae, gwenau mwyn, borau ein bywyd,  
 Yn ein co', hon yw bro, Eden ein mebyd.  
 Nid oes dyn, nad oes tant, tŷn yn ei enaid,  
 Na ry don, i'w fro dêg, gwlad ei hynafiaid.  
 O, mae'm tant! Gymru'm tir, rhy wan i bara,  
 Heb ro'i tòn bur i ti, heulog wen Walia!

Eiddot ti'r, rhuddwaed hwn, deimlaf yn codi,  
 Yn ym bron, ac O 'm braich! mae'r hên waed ynddi.  
 Ond mae'r cledd, yn y bedd, gyda'r hen dadau.—  
 Bythol hedd i'r hen gledd, brynodd ein breiniau!  
 Doed y gwynt, ar ei hynt, tros dy fynyddoedd,  
 O! na chawn, i'm hiachau, chwaneg o'th wyntoedd;  
 Drosot ti, os daw'r storm, yn ei gerwindeb,  
 Gwalia fwyn, gweli fi, wyneb yn wyneb!

## Rhyddid.

ALAW,—“*Serch Hudol.*”

Buddugol yn Nghymdeithas Cymrodorion Merthyr.

GWEL, gwel, y gadarn Wyddfa wen,  
 Yn codi ei breninol ben  
 I dd'weyd fod Cymru'n rhydd!  
 O fryniau nawdd ein Rhyddid ni!  
 Rwy'n edrych arnoch yn eich bri,  
 “Rwy'n codi 'mreichiau atoch chwi!”  
 Gan oian, “Cymru Rydd!”  
 Ar uchel gopa Idris Gawr,  
 Ar Ferwyn a'r Plumlumon mawr,  
 Ac ar y creigiau is i lawr,  
 Awelon Rhyddid sydd:  
 Ac fel yr awel uchel gref,  
 Sy'n rhodio trwy gymylau'r nef,  
 Y Cymro hefyd, felly ef,  
 Mae'n rhydd, yn rhydd, yn rhydd!

Byth, byth, O Ryddid, na ro hûn  
 Ar amrant y truenus ddyn,  
 Eill oddef trais a cham:  
 Gad iddo deimlo'r ysbryd mawr  
 I ymwroli megys cawr,  
 Wnaiff daro'r gormesdeyrn i lawr,  
 Wna'i lys, a'i sedd yn fflam!  
 Yn hytrach na gorthrymol Hedd,  
 Ewropa cwyd! a thyn dy gledd,  
 Rho Ormes yn ei du-goch fedd,  
 Byth, byth, o weled dydd.

Ac yna cwyd hyd fanau'r nef,  
 Dy lawen-floedd, fel taran gref,  
 Mewn cân a dioloh iddo Ef,  
 Dy fod yn rhydd! yn rhydd!

## Heddwch.

[Gwnaed y ganig hon ar dderbyniad y newydd o arwyddiad heddwch rhwng Rwsia a'r Cyngrheiriad, yn 1866, pan derfynwyd y rhyfel Crimesidd.] Y Miwsig gan J. D. JONES.

OLYWCH eiriau Heddwch, clywch!  
 Mae'r nefoedd fel yn gwrando—  
 Clywch eiriau Heddwch, clywch!  
 Mae'r ddaear fel yn deffro.  
 Tarawyd ni yn fûd  
 Gan y trydan:  
 Melltenwch wfrau'r byd  
 Y newydd allan.  
 Ac allan â'r benyr ohwi blant y mynyddoedd—  
 Goleuwch y goelcerth,—a fflamied y tân;  
 Heddwch i ddyinion yw 'wyllys y Nefoedd:  
 Dygwn olewydd,†  
 Bloeddiwn y newydd,  
 Dyrchafwn y gân!

## Myfanwy Fychan,\*

Y Rhiangerdd Fuddugol yn Eisteddfod Fawr Llangollen, 1858.

Ni chredaf fyth fod dyn  
 Yn berchen calon iach,  
 Os na fydd ef yn un  
 Eill garu tipyn bach;  
 Ni chredaf chwaith fod mab na merch,  
 Na dynes *hardd*, heb adwaen serch.

\* Rhian nodedig am ei phrydferthwch, a fu yn byw yn Nghastell Dinas Bran, ger Llangollen, oddentu y flwyddyn 1390, ydoedd Myfanwy Fychan, yr hon, gydag Hywel ap Einion Llygliw, ydynt wrthddrychau y Rhiangerdd hon.

Ychydig wyddis am dani mewn traddodiad, yn amgen na fod rhyw amgylchiadau a rhwystrau anorfod wedi dyrnu ei chysylltiad serohus â Hywel ap Einion, yr hwn a gyfansoddodd iddi gyfres o englynion

Mae rhai wrth ddewis bûn  
 Yn edrych am un *gall*,  
 A chwilia arall un  
 Am arian gymaint all ;  
 Ond cael dwy galon bur ynghyd  
 Yw'r unig gamp er hyn i gyd.

Mae rhai am fychan droed,  
 A rhai am wyneb mwyn,  
 Y lleill yn myn'd wrth oed,  
 Ond pawb yn wysg eu trwyn ;  
 Ond O ! y llygaid duon hardd,  
 Yw'r iasau byw sy'n d'rysu bardd.

Ynglŷn a'r cestyll sydd  
 Yn britho Cymru lân,  
 Mae chwedlau lion a phrudd  
 At alwad plant y gân ;  
 A bydd " Myfanwy Fychan " hardd  
 Yn odl byth yn anadl bardd.

toddedig yn datgan ei offd a'i siomedigaeth yn gymysgedig & gobaith o adnewyddiad ei chyfeillach.

Mae yr englynion cryhwylledig, ac ystyried yr amser yr ysgrifenydd hwy, yn benigamp ac ysblenydd.

Er mor ansathredig yr iaith, a manol y gynghanedd, yn mha rai y cyfansoddwyd hwy, y mae y cydmariaethau dedwydd, y meddylddrychau godidog, a'r ffachiadau awenyddol sydd yn y llinellau goddlawn, yn taro y darlennydd & syrdod, yn enwedig, os bydd yn anadnabyddus & gweithiau yr hên feirdd Cymreig, ac heb goleddu syniadau uchel a phriodol am danynt yn flaenorol.

Mae yr englynion yn gyflawn yn " *Mycyrion Archaeology* ; " a chyfieithiad o honnynt i'r Saesoneg i'w cael yn " *Pennant's Tour in Wales*," o'r hwn er mwyn dwyn sylw mwy cyffredinol atynt, y dyfynwn y llinellau canlynol :—

<p><i>" Sorrowing I strike the plaintive string,          Deign, cruel maid, to hear me sing:          And let my song thy pride control          Divine enchantress of my soul.</i></p>	<p><i>O lonely flower of Trevor's race,          Let not a cruel heart disgrace          The beauties of that heavenly face.</i></p>
* * *	* * *
<p><i>" In golden song, in flowery lays          Sweetly I sing Myfanwy's praise;          O fairer thou art and colder too          Than new fallen snow on Arwen's brow !</i></p>	<p><i>Thy name the echoing vallies round,          Thy name, a thousand hills resound ;          Myfanwy Fychan—maid divine,          No name so musical as thine.</i></p>

Cafwyd y copi gwreiddiol yn ysgrifenedig ar yagrifgroen yn Nghastell Dinas Bran. (Lebright Col.)

Bu oesau 'n malurio hen gastell Llangollen,\*  
 Yn dwyn ei gadernid ystyfnig i lawr ;  
 O ganllaw'r saethyddion a thŵr y lluman-bren  
 Ymgyfyd carneddau aruthrol yn awr :  
 Trwy 'r holl ystafelloedd aeth tân y ffagoden,  
 Gan adael ei furiau yn foelion i'r gwynt ;  
 Wrth ochr y sylfaen gorweddodd y nenbren  
 Er pan oedd Myfanwy yn byw ynddo gynt.

Fe fu yn y Castell " ystafell addoli,"  
 Lle clywid gorfoledd a moliant cyn hyn ;  
 Fe fu yn y Castell " ddwy ffynnon i 'molchi,"†  
 Lle bu t'wysogesau fel eleirch gwyn gwyn :  
 Bu yno freninoedd—ond dibwys yw hyny,  
 Caed gormod o rhei'ny yn fawr ac yn fân,  
 Y cwestiwn mawr ydyw—*pwy oedd a fu 'n caru*  
 Yr eneth lygat-ddu yn Nghaer Dinas Bran ?

Pwy oedd a fu 'n caru?—pwy oedd a fu 'n *peidio* !  
 Ar ol unwaith weled Myfanwy dâg lân ;  
 Na, meddwl a chredu wnai llanciau 'r oes hono,  
 Fod priif ffordd paradwys trwy Llys Dinas Bran ;  
 I ddringo hyd ati os oedd yno fynydd,  
 A chamlas o ddyfroedd o amgylch ei dôr,‡  
 I gariad 'roedd edyn a groesent ddwrffosydd  
 Pe 'n ddyfned âg annwn—pe 'n lleted â'r môr.

Pan oedd doldiroedd Dyfrdwy fwyn,  
 A gerddi fil yn dechreu dwyn,  
 Goleśni tyner Gwanwyn i'r  
 Ar ol y rhew a'r eira hir,—

\* Mae y tri phenill a ddechreuant yma wedi eu cymhwyso i'r alaw boblogsaidd "Cader Idris," neu "Jenny Jones."

† "Fe fu yn y Castell ddwy ffynnon i 'molchi." Cyfeirir yma at yr hên hwiangerdd :

"Mae yn y Bala flawd ar werth,  
 A Mawddwy berth i lechu ;  
 Mae yn Lllyn Tegid ddwr a gro,  
 Ac efail go' i bedoli ;  
 Ac yn Nghastell Dinas Bran  
 Ddwy ffynnon lân i 'molchi."

Y mae awdwr lled ddiweddar yn dyweyd y galleid gweled, yn ei amser ef, y fan lle yr oedd y ffynnonau, ac hefyd y llanerch lle safai yr ystafell addoli.

‡ Y mae olion y dwrffosydd yn amlwg hyd heddyw. Amgylchynent y castell oddigerth un talcen iddo.

Pan oedd y coed mewn melyn haul  
 Yn cyfarch dynion gyda dail,—  
 Pan gyd-delorai adar mân  
 Ar frig adfywiol goed,  
 I Ddinas Bran daeth gwyneb glan  
 Myfanwy gynta' rïoed.

Daeth teulu Trefor bob yr un \*  
 I dafu golwg ar y fân.  
 Uwch ben y fach yr oedd yno fyd,  
 Sŵn hwian, hwi, a siglo cryd,  
 A chyda'r fam yr adeg hon  
 'Roedd nain a thaid yn gwenu'n llon.

Medd un, "Mae rhywbeth ynnddi hi,  
 Yn debyg iawn i'n teulu ni;"  
 "Oes," ebai'r llall, "mae'i gën fach gron  
 Yn hollol fel 'roedd hon a hon;"  
 Y trydydd dybia'i thrwyn bach main,  
 "'Run ffunud bron a thrwyn ei nain;"  
 Ond barnai'r llall ei gwyneb crwn  
 "Yn hollol fel 'roedd hwn a hwn."  
 "Na," ebai'r taid, "os hoffet ti  
 Gael llân Angharad—dyma hi!" †

Deffrôdd Myfanwy gyda hyn,  
 Pan oedd perth'nasau'n dadlu'n dŷn—  
 Hi griai'n dost, a'i grudd yn wleib,  
 Ac ni thebygai ddim i neb.

Nid hir bu'r cryd, y lin, a'r fron  
 Yn gwneud genethig dlos o hon:  
 Diniwed oed y chwareu ddaeth,  
 Ond cyflym trwy'i theganau'r aeth:  
 Di'styrlyd toc i'r lodes wen  
 Oedd bod yn fam i ddoli bren.  
 Hi ddaeth i hoffi rhodio'r ardd,  
 I ddysgu caru'r tlws a'r hardd—

\* Yr oedd y foneddiges ieuanc, yn ol yr hanes geir am dani, ac hefyd yn ol crybwylliad Hywel, yn ein Nodiad cyntaf, yn un o linach antarwol y Trevorïaid.

† Yr oedd Angharad hefyd, gwraig hynod y Brenin Arthur, yn un o'r boneddigesau a roddasant fri ac arbenigrwdd i deulu Trevor. Fel enw a ddefnyddid gan y teulu y crybwyllir yma am Angharad.

I ganu'n fwyn a chael boddhad  
 Yn nhelyn aur a chrwth ei thad ;  
 Ond ni ddigonodd hi ar hyn,  
 'Roedd rhaid cael ryban coch a gwyn,—  
 Mantelli tég o bali drud,  
 'Nol diweddaraf ddull y byd.  
 A chur wnai boen i'w choryn bach .  
     Nes ca'dd y benwisg hono,  
     A yrai'r boen oddiyno,  
     Wnai ben Myfanwy'n iach.

Gylch Dinas Bran y dyddiau gynt  
 'Roedd derw mawr yn lleddfu'r gwynt,  
 Ac yn eu plith hen geubren mawr  
 A fu am oesau'n gwyro i lawr,  
 'Run fath a Dinas Bran yn awr.

Ryw foren daeth Myfanwy gu,  
 I rodio heibio'r boncyff du ;  
 Hi welai agen yn y pren  
 Ac ynddi dlos beithynen wen ;—\*  
 " Beth allai fod ?" medd hi yn syn,  
 " Beth allai fod mewn lle fel hyn ?"  
 Peithynen oedd, 'roedd hyny'n wir—  
 Hi welai rai llyth'renau'n glir.  
 Ei mynwes ofnus chwyddai'n llawn,  
 Ni wyddai beth i wneyd yn iawn.—  
 Hi syllai ogyloch yma 'thraw  
 Ni welai neb,—lliniarai ' braw ;  
 Chwilgarwch chwyddai ynddi'n gryf  
 Nes codai'i braich yn ofnus-hŷf,  
 Ac ar y foment llaw fach wen  
 Gymerai 'r ysgrif hono'r pren :—†

\* "*Peithynen*, a frame of writing which consisted of a number of four-sided or three-sided sticks written upon, which was put together in a frame so that each stick might be turned round for the facility of reading."—DR. PUGH.

Y Pillwydd a fyddant ddau hanerog bob carfan, sef fal y gellir eu hagar a'u caead i gymeryd a chyfrwymaw'r Peithwydd neu'r ebillion awy garfan y sydd yn mhob caeogen.

\* \* \* \* \*

Rhai a ddodent y peithwydd yn y lliw glas y lliwir gwlan ynddo, ag yn sefyll nis bo glas lliw bob un o honynt a gadael iddynt sychu, yna torri llythrau, a hwy a fyddantwynnion ac amlyocach ar y coed gleision na phetysaint heb liw.—IOLLO M.S.S.

† Gellir canu y saith bennill dyllynol ar y mesur Cymreig " Mwynen Merch," heblaw ar yr alaw newydd gan Owain Alaw.

“ Mewn gweithred, mewn gwisg, ac mewn gwedd,  
 Un rhyfedd yw bardd yn mhob oes,  
 Un trwstan o'i febyd i'w fedd,  
 A siwr o wneyd pobpeth yn groes ;  
 Os disgyn ei lygad ar ferch  
*Prydyddu* wneiff ef iddi hi,  
 Yn lle myn'd a siarad ei serch.  
 Rhyw garu go wirion yw danfon penillion i ti—  
 Yw *cuddio* penillion i ti.

“ Myfanwy ! 'rwy'n gweled dy rudd  
 Mewn meillion, mewn briall, a rhos :  
 Yn ngoleu dihalog y dydd,  
 A llygaid serenog y nos :  
 Pan gytyd claer Wener ei phen  
 Yn loew rhwng awyr a lli,  
 Fe'i cerir gan ddaiar a nen.  
 I f' enaid, Myfanwy, goleuach, O tecach wyt ti !  
 Anwylach, perffeithiach wyt ti !

“ Fe dd'wedir fod beirddion y byd  
 Yn symud yn byw ac yn bod,  
 Rhwng ddear y doeth a Gwlad Hud,  
 Ar obaith anrhydedd a chlod ;  
 Pe b'ai anfarwoldeb yn awr  
 Yn cynyg ei llawryf i mi,  
 Mi dafwn y lawryf i lawr—  
 Ddymunwn i mo'ni, fe'i mathrwn os na chawn i di,—  
 Myfanwy, os na chawn i di !

“ Myfanwy ! ai gormod yw d'weyd  
 A hōni mai bardd ydwyf fi ?  
 Os ydwyf—'rwyf wedi fy ngwneud  
 A'n hurddo i'r swydd genyt ti !  
 Dy lygad fu'r 'cleddyf diwain,'  
 A'th wyddfod oedd 'gorsedd' fy mri,  
 Cylchynaist fi byth gyda 'main ;'  
 O fywyd fy Awen ! Myfanwy, mi ganaf i ti—  
 Anadlaf fy nghalon i ti !

“ O ! na bawn yn awel o wynt  
 Yn crwydro trwy ardd Dinas Bran,  
 I sŷo i'th glust ar fy hynt,  
 A throelli dy wallt ar wahan :



Mae'r awel yn droiog a blin—  
 Un gyne ac oer ydyw hi ;  
 Ond hi sy'n cusanu dy fin.  
 O feinwen fy enaid, nid *troiog* fy serch atat ti,  
 Trag'wyddol yw'm serch atat ti !

“ Mewn derwen agenwyd gan follt  
 Draig-fellten wen-lachar ac erch ;  
 Gosodaf fy mraich yn yr hollt  
 A chuddiaf beithynen o serch.  
 Ni'm gwelir gan nebun, ond gan  
 Y wenlloer—gwyn fyd na baet hi,  
 Er mwyn iti ganfod y fan.  
 Ond coelio mae'm calon fod ysbryd eill sibrwd â thi—  
 Eill dd'wedyd y cwbl i ti !”

Petrusai Myfanwy *pwyl oedd* a roisai'r beithynen yn gudd ?  
 A d'wedai,—“ rhyw ffolyd o fardd ;” ond *teimlodd ei gwaed*  
*yn ei grudd ;*  
 Disgynodd ei llygad drachefn ar “ na bawn yn awel o wynt  
 Yn crwydro trwy ardd Dinas Bran,”—*a churodd ei chalon*  
*yn gynt.*  
 “ Mi droellet fy ngwallt—O mi wnaet! wyt hynod garedig,”  
 medd hi,  
 “ A phe bawn yn süo i'th glust, mi dd'wedwn mai gwallgof  
 wyt ti ;  
 Mi hoffet gael cusan, mi wnaet! ond cymer di'n araf fy  
 ffrynd,”—  
 Hi geisiai ymgellwair fal hyn,—*ond O ! 'roedd ei chalon yn*  
*myn' d !*  
 'Roedd wedi breuddwydio dair gwaith, heb feddwl doi'r  
 breuddwyd i ben,  
 Fod un o g'lomenod ei thad, yn nythu yn agen y pren—  
 Heb gymar yn agen y pren !

Y nesaf fardd i Dinas Bran  
 Oedd Hywel bach, ap Einion ;  
 Ac nid oedd neb, yn fawr na mân,  
 Os byddai eisiau pill o gân,  
 Na redent ato'n union.

Er nad oedd ef ond ieuanc iawn  
 Yn mysg yr awenyddion,

Ond yn ei febyd yr oedd dawn  
 A gywilyddiai Dderwydd llawn  
 O urddau braint Bryn Gwyddon.\*

Ond ar un tant yn nghalon dyn  
 Y medrai ef "fyn'd iddi,"  
 Sef teimlad mab a chariad mân :  
 A byth saif Hywel wrtho'i hun  
 Fel bardd y Rhiangerddi.

Yr oedd yn mhalas Dinas Bran,  
 Faich serch ar feddwl meinwen ;  
 'Roedd yn ei mynwes serchus dân,  
 Ond pwy anadlai hwn mewn cân  
 Yn ateb i'r beithynen ?

Wrth droed y bryn 'roedd tŷ a gardd  
 Yr awenyddol fachgen—  
 I mewn yr aeth Myfanwy hardd  
 A cha'dd yn Hywel *ddyw* a bardd  
 Wnai ateb y beithynen.

Myfanwy a Hywel eisteddent i lawr,  
 Ac, O! mae hi'n gyfyng a chaled yn awr !  
 Mae un yn pryderu o herwydd nad all  
 Ymddiried cyrinion carwrol i'r llall ;  
 A phwy nad all faddeu ar unwaith i'r fân,  
     Ar bwnc carwriaethol,  
     Am deimlo'n dueddol  
 I fod braidd yn gynil o'i hanes ei hun ?

O'r diwedd hi gafodd ei thafod yn llefn,  
 Ac aeth dros yr hanes drachefn a thrachefn ;  
 Hi enwai yr wythnos a'r diwrnod y bu  
 Yn pasio'n ddamweiniol yr hen foncyff du ;  
 A thraethodd ei breudddwyd am agen y pren,—  
     A Hywel wrandawai,  
     A Hywel ryfeddai—  
 A Hywel mewn cariad dair llath tros ei ben.

Gan dynu y swynol beithynen o'i bron,  
 Gofynai Myfanwy—"A welwch chwi hon ?—"

\* Bryn Gwyddon, un o ddeg cadeiriau Beirdd Ynys Prydain.

A fedrwch chwi wneuthur rhiangerdd i mi,  
 A llunio peithynen mor brydferth a hi?"  
 "Mi geisiaf fy ngoreu," medd Hywel yn llon,—  
     Gan dd'weyd rhyngo'i hunan,  
     " Myfanwy bach druan,  
 Nis gwyddost mor agos yw'r llaw a wnaeth hon."

" A fedrwch chwi wneuthur pob carfan mor lefn,  
 Yn dechreu'r llinellau mor dlws o ran trefn?  
 A gwneud y llyth'renau 'n wahanliw i'r pren—  
 'Rwyf am gael ei gwneuthur yn brydferth tros ben:  
 A cherfiwch *ddwy galon* yn rhywle, da chwi,  
     A gwnewch i'r calonau  
     Gyd-daro'u hymylau,  
 A rhoddwch 'MYFANWY' yn nghanol fun i."

A Hywel ap Einion atebodd y fân,  
 "Bydd hyn yn farddoniaeth pe dim ond ei hun;  
 Ymdrechaf gyflawni pob peth wrth eich bodd,  
 A gwneud y beithynen mor dlos ag mae modd"—  
 Ond methai dd'weyd 'chwaneg, rhy gryf oedd ei serch;  
     'Roedd fel yn dymuno  
     Am fân i fyn'd iddo,  
 I'r ddaear neu rywle o olwg y ferch.

" Ond Hywel ap Einion, pan fyddoch yn gwneud  
 Y deryn barddonol, pa beth wnewch chwi ddweyd?—  
 O d'wedwch fy mod yn aderyn bach rhydd,  
 Yn rhodio'n ddigymar yn nghanol y gwŷdd—  
 Fy mod yn ehedeg i entrych y nen,  
     I rwgnach fy nhynged,  
     Na chaffwyf ei weled,  
 Yn dangos ei hunan o agen y pren.

" O Hywel ap Einion, dywedwch na chaf  
 Ond dunos bob dydd, a gauaf bob haf,  
 Ac oes yn mhob blwyddyn—mai *bedd* imi fydd  
 Y bywyd wyf ynddo, *tra'r erys e'n gudd*.  
 O! 'rwyf yn ei garu, ond allan o le  
     F'ai dw'edyd yn union  
     Fy mod i mor wirion;  
 Ond fe gaiff Myfanwy, pwy bynag yw fe!

"Nos da'wch i chwi, Hywel, 'mhen deuddydd neu dri  
 Mi nolia'r beithynen, os parod fydd hi;"

“Nos da'wch,” ebai Hywel, “a melus bo'ch hân—  
Bydd pobpeth yn barod os galwch nos Lun.”  
Gadawyd Ap Einion ei hun wrth y tân,  
A'r lodes a ddringai  
Y llwybr arweiniaï  
O fŵth y bardd ieuanc i'r hên Ddinas Bran.

A phan oedd yn cerdded i fynu  
Yn ymyl y Tŵr\* wrthi 'i hun,  
Hi dybiai fod Hywel ap Einion  
Yn fardd, ac yn bobpeth *ond dyn*,  
Am na b'asai'n cynyg  
I'w hebrwng ychydig  
Yn lle ei gorchymyn i alw nos Lun.

Hi dd'wedai, “Peth rhyfedd na ddeusai  
Cyn belled a llidiart y cae,  
Gan ddangos ei hun yn gyfartal  
A chystal a minau, fel b'ai—  
I'm hebrwng yn siriol,  
Yn hyf ac yn wrol,  
Yn lle bod yn swil fel y mae.

“Ond gresyn na b'asai 'n well arno—  
Yn berchen rhyw dipyn o 'stad!  
Waeth teui—y mae rhywbeth ynddo  
Yn hoffach na neb yn y wlad : ”  
Gan araf ymddringo,  
A meddwl am dano,  
Cyrhaeddodd Myfanwy i neuadd ei thad.

A d'wedir na chauodd Ap Einion  
Ei lygaid yn effro na hân—  
Na phrofodd ddyferyn o ddiöd,  
O ymborth, na maeth iddo 'i hun,  
Nes oedd wedi gorphen  
Yr harddaf beithynen  
A luniwyd gan fab—ddarllenwyd gan ffn.

Ar ol iddo gredu 'r ddiäreb  
Fod “cariad yn fwyd ac yn faeth,”

\* Y Tŵr, o ran ei hynafiaeth dywedir fod y Tŵr yn gyfoed a'r Castell, ac yn gyfranog o'i helyntion dan ystormydd rhyfel a hin. Adfuriad yw yr annedd eiwir telly yn bresenol, ar sylisen y lwr cyntefig.

O'r diwedd, y nôs bennodedig  
 I nol y beithynen a ddaeth :  
 Disgwyliai yn hir am Fyfanwy,  
 A gwelai bob munud yn awr,  
 Nes oedd ei amynedd yn fechan,  
 A'i ofn a'i ddrwgdybiaeth yn fawr.

Yr haul fachludasai er's meityn,  
 Pa rwystr—pa ddrwg allai fod,  
 Nad oedd y forwynig o'r castell  
 Yn ol ei haddewid yn dod ?  
 Ymollwng drachefn i anobaith—  
 A phan oedd ei ddwrn ar ei glun  
 Yn tyngu y boddai ei hunan,  
 Dangosodd Myfanwy ei hun.

Dan fwrdd yr ystafell er's oriau  
 Ymguddio 'n ddiogel wna'r fân.  
 Bron myned yn deilchion gan chwerthin  
 Wrth gael yr holl fwyniant ei hun!  
 Ail sylodd Ap Hywel i'w hwyneb,  
 A d'wedai,—“Wel dyma mi dro!—  
 Pa bryd a pha sut daethoch yma—  
 A gawsoch chwi'r drws heb un clô?”

“Na hidiwch.” atebai Myfanwy,  
 “Bum yma fy hun trwy'r prydawn,—  
 Fe dd'wedaf 'pa sut,' ar ol gweled  
 A wnaethoch chwi'r peth hwnw'n iawn ;  
 O Hywel! orphenwyd ef genych ?  
 A gawsoch chwi hwyl efo'r gwaith—  
 I'w lunio fo'n dlws ac addurnol?—  
 Yw'r dernyn barddonol yn faith?”

“Rhowch weled,”—“Aroswech!” medd Hywel,  
 A thynai'r beithynen o'i fron—  
 “Gadewch im' ei darllen hi allan,  
 Ac yna cewch edrych ar hon :  
 Pur fyr ydyw'r 'dernyn barddonol'—  
 Fe geisiais bob modd a phob dull  
 I foddio fy hun yn ei *gerfiad*,  
 Ond cerfiais ef hefyd yn hyll,”

'Bol darllen y deryn fe dd'wedai,—  
 " Os nad ydyw berffaith ddi wall,  
 Nis gall y naill gariad, chwi wyddoch,  
 Byth ganfod ffaeledau y llall."

Pur debyg i'r môr ydyw cariad,  
 Mae ganddo fo lanw a thrai ;  
 Fe chwydda—ond nid ydyw lawnach,  
 Fe gilia—ond nid ydyw lai ;  
 Ymchwyddo'r oedd teimlad Myfanwy,  
 Ac nid all'sai dim ei wahardd,—  
 Hi garai ohebydd y ceubren,  
 Ac *hefyd* Ap Einion y bardd.

Ac er fod petrusder yn amlwg  
 Ar wylaidd wynëbpryd y ferch,  
 Atebai fel hyn ond heb awgrym  
 Fod Hywel yn wrthrych ei serch—  
 " Ap Hywel, 'rwyn oredu o'm ealon  
 Y cedwch er nad y'ch ond *dys*,  
 Yr oll o'n cyfrinach bresenol  
 Fel pe bawn yn ohwaer i chwi 'ch hun.

" Rwy'n d'wedyd, mai gwell genyf farw,  
 A'm oladdu nas gwn i pa le,  
 Na gwrthod fy mhen ar ei fynwes  
 I'w garu pwy bynag yw fe!

" Ar ol y fath freuddwyd a gefais,  
 Aniansawd fy natur ni fyn  
 Reymu ei hun i ddoethineb—  
 I serch mae'r uwchafiaeth yn hyu :  
 O dan amgylchiadau mor hynod  
 Ni ddichon fy mod o fy lle ;  
 Na ! d'wedaf o eigion fy nghalon,  
 Fe 'i caraf pwy bynag yw fe!

" Ond, oni chersiasoch ddwy galon,  
 Ac enw 'MYFANWY' yn un,  
 Gan adael y llall iddo yntau  
 Lawnodi ei enw ei hun ?"

Symudai Ap Einion un garfan  
 Daeth tymor amheuson i ben—

Anwylyd Myfanwy ddaeth allan  
 O'i guddfan yn "agen y pren!"  
 Canfyddai ddwy galon gyfymyl,  
 Mewn cerflad celfyddgar di wall,  
 "MYFANWY" yn nghanol y gyntaf,  
 A "HYWEL" yn nghanol y llall!

## Nedi Jones.

Y Miwaig gan OWAIN ALAW.

'ROEDD Nedi Jones yn ugain oed,  
 Pan deimlai 'hun yn caru Lowri;  
 'Roedd ef yn grefftwr goreu 'ricod,  
 A hithau 'n forwyn hynaws, heini':  
 Un diwrnod cwrddodd Nedi Jones  
 Ei ewyth' Rhys o Gwm Llanedi;  
 Ac mewn difrifwch sobor, sŷn,  
 Fel hyn gofynai Nedi:—  
 O! deudwch imi f' ewyth' Rhys,  
 'R'ych chwi yn hen ysglai,  
 Oes mwy na theirpant yn y mis  
 Yn myn'd i gadw gwraig?

A welsoch chwi mo Lowri dlos,  
 A hithau 'n canu yn y capel?  
 Mae hi a'i brawd bob odfa'r nos,  
 Uweh ben y dloc yn ffrynt yr oriel.  
 Fy ewyth' Rhys, mae gwel'd y dloc  
 Yn gwneud i'r llanciau oll bendroni;  
 Mae llygaid pawb yn slipio 'n gam,  
 Yn syth i wyneb Lowri,—  
 O! deudwch, &c.

"Wel, Nedi bach, pa beth yw 'r brys  
 Sydd arnat ti am dy briodi?"—  
 Pa beth yw'r brys! fy ewyth' Rhys,  
 A minau 'n ofni colli Lowri!—  
 Cawn ddwybunt yn y mis o'r clwb,  
 Pe cawn fy nharo gan ryw selni;  
 'Rwy'n siwr mai ar y clwb yr awn,  
 Pe hawn yn colli Lowri.  
 O! deudwch, &c.

"Am fara, cig, a chaws, a glo,  
 Aiff teirpant Nedi, os nad 'chwaneg."  
 Twt! efo Lowri gwnawn y tro,  
 Ar datws llaeth, neu uwd a thrieg ;  
 Mi besgwn, f' ewyth, ar y gwynt,  
 Ond waeth heb gabarlulio siarad,—  
 'Does neb yn gwybod pa sawl punt  
 Yw teirpant, lle bo cariad :  
 A does a ddel fy ewyth' Rhys,  
 Os nad wyf fawr o sglraig,—  
 Mi dreiaf deirpant yn y mis,  
 I gadw gwr a gwraig.

## Gwendolen Pugh.

Y Miwsig gan OWAIN ALAW.

Pan oeddwn i ddoe yn y farchnad,  
 Yn cerdded trwy heol y pant,  
 Pwy gwrddwn, ond Arthur Cadwalad,  
 Yn myn'd 'i gael tynu 'i ddant ;  
 Ac wrth ini son am y ddanodd,  
 Fe basiai Gwendolen trwy'r Llan,  
 A thaflodd ei llygad ar Arthur,  
 Nes mendiodd ei ddant yn y fan.  
 Rhag danodd, a pheswch, a chnoi,  
 A blinder o bob rhyw,  
 Y cyngor goreu fedraf roi,  
 Yw canu Gwendolen Pugh,  
 Yw canu Gwendolen Pugh.

'Roedd cyngherdd y gauaf diweddaf,  
 Yn ysgol Brydeinig y Llan ;  
 Ond er yr holl rewynt a'r eira,  
 Cyrhaeddodd Gwendolen y fan.  
 'Roedd pawb o'r gwrandawyr yn rhynu,  
 A dulas eu trwynau bob un ;  
 Ond Arthur fel tōst yn y pobty,  
 Yn ymyl Gwendolen, ei fūn.  
 Rhag oerfel, a pheswch, a chnoi,  
 A blinder o bob rhyw,  
 Y cyngor goreu fedraf roi,  
 Yw canu Gwendolen Pugh,  
 Yw canu Gwendolen Pugh.



Bu Arthur yn glaf am dair wythnos,  
 O herwydd rhyw gric yn ei gefn ;  
 A'r oll o'i gyfeillion gredasant  
 Na chodai o'i wely drachefn :  
 Doctoriaid, ar ol dod i'w weled,  
 Dristäent, ac ni dd'wedent air ;  
 Ond noliwyd Gwendolen i'w olwg,  
 A mendiodd mewn dwyawr neu dair.  
 Rhag salwch, a pheawch, a chnoi,  
 A blinder o bob rhyw,  
 Y cyngor goreu fedraf roi,  
 Yw canu Gwendolen Pugh,  
 Yw canu Gwendolen Pugh.

### Canu'r Lleuad.

[Y miwsaig yn yr ail rifyn o'r 'Gems,' gan OWAIN ALAW, i'r hwn y mae'r awdwr yn dra dyledus am iddo wneuthur alawon i amryw o'i ganiadau.]

WYDDOCH ohwi beth ? mae'r lleuad  
 Fel gwyrif ieuanc dlôs,  
 Yn gwneud i lawer godi  
 I garu yn y nos ;  
 Hi edrych drwy ffenestri  
 I ystafelloedd hûn,  
 Nes gwenu 'r llanciau allan  
 I garu bod ag un.

O ! diolch am y lleuad,  
 Fe nghododd i ryw dro ;  
 Mi godais inau 'm cariad  
 Wrth guro brig y to ;  
 Ond O ! pan welais Betsi,  
 Anghofio 'r lloer wne's i,—  
 'Doedd fawr o garu 'r lleuad  
 Rhwng Betsi Wyn a fi.

Ac fel yr ymddiddanem  
 O amgylch tân o fawn,  
 'Roedd Betsi yn dafotrwg,  
 Yn hel a thrin yn iawn ;  
 Edliwiem hen gariadau,  
 Ac wed'yn yn ddioed  
 Diweddem gyda chusan  
 Mwy cynes nag erioed.

Hi dd'wedai'n bendant wrthyf,  
 Na wnai briodi byth ;  
 Gan daro 'i boch a gwenu  
 Atebwn inau 'n syth,—  
 Cyn wired a bod tatws  
 Yn tyfu ar y coed,  
 Y mynwn gael priodi  
 Os mynwyd dim erioed.

'Boedd hyn yn garu digrif,  
 Ond difyr, difyr iawn ;  
 Yr eneth oll yn dafod,  
 A minau oll yn ddawn.  
 Mae 'r loer yn codi eto,  
 Ond nid i'n codi ni—  
 'Bwyf fi yn ŵr i Betsi,  
 A Betsi 'n wraig i mi.

## Nant y Mynydd.

[Y miwsig wedi ei addasu yn y 'CERDDOR CYMRIG,' gan LEUAN GWILLT.]

NANT Y MYNYDD, groew, loew,  
 Yn ymdroelli tua 'r pant ;  
 Rhwng y brwyn yn sisial ganu,  
 O na bawn i fel y nant !  
 Grug y Mynydd yn eu blodau,  
 Edrych arnynt hiraeth ddug,  
 Am gael aros ar y bryniau  
 Yn yr awel efo 'r grug.

Adar mân y mynydd uchel,  
 Godant yn yr awel iach ;  
 O'r naill drum i'r llall yn 'hedeg—  
 O na bawn fel 'deryn bach !  
 Mab y Mynydd ydwyf inau,  
 Oddicartref yn gwneud oân,  
 Ond mae 'm calon yn y mynydd  
 Efo 'r grug a'r adar mân.

## Marwolaeth Ieuan Glan Geirionydd.

Allgan ar ei Hymn doddedig ef.

Ar lân Iorddonen ddofn  
 Y mynych gwrydraist,  
 Mewn blys myn'd trwy, ac ofn,  
 Ond ti anturiaist !  
 A'r byw a'th welsant di  
 Yn croesi' hymohwydd hi,  
 Yn hedfan uwch y lli'  
 I'r Ganaan welaist.

Ti wyddit rym y dwr  
 Oyn myned iddi,  
 A gwyddet am y Gŵr  
 Sydd Gyfaill ynddi ;  
 Os teimlet fel yn wân,  
 Llwyddianus fu dy ran,  
 Cyrhaeddaist dawl lân  
 Bro y goleuni.

A ninau welwn draw,  
 Ar fynydd Seion,  
 Yn iach heb boen na braw,  
 Y cywir Gristion :  
 Ar lân Iorddonen gref,  
 Mewn hiraeth am y nef,  
 Cân myrdd ei Emyn ef  
 I'r dyfroedd dyfnion.

## Un Foreu tyr'd i'r Ysgol Sul.

Os wyt yn caru'th blant,  
 A thyner galon tad ;  
 Os swyllysi ar i Dduw  
 Barhau yn Dduw dy had ;  
 O gwrandaw ar y llais  
 Sy'n galw yn ddidaw,—  
 Yn foreu tyr'd i'r Ysgol Sul,  
 A'r Beibl yn dy law.

Os wyt yn caru dyn,—  
 Os wyt yn teimlo sêl  
 Tros addysg a oleua'r ffordd  
 Yn mlaen i'r byd a ddêl,—  
 Os credaist fod y bedd  
 Yn ddôr i fywyd draw,  
 Yn foreu tyr'd i'r Ysgol Sul,  
 A'r Beibl yn dy law.

Os wyt yn caru Duw,  
 A'i achos yn y byd,—  
 Os hoffet weled dynolryw  
 Dan faner Crist ynghyd;  
 A gweled goleu wawr  
 Trwy wyll y byd a ddaw,  
 Yn foreu tyr'd i'r Ysgol Sul,  
 A'r Beibl yn dy law.

## Dychweliad y Gloddiwr Aur.

ALAW,—“*Glan Meddwod Mwyn.*”

YN blentyn pen-felyn gadewais fy ngwlad,  
 Ac ofer am danaf fu ymchwil fy nhad;  
 Bu gobaith a phryder, fel dwfr gyda ffam,  
 Mewn ymdrech â'u gilydd yn mynwes fy mam:  
 A'm ieuainc chwïorydd hiraethu wnaent hwy,—  
 Ond misoedd aent heibio,—daeth blwyddyn—daeth dwy,—  
 A darfu pob gobaith o'm gweled i mwy;  
 Ond heno, ond heno, dychwelais i'm gwlad,  
 Os marw fum unwaith, derbyniais fywhad  
 I chwareu'r hen delyn yn nhyddyn fy nhad.

Tywelltwch i'r hirlas, gyfeillion,—neshawn,  
 Cydganwn, cydyfwn, a chydlawenhawn;  
 Os tlawd yw fy rhiant, a'u hangen yn fawr,  
 Ceir gweled y trysor cyn toriad y wawr:  
 Aur-glampau y gloddfa fel maent yn ei bru,  
 Ac eurlwch y ddaiar gewch weled yn llu—  
 Mae'r cistau 'n ddiogel, maent oll yn y tŷ:  
 Y meusydd lafuriwch ddônt i chwi'n ystad,  
 Ac os oes mewn golud fêl-ddiliau mwynhad,  
 Mae mwyniant diderfyn yn nhyddyn fy nhad.

## Owain Wyn.

### BUGELGERDD.

CLOGWYN anwyl, hoff gan i  
 Yw hamdden am fynudyn,  
 Tafu careg i fy nghi,  
 Neu eistedd ar dy gribyn ;  
 Gwilio 'r afon glir islaw,  
 A gollwng fy myfyron  
 I'r terfysglyd drefydd draw,  
 Yn miwsig ei murmuron.

Bywyd Bugail—bywyd yw  
 Nas gŵyr y byd am dano,  
 Heibio 'r bryniau wele 'r byw  
 Fel nant yn rhedeg heibio ;  
 Golud, enw, 'bydol fri,  
 Yw eilun-dduwiau dynion ;  
 Mwy na 'r oll i'm golwg i  
 Yw praidd y bryniau gwylltion.

Praidd y mynydd—O! fy mhraidd!  
 Mae pleser wrth eich gwyllo,  
 Cyn i'r sêr fachludo braidd,  
 A chyn i'r dwyrain ddyddio ;  
 Pan gusano 'r haul y lli',  
 Y'm gyda chwi ein defaid ;  
 Fel ein calon, felly chwi  
 Yn mynwes eich bugeiliaid.

Gyda phraidd y mynydd gwyllt,  
 Tynghedwyd ni a'n dyddiau ;  
 Llwybrau defaid, wyn, a myllt,  
 Yw 'r llwybrau deithiwn ninau ;  
 Weithiau tân y creigiau certh,  
 Yn nghanol y mynyddoedd,  
 Dim i'w wel'd ond bryniau serth,  
 A thyner lesni 'r nefoedd.

Yna dringo pen y bryn,  
 Hyd risiau craig ddaneddog,  
 Gwel'd y nant, y cwm, a'r glyn,  
 Y ddôl, y gors, a'r fawnog ;

Edrych ar y ceunant du,  
 Fel bedd ar draws y bryniau ;  
 Bedd, yn wir, medd hanes, fu  
 I lawer un o'n tadau.

Llawer craig fygythiol sydd  
 Yn gwgu ar ein bywyd ;  
 Ond mae arnynt ddwyllaw cudd,  
 Ac nid oes maen yn syflyd ;  
 Clywir llais y dymestl gref,  
 A chwiban y corwyntoedd,  
 Rhŷa croch daranau 'r nef,  
 Ond huno wna 'r mynyddoedd.

Fel yr hen fynyddoedd olyd  
 Y'm ninau yn mysg dynion ;  
 Ysed tân ddinasoedd byd,  
 A chwymped seddau 'r mawrion,  
 Llwybro gyda 'n defaid wnawn,  
 A thrin ein huchel diroedd ;  
 Hân o bur dawelwch gawn  
 Yn mynwes y mynyddoedd.

Fel yna canai llencyn mwyn  
 Ar grib y graig, nes iddo ddwyn  
 Ei hun i sylw llances lân,  
 Yr hon wrandawai ar ei gân.  
 Hi ddaethai ar ladradaidd droed  
 I lwyn îslaw, ac yn y coed  
 Ymguddio 'r oedd, yn glust i gyd  
 I gerdd yr hwn oedd iddi 'n fyd.  
 Ei gwddf oedd fel lili wen,  
 A nos o wallt oedd ar ei phen ;  
 I'w chariad ar y clogwyn ban,  
 Rhy amlwg oedd ei hymgudd fan.  
 Ei Olwen oedd ! a serch ei fron  
 Newidisi 'r gerdd i'r ganig hon :—

“ Mae genyf wen golomen ddôf,  
 Ericod heb golli pluen,  
 Ac edrych arni leinw 'm oôf  
 A holl brydferthwch Olwen ;  
 O ! mae hi 'n hardd ! a hardd fydd byth  
 Aderyn diniweidrwydd ;

Pan alwaf arni tan ei nyth,  
 Hi ddisgyn ar fy ysgwydd ;  
 Ond hyn sy 'n tori 'm calon i,  
 Pan alwaf Olwen ni ddaw hi !

Ac mewn gwialeg ar y mur  
 Mae 'deryn du bigfelen,  
 A dau eithafedd harddwch pur  
 Yw 'r deryn du a'r g'lomen ;  
 Y du yn edrych ar y wen  
 Trwy wiail eu gaethiwed,  
 A hithau 'n chware uwch ei ben  
 Heb gym'ryd arni weled ;  
 Ac er yr awr caethiwaist fi,  
 O ! Olwen anwyl, felly ti !

Yn fynych iawn gwnai 'r deryn du  
 Ryw olwg bur ddigalon,  
 A mawr ddymunai golli 'i blu,  
 A chael rhai eraill gwynion ;  
 Rho 'i ben i lawr yn brudd a syn,  
 Fel pab yn myn'd i weddi,  
 A d'wedai " O ! na bawn yn wyn,  
 Doi 'r g'lomen fach i'm hoffi :  
 Ac felly, Olwen, d'wedaf fi,  
 O ! na bawn ~~eyn~~ i'th olwg di !

Pan oedd y wen ar nen y tŷ,  
 Ryw fore teg yn Medi,  
 Mi welwn ryw golomen ddu  
 Yn hedeg tuag ati ;  
 Ac ar ol caru am ddwy awr,  
 Addawai 'r wen briodi ;  
 Ai felly fu ?—na choelia 'i fawr,  
 Y du aeth adref hebddi ;  
 Awgrymed hyn i'm Holwen i,  
 Rhag ofn mai felly siomir hi.

Cyn i mi gael y g'lomen gu  
 Gan un o'm hen gyfeillion,  
 Un dystaw oedd y deryn du,  
 Heb ganu ar ei galon ;  
 Ond pan y daeth y g'lomen lân,  
 Disgynodd arno 'r awen,

A'i galon bur a dôdd yn gân,  
 I gyffwrdd serch y g'lomen:  
 Ond ofer canu iddi hi,  
 Ac ofer cân i'm Holwen i!"

Ar draws y fuches adref  
 Dychwelai Olwen gu,  
 A'r holl wrthrychau welai  
 A dro 'i yn "dderyn du."

Hi feddai galon dyner,  
 A gwir deimladau merch,  
 A theimlai 'r anghyfiawnder  
 A wnaeth at fab ei serch.

Byw dro wrth fyn'd o odro,  
 A chunog ar ei phen,  
 Yn ymyl camfa 'r weirglodd  
 Cyfarfu 'r "du" ei "wén."

Pan ganfu 'r llanc ei Olwen,  
 Ei galon deimlodd saeth;  
 A phan y gwelwyd yntau,  
 Fe syrthiai 'r gunog laeth.

Ond cyn i Olwen brydferth  
 Ail godi 'r gunog laeth,  
 'Roedd wedi gorphen amod  
 I fyn'd er gwell er gwaeth.

A daeth yr adeg hono,  
 A'r naill i'r llall a roed,  
 A dau o rai dedwyddach  
 Ni wnaed yn un erioed.

Hwy gymerasant dyddyn  
 O'r enw "Tyddyn Gwyn,"  
 Ac yno ganwyd mebyn  
 I'r ddeuddyn ieuanc hyn.

Y dydd dywynodd gyntaf  
 Ar ruddiau 'r mab dinam,  
 Fu 'r dydd dywynodd olaf  
 I lygad pur ei fam.



Tra hi yn mreichiau angau,  
 A'i golwg ar y glyn,  
 Trodd at ei mab, a galwai  
 Ei enw 'n Owain Wyn.

Fe gloddiwyd bedd i'r marw  
 Yn nghladdfa 'r "Tyddyn Gwyn,"  
 A gwelai 'r tad wrth hwnw  
 Werth einioes Owain Wyn.

Yn mhen rhyw ddeugain gwanwyn  
 Ar ol ei chladdu hi,  
 A deugain gauaf brigwyn,  
 Declireua 'n chwedl ni.

Tros un o drumiau Berwyn,  
 Ryw noson ddystaw oer  
 Y teithiai gŵr lluddedig  
 Wrth oleu cân y lloer.

Fry uwch ei ben yn crynu  
 'Roedd llawer seren dlos,  
 A chlywid yntau 'n canu  
 Fel hyn i glust y nôs :—

" Hen fynyddoedd fy mabandod,  
 Syllant eto ger fy mron ;  
 Wele fi yn ail gyfarfod  
 Gyda 'r ardal dawel hon ;  
 Cwm wrth ochr cwm yn gorwedd,  
 Nant a nant yn cwrdd ynghyd,  
 A chlogwyni gwyllt aruthredd  
 Wyliant uwch eu penau 'n fud.

Mewn pellenig gartrefleoedd  
 Wedi ofn a phryder hir,  
 Hoff freuddwydion fy mlynnyddoedd  
 Sylweddolwyd gan y gwir ;  
 Os ffarweliodd anobeithion  
 Ar fy ngenedigol wlad,  
 Nis ffarweliais yn fy nghalon  
 Gydag anwyl dŷ fy nhad.

Dacw 'm cartref is y goedwig,  
 Groesaw ! hen arwyddion hedd ;  
 Dacw 'r fynwent gysegredig,  
 Wele 'r ywen—dyna 'r bedd !"

Darfyddodd cân y teithiwr  
 Mewn teimlad llon a phrudd,  
 A deigryn gloew, gloew,  
 Ollyngodd dros ei rudd.

Aeth heibio dor ei gartref,  
 Os gofyn wnei paham,  
 Awgrymed dy deimladau,  
 A chofia *fedd ei fam!*

A threulio 'r noson hono  
 Ar fedd ei fam wnaeth ef,  
 Nes suddo 'r seren fore  
 I eigion gwyn y nef.

Ar ol i lanw ei offd  
 Ymollwng ar y bedd,  
 Ei galon esmwythäodd,  
 Ac ymdawelai 'i wedd.

A chododd gan ddywedyd,  
 O dan brudd gangau 'r fŵ,  
 "Nid oes ond ~~en~~ bedd yma,  
 Mae 'm tad—mae 'm tad yn fyw!"

A llaw grynedig curai  
 Wrth ddôr y Tyddyn Gwyn,  
 Merch ieuanc hardd agorai,  
 Gan edrych arno 'n syn.

"Yw 'm tad yn fyw?" gofynai,  
 "O fewn y muriau hyn?"  
 "Ai byw!" atebai hithai,  
 "Ei fab ef, Owain Wyn!"

"Byw! byw! eich tad, mi'ch adwaen  
 Ef welaf ynoch chwi!  
 Medd yntau "Dwg fi ato,  
 Ei Owain ydwyf fi!"

Cyfarfu 'r ddau eu gilydd,  
 Dystewi byddom ni;  
 I dynu 'r darlun yma,  
 Mudanrwydd—tyred ti!

Megys adlais yn y glyn,  
 Sef llef y craig-chwiorydd,

A "Dychweliad Owain Wynn"  
Cyfarchai pawb eu gilydd.

Hen gyfeillion ddoent ynghyd  
I adrodd eu llawenydd,  
Meibion henaint isel fryd  
Yn ieuanc droent o newydd.

Pan oedd serch y wlad fel hyn  
Am Owain i'w fynwesu,  
Gwahodd wnaed i'r Tyddyn Gwyn  
Bob un oedd yn ei garu.

A darpariadau helaeth wnaed,  
Y llo pasgedig laddwyd,  
A llawer oedd y nifer ddaeth  
I wel'd y mab a gollwyd.

Ar ol y wledd, tad Owain Wyn,  
A'i lygad yn goleuo,  
Gyfododd ar ei draed i ddyweyd,  
"Cydlawenychwn heno,—

O herwydd wele i fy nhŷ  
Fy anwyl fab ddychwelodd,  
Yn awr doed Owain ger ein bron  
I ddweyd yr hyn a welodd."

A welaist ti deimladau dyn  
Yn selio ei wefusau?  
Neu ddeigrin bychan mud yn dyweyd  
Yr hyn na fedr geiriau?

A welaist ti hyawdledd syn  
A chryfder mewn anallu?  
Iaith felly oedd iaith Owain Wyn  
Pan gododd i lefaru.

Cyffelyb deimlad oedd yn dal  
Pob gwefus yn gauedig;  
Dychwelodd iaith—a hon oedd cân  
Yr hwn oedd gynt golledig:—

"Gadewais fy mhraidd ar y mynydd,  
A chefnais ar drumiau fy ngwlad,  
Breuddwydiais am fyd o lawenydd  
Tu allan i furiau fy nhad;

Yn ol i'r mynyddoedd dyohwelais,  
 Ond dysgais â'm dagrau yn lli',  
 Os bywyd y milwr arweiniais  
 Mai'r cymoedd yw 'r cartref i mi.

Trwy wledydd dwyreiniol tramwyais,  
 Ond cofio gwyllt Walia oedd loes ;  
 O wagedd ieuenotyd yr yfais  
 Nes chwerwais felusder fy oes :  
 Nid ofnaf lefaru fy nheimlad,—  
 Chwi wledydd goruchel eich bri,  
 Yn mhell byddoch byth o fy llygad,—  
 Mynyddau 'r hên Ferwyn i mi!

Mae gobaith cael eto cyn angau  
 Ailddringo llechweddau fy nro,  
 I gasglu y praidd i'w corlanau  
 Hyd lwybrau cynefn i'm co' :  
 Uwch bedd anrhydeddus y milwr  
 Mae enfys arddunol o fri ;  
 Ond rhowch i mi farw 'n fynyddwr,  
 A beddrod y bugail i mi!"

Fe welodd ddeugain gauaf  
 Ar Ferwyn wedi hyn,  
 A hir yn nghof mynyddwyr  
 Fydd enw Owain Wyn.

Yn awr wrth ochr Olwen,  
 Yn mynwent fach y plwy',  
 O dan yr un dywarchen  
 Y cydorweddant hwy.

Os mewn traddodiad nofiodd  
 Eu hanes prudd i ni,  
 Mae llawer un a welodd  
 Orweddle oer y tri.

Yn einioes bu 'r ysgariad,  
 Yn angau maent yn un,  
 Yn disgwyl ailddyfodiad  
 Diweddaf Mab y Dyn.

## Y Ffenw Fach a'r Beibl Mawr.

Y Miwsig gan Mr. J. D. Jones, Rhuthyn.

[Mae y gân hon yn un a gerir genyf fi tra byddaf byw, am fy mod wedi digwydd ei chyfansoddi rhwng 9 a 10 o'r gloch, boreu Ebrill y 3ydd, 1859. Boreu tranoeth derbyniais lythyr ymyllyddu o Gymru, yn dwyn imi y newydd fod fy anwyl dad wedi cau ei lygaid ar y byd hwn, ar y dydd a'r awr grybwyllledig. Fe wél y darllynyddi fod cyd-darawiad yr amgylchiad gyda'r disgrifiad o dad yn marw, yn y gân, yn dra hynod. Er mai cyd-ddygwyddiad nodedig ydoedd, ac er fy mod yn credu hyn yn ddisigl ar yr adeg, cymerodd y peth afael dwm yn fy meddwl, er gwaethaf pob ymdrech wrth-orgoelus a feddwn.—J. C. H.]

**DISGYNAI 'R gwlaw, a gwynt y nôs**  
**A ruai yn y llwyn ;**  
**Pan oedd genethig dlawd ddifam,**  
**Yn dal ei chanwyll frwyn ;**  
**Wrth wely ei chystuddiol dad,**  
**A'i gliniau ar y llawr,**  
**Gan dynu 'r wyllo iddi 'hun,**  
**A darllen y Beibl mawr.**

**Disgynai 'r gwlaw, a gwynt y nôs**  
**Gwynfanai am y dydd,**  
**A llosgi 'r oedd y ganwyll frwyn**  
**Uwchben y welw rudd ;**  
**A gwylio 'r oedd y fenyw fach**  
**Ei thad o awr i awr,**  
**Gan dori mewn gweddïau taer,**  
**A darllen y Beibl mawr.**

**Disgynai 'r gwlaw, a gwynt y nôs**  
**Dramwyai drumiau 'r wlad,**  
**A chwsg a ddaeth i esmwythâu**  
**Ei chystuddiedig dad ;**  
**Ond pæ fath gwsg, nis gwyddai hi,**  
**Nes d'wedai 'r oleu wawr,**  
**Ei fod ef wedi myn'd i'r nef,**  
**Yn swm yr hen Feibl mawr.**

**Disgyna 'r gwlaw ac eto 'r gwynt**  
**A rua yn y llwyn,**  
**Uwchben amddifad eneth dlawd,**  
**Tra deil ei chanwyll frwyn :**

D

Ar ol ei thad, ar ol ei mham,  
Ei chysur oll yn awr,  
Yw plygu wrth ei gwely hwy,  
A darllen y Beibl mawr.

## Yona.

Y Bryddest Arobryn yn Eisteddfod Llangernyw, 1851.

LLE treigla 'r Zab a'r Tigris \*

Yn araf ac yn glir,  
Lle chwery awel iachus  
Ar gangau helyg ir,—  
Os yno byth y teithi,  
I'th fyfyrdodau doed  
Y côf fod mam dinasoedd  
A'i beddrod tan dy droed.

Gan Assur nid oes coron,  
Gan Ninus nid oes sêdd ;  
Os rhifr eu gorchestion  
Fe'u rhifr yn y bedd :  
Pelydrau'r haul ddylathrent  
Frenhindai mynor cân—  
Y lloer a'r sêr oleuent  
Gopäon tyrau bàn.

A Baal a ogoneddwyd  
Yn nhemlau'r ddinas gain,  
Ond Israel Duw ysbeiliwyd  
I gyfoethogi rhai'n ;  
Yn ngherbyd chwim myfyrdod  
Boed ini gydneschau  
I ddinas yr eilunod,  
I wydd y duwiau gau.

Gwel ar y dde offeiriad,  
Ac allor aur o'i flaen,  
Yn dwyn ei ddrud offrymiad  
I fudion dduwiau maen ;  
O! clyw weddïau miloedd  
Yn galw ar eu duw,  
A chofia Iôr y nefoedd,  
Mai Hollbresenol yw.

Safai Ninife rhwng afon Tigris ac afon Zab, yn agos i'w cyfarfyddiad.

O'r deml hon neshawn  
 I'r uchel breswylfeydd,  
 A golwg newydd gawn  
 Ar wleddoedd a dawnsfeydd ;  
     Cyneuwyd tân  
     Y ddawns a'r gân  
 Yn ngherdd y sain-dorfeydd.

Fel awel yn y coed  
 Yn crymu'r goedwig werdd,  
 Mae pawb ar ysgafn droed  
 Yn gwyro gyda'r gerdd ;  
 Daw'r lloer, fugeiles nen,  
 Hyd lwybrau'r ieuanc wawr,  
 Trwy faesydd Duw uwch ben,  
 Fel un mewn galar mawr ;  
     Ond gwŷr y wledd,  
     Uwch gwin a mêdd,  
 Barhânt nes â i lawr.

Ond llygad Duw ganfyddodd  
 Bechodau'r ddinas hon,—  
 Dyrchafodd ei drygioni  
 I fynu ger ei fron ;  
 A'i air a ddaeth at Jona,  
 Gan dd'weyd " Dos troswyf fi  
 I Ninife—a dyrchafa  
 Dy lef i'w herbyn hi."

Draw, draw, ar frig y weilgi,  
 A'i golwg ar y lân,  
 Nae llong, a morwyr arni  
 Yn rhwyfo'n llesg a gwan ;  
     Mae gwyntoedd Iôr  
     Yn deffro'r môr,  
 A'r dewraf un yn ofni  
 Mai'r eigion fydd ei ran.

Y môr o'i iselfanau  
 Ymchwydda'n uwch o hyd,  
 Mynyddoedd erch a chymau  
 A rodiant ar ei hyd,—  
     I lawr i lawr  
     I'r eigion mawr—  
 Pob morwr ar ei liniau  
 A eilw 'i dduw yn awr.

Dodrefni'r llong gynygir  
 I freichiau'r dymestl gref,  
 Ond bâr y tonau chwyddir,  
 A lluchiant hyd y nef,—  
 Ond wele ddyn  
 Mewn esmwyth hûn,  
 Ac nid yw'r llestr ddryllir  
 Ond cysgfa iddo ef.

A meistr y llong ddaeth ato,  
 Gan dd'weyd, "Gysgadur, clyw,  
 O cyfod i weddio,  
 A galw ar dy Dduw—  
 A throsom ni  
 Dyrechafa 'th gri—  
 Fe ddichon *homo* wrando  
 Fel byddom ninau byw."

Bwriasant goelbren yn ystlysau 'r llong,  
 A'r coelbren syrthiodd ar yr estron ddyn—  
 Y cysglyd Jona,—a chyhuddai ef  
 O deffro 'r dymestl a llid y môr.  
 Bys mud y coelbren hwnw iddo ef,  
 Yr euog broffwyd a feiddiasai ffoi,  
 Oedd fys ofnadwy Duw ei hun :—"I'r môr,  
 I'r môr!" medd dychrynsfeydd y fföwr,—“I'r môr  
 O bwriwch fi! o wydd tramgwyddus Duw,  
 Ac yna gosteg gewch,”—ond rhuai 'r storm,  
 Cryfhâi y corwynt, a gwgai 'r nef  
 Yn fwy ofnadwy ddu, nes idd y môr  
 Y bwriwyd Jona i lawr, ac yn y fan  
 Y môr fel plentyn wênai.

A ymddiriedaist ti yn Nuw  
 Mewn awr o brofedigaeth?  
 A syrthiaist ti erioed mor ddwfn  
 Lle nad oedd gwaredigaeth?  
 O naddo! ddyn,  
 Bu 'r bedd ei hun  
 Yn teimlo siomedigaeth;  
 Trwy allu Duw.  
 Nid marw yw  
 Pob un yn safu marwolaeth.



Ac eto byw  
 Yw proffwyd Duw  
 Er cau yr eigion arno ;  
 I'w fywyd ef  
 Agorwyd dôr  
 I nef y nef  
 O ddyfnder môr—  
 Clyw Jona yn gweddïo :—

“ O'm hing y gelwais ar yr Arglwydd Dduw—  
 A'm hateb wnaeth,—ac o fol uffern ddofn  
 Y gwaeddais, Iôr, a'm llef a glywaist. Ti  
 A'm bwriaist i ddyfnderau pell y môr,  
 A'r llanw a'm hamgylchodd, ie, hyd  
 Yr enaid—daeth y dyfnder o'm hamgylch—  
 Yr hesg ymglymodd am fy mhen, ond Ti  
 Ddyrchefaist f' einïoes o yr isaf ffôs.  
 O Arglwydd fy Nuw! a fy enaid llesg  
 Lewygodd o fy mewn, ond cofiais Di,  
 Am gweddi atat ddaeth i'th santaidd deml—  
 A minau gyda chân aberthaf ger dy fron  
 A thalaf it a addunedais wneud :  
 Iachawdwriaeth sydd eiddo 'r Arglwydd.”

*O weddi daer!* gwyn fyd y fron  
 A fedro dy anadlu,  
 Yn nghalon edifeirwch gwir  
 Y cuddiodd Duw dy allu ;  
 Yr isel lwch yw'th gartref di,  
 Ac mewn sachliam gwisgi,  
 Gwyn fyd y llais crynedig gwan  
 Dywallto 'i hun i weddi.

*O weddi daer!* tramwyfa wyt  
 I lu o engyl deithio  
 I lawr i'r dyfnder at y gwan,  
 I roi eu hedyn trosto,—  
 I wlychu gwefus oer y llesg,  
 A gwin a'i calonoga ;  
 O Ddyn! os tyni wg y nef,  
 Dos ar dy lin—*gweddïa*.

*O weddi daer!* ni chauodd nos  
 Eriod ar fro euogrwydd  
 Nas gellir wrth dy lusern di  
 Gyfeirio at yr Arglwydd.

Dyddheir y nos gan wyneb Duw,  
Y truan wél oleuni;  
Fe ganodd llawer un cyn hyn,  
Am Iachawdwriaeth gweddi.

Taer weddi 'r proffwyd glybu Duw,  
O fol y môr-bysgodyn,  
A Jona fwriwyd at y byw,  
A gwelodd sychdir wed'yn.  
O! di anufudd blentyn Duw,  
A thi wrthgiliwr euog,  
Nesêwch at drugareddfa'r Tad,  
Trwy weddi galon-ddrylliog.

A gair yr Arglwydd ddaeth yr eilfed waith  
At Jona, gan ddywedyd, "cyfod dôs  
I Ninife y ddinas fawr, a'r hyn  
Lefarwyf fi pregetha idd ei phobl."—  
A Jona gododd ac a aeth i'w daith.

Gan ufuddhau i Air yr Ior,  
I Ninife cychwyna,  
Fe allai fod rhuadau 'r mor  
Pan ffoai gynt o Joppa,  
Yn ail-lefaru yn ei glyw,  
Yn drech na 'i anufudd-dod;  
Ond diau fod ei gof yn fyw  
I holl bangfeydd cydwybod.

O'i fewn yn llosgi am ryddhad  
'Boedd mil o addewidion;  
Nes gwneud ufudd-dod yn foddhad,  
Ac yn hyfrydwech calon:  
I'w daith yr â, a'i bregeth sydd  
Ofnadwy eiriau deimlir,  
"Deugain niwrnod eto fydd,  
A Ninife a gwympir."

Wrth borth y ddinas gwel e'n awr  
Yn sefyll ac yn edrych  
Ar y gaer fel mynydd mawr,  
A'i thyrau yn yr entrych;  
Ond gyda 'r farnedigaeth brudd  
Y cadarn fur gyferchir,  
"Deugain niwrnod eto fydd,  
A Ninife a gwympir."

Mae yn y porth, a holir e',  
 Gan wylwyr y fynedfa,  
 Beth yw dy neges? o ba le  
 Y daethost ti hyd yma?  
 Atebiad manwl iddynt rydd,  
 A'i genadwri draetha,—  
 "Deugain niwrnod eto fydd,  
 A Ninife a gwympa."

Mae 'n sefyll mewn heolydd byw,  
 O dwrf y dinasyddion,  
 A geiriau barnedigaeth Duw  
 Lefara 'n hyf ac ÷on ;  
 Tr uchel floedd ddieithriol rydd  
 Gwrandawriad lluaws roddir,  
 "Deugain niwrnod eto fydd,  
 A Ninife a gwmpir."

O bobtu cwyd palasdai cain,  
 Yn holl wychderau golud,  
 A glasrodfeydd ar nenau rhai 'n  
 Lle rhodia 'r glwth am enyd ;  
 Ond geiriau 'r genadwri brudd  
 I fynu yno glywir,  
 "Deugain niwrnod eto fydd,  
 A Ninife a gwmpir."

Cerbydau 'r bonedd drystiant drwy  
 Heolydd teg y ddinas,  
 Ond yn eu rhwysg arefir hwy,  
 Mae tyrfa yn eu lluddias ;  
 Yn mysg y llu rhyw estron sydd  
 Yn bloeddio 'r dinystr wlawir,  
 "Deugain niwrnod eto fydd,  
 A Ninife a gwmpir."

Mae 'r marchnadfeydd a'u byrddau 'n llawn,  
 O ffrwythydd a danteithion,  
 O aroglarthau Hydramaut,  
 A pheraroglau Ceylon ; \*

\* Dygid masnach helaeth yn mlaen rhwng India ac Assyria. Dyrŷ M. Volney ddysgrifiad manwl o'r cysylltiad masnachol hwn, "Hither was brought the vegetable aromatics and the precious stones of Ceylon, the shawls of Cassimere, the diamond of Golconda, the amber of the Maldives, the musk of Thibet, the aloes of Cochin, the apes and peacocks of the Continent of India, the incense of Hydramaut, the myrrh, the silver, the gold dust, and the ivory of Africa."

I glyw y marchnatäwyr hyn,  
Ofnadwy waedd ddyrcheffir,—  
“Deugain niwrnod eto fydd,  
A Ninife a gwypir.”

Mae bâd yn croesi 'r Tigris ddu,  
Fel alarch ar yr afon ;  
Mae peroriaethwyr ar y bwrdd,  
Yn canu ofn o'r galon ;  
Ond trech na cherdd yw geiriau 'r farn,  
O làn i làn fe waeddir,—  
“Deugain niwrnod eto fydd,  
A Ninife a gwypir.”

Mae 'r brenin ar ei orsedd aur,  
A'i ben dan goron berlau,  
Yn ymfalchio yn ei nerth  
A llwyddiant mawr ei arfau ;  
Ond gair yr Arglwydd ddaw i'r llys,  
Yn ngdlust y brenin gwaeddir,  
“Deugain niwrnod eto fydd,  
A Ninife a gwypir.”

Gylch temlau Baal mae mur o dân,  
Na fu diffoddiad iddo,\*  
O flwydd i flwydd, o oes i oes,  
Dyrchafai 'r mwg o hono ;  
Ni luddias tân leferydd Duw,  
O flaen y duwiau gwaeddir,  
“Deugain niwrnod eto fydd,  
A Ninife a gwypir.”

Elfenau dinystriol y ddasear,  
Ddyheuant ar-unwaith yn awr,  
Mae daeargrynfeydd yn eu carchar  
Yn disgwyl gorchymyn i lawr ;  
Mae saethau y mellr ar eu bwa—  
Anelant o'r pell uchelfeydd,  
A chorwynt yr anial glustfeinia,  
Yn barod i archiad y Crëydd.

A Jona hefyd dybiai fod  
Yr Arglwydd yn ei lid yn d'od.

\* Cynenid tân parhaus o amgylch yr eilunod, a chymerid gofal manwl i'w gadw trwy y blynyddoedd yn ddiddiffodd.

Ond ust! mae wylo lle bu cân  
 A meibion mwyniant ar wahân,  
 Mae'r hwn oedd ar ei orsedd aur  
 Yn diosg ei freninwisg glaer;  
 Mewn llwch a lludw ar y llawr  
 Y plyga breiniol liniau'n awr.  
 Am gefn y balch sachlian sydd,—  
 Bu farw balchder mewn un dydd;  
 Gan adael eu drygionus ffyrdd  
 Mewn ympryd wele chwe chan myrdd.  
 Do, rhwygodd gwaedd ei ffordd o fron  
 Y ddinas fawr annuwiol hon:  
 A gwaedd oedd hi gyrhaeddodd glyw  
 Yr Hwn sydd Gariad ac yn Dduw.

Y deugain niwrnod daeth i ben,—  
 Mae tyrau'r ddinas yn y nen,  
 Y temlau anferth ar bob tu,  
 A llys y brenin fel y bu!  
 Ond nid oes tŵr na *maen* nad yw  
 Yn golofn o drugaredd Duw.

A gwelai Jona'r pethau hyn  
 A digiodd yn ei galon;  
 Am na chadwasai Duw ei air,  
 Aeth ar ei lin yn ddigllon;  
 A d'wedai, oni dd'wedais hyn  
 Pan yn fy ngwlad y trigwn,  
 A ffo'is i Tarsis o dy ŵydd,  
 O herwydd mi a wyddwn  
 Dy fod hwyrfrydig yn dy ŵg,  
 Ac edifeiriol iawn am ddrwg.

Duw graslawn a thrugarog wyt,  
 I'r pechaduriaid mwyaf,  
 Yn awr, O cymer, Arglwydd Dduw!  
 Fy einioes oddi arnaf;  
 Mae marw yn fy ngolwg i  
 Yn well na byw i'm gwawdio."  
 A'r Arglwydd dd'wedodd wrtho ef,  
 "Ai da dy waith yn digio?"  
 Ond digio wnaeth, ac wele ef,  
 Yn codi caban ger y dref.

Ac yn ei gaban gwael dinod,  
 Mewn pryder yr eisteddai;

Gan ddal ei lygaid ar y dref,  
 A disgwyl beth a fyddai—  
 Disgwyliai ysol dŵn o'r nef  
 Neu ffrochus dymestl ddisgyn ;  
 A thybiai eilwaith fod ei glust  
 Yn clywed llais daergryn,  
 A thybiai fod pob awel wan,  
 Yn dwyn o'i hol gyrwyntoedd ban.

Wrth iddo ddisgwyl llid i lawr  
 Ar ben y ddinas hono,  
 Yr Arglwydd Dduw ddarparai bren  
 I dyfu 'n gysgod trosto ;  
 A llawenychai Jona 'n fawr,  
 O herwydd y Cicaion,  
 Er hyn i gyd gofidio wnai  
 A llid oedd yn ei galon ;  
 Ac nid oedd caredigrwydd nef,  
 Yn enyn cariad ynddo ef.

Yn ei gysgodfa gorphwys wnai,  
 Mewn tawel hŷn ryw noson,  
 Ond erbyn tranoeth gyda phryf  
 Tarawai Duw 'r cicaion,  
 A gwywo wnaeth. Pan godai 'r wawr,  
 Yr Arglwydd Dduw ddarparodd  
 Ddwyreiniol wrës a phoethwynt mawr,  
 Ar Jona nes llewygodd ;  
 A galwodd eilwaith ar i Dduw  
 Ei daro ef o dir y byw.

Ymddigio wnaeth yn ddwys, ddwys iawn,  
 A thraethai ei achwynion ;  
 A d'wedai Duw, " Ai da dy ddig,  
 O herwydd y cicaion ?"  
 Atebai yntau yn ei lid  
 Yn hyfach gan ddywedyd,—  
 " Ië, da 'r ymddigiais i,  
 A da hyd angau hefyd,  
 Y pren a roddaist mwy nid yw,  
 Nid da i minau mwyach fyw."

A d'wedai Duw, " A fedri di  
 Dosturio wrth gicaion ?  
 Ai mwy yw ef i'th olwg di  
 Na deunaw myrdd o ddynion ?

Ti ni lafuriaist awr erioed  
 I beri iddo dyfu,  
 Ond mewn un noswaith fèr y bu,  
 Ac mewn un noswaith darfu ;  
 Ac os arbedet ef yn awr,  
*Arbedaf finau 'r ddinas fawr.*

O ! gyd-bechadur trist ! a ddaeth i'th glyw,  
 Erioed beroriaeth fel "*Arbedaf*" Duw !  
 Mae yma lanw o dosturi 'r nef  
 Yn llo allan tros ei wefus Ef ;  
 "*Arbedaf finau,*" dyna furmur môr  
 Diderfyn gariad yr anseidrol Ior  
 I fynwes oer y byd, fy Nuw fy Rhi,  
 Dyfered gwllithyn o dy gariad Ti,  
 Dylifed cariad i'th ddelw 'th hun,  
*A dyn, O ! Arglwydd ! fo eto 'n ddyn.*

Nac ymffrost, Ninesfe, yn dy arfog wŷr,  
 A'th amddiffyent ar dy uchel fur ;  
 Ai hwy a'th noddent pan anelai 'r nef  
 Ei tharanfolltau ar dy wylfa gref ?  
 O nage ! ddim, ar fin dy ddinystyr certh,  
 Dy *Edifeirwoch* fu dy ddirgel nerth ;  
 Digofaint ddofwyd pan ddyrchefaist gri,  
 Y llwch a'r lludw fu dy noddfa di ;  
 Pan archai 'th frenin rhoddaist glust i'w lef,  
 Yn llaw yr Arglwydd bu ei galon ef.

Genhadon Duw, pregethwch yn mhob gwlad  
 Am *Edifeirwoch* a maddeuant rhad :  
 Mae Crist ei hun yn erchi ger eich bron,—  
 "Ewch i'r holl ddaiar â'r Eŷfengyl hon ;"  
 Os gelwir gwir edifarhad mewn dyn  
 Yn wendid, mwy, cyhuddir Duw ei hun ;  
 Na, na, tragwyddol gysegredig yw  
 Yr hyn gyffyrddodd â gogoniant Duw.

Cyffelyb i gicaion Jona gynt,  
 A'i noddai rhag dwyreiniol wres a gwynt,  
 Ryw haner awr o gysgod hyfryd yw  
 Anrhydedd, bri, a llwyddiant dynolryw ;  
 Aberthir oes o lafur gyda hwy,  
 Daw pryfyn arnynt, ac ni byddant mwy !

Anferthawl fathfa aur mewn gwaith o hyd,  
 Yw calon miloedd o drigolion byd ;  
 Ni chydymdeimlir efo 'r truan tlawd,  
 Ni wylir deigrin gyda deigrin brawd ;  
 Mae canfod Duw yn trugarhau yn siom  
 I'r galon hono, ac yn wasgfa drom.  
 O! dos i'th fynwes, ddyd! ac ymaith tyn  
 Y galon seriwyd a'r teimladau hyn.

Maer Arab gyda'i fŷs yn nodi'r fan  
 Lle colodd proffwyd Duw ei farwol ran.\*  
 Trwy ddinas fawr y byd mae eto lef.  
 Mae lliid yn llanw yn nghronfeydd y nef ;  
 Ymgrymodd Ninife, ac ni ddaeth gwae,  
 Hi bechodd *eilwaith*, a pha le y mae ?  
 Y bedd a lyncodd ei gwychderau hi,  
 O! fedd ardderchog!—llefara di.

## Dafydd y Gareg Wen.

Y miwsig wedi ei addasu gan OWAIN ALAW. (Gwel "*Gems of Welsh Melody*.)

[TYDDYN yw y "Gareg-wen," ger Porthmadog. Yno yn y flwyddyn 1720 y ganwyd Dafydd, i'r hwn y priodolir cyfansoddiath y dôn sydd ar ei enw. Dywedir hefyd, ond ar ba sail nis gwyddom, mai efe ydyw awdwr Codiad yr Hedydd, Difyrwch Gwyr Cricieth, ac alawon eraill. Yr oedd yn delynor medrus, ac yn gerddor tra theilwng. Y mae Syr Walter Scott wedi ysgrifenu ychydig benillion ar ei farwolaeth, a chyhoeddwyd hwy yn y *Gems of Welsh Melody*, o'r swyddfa hon. Y mae y dôn yn un o'r rhai prydfertaf sydd genym ac yn nodedig o alarus a dwys. Dywed Syr Walter Scott—"The Welsh tradition bears that a Bard on his death-bed, demanded his harp, and played the air to which these verses are adapted, and requested it might be performed at his funeral." Ond camgymeriad y nosfelydd a'r bardd Albanaidd enwog, ydoedd lleoli trigfa a marwolaeth Dafydd yn sir Forganwg. Dywedir iddo gyfansoddi Codiad yr Hedydd, pan yn dychwelyd gyda ei delyn o blas y Borth. Gwelai ebedydd llawen yn ymhoewi ar ei adenydd byobain yn yr awyr las uwch ei ben, ac eisteddai yntau wrth faen mawr, sydd eto i'w gantod, nes gorphenodd y dôn. Bu y cerddor gobseithiol hwn farw yn 1740, yn 29 oed, a chladdwyd ef yn mynwent ynys Cynhaiarn, lle mae cofadail i'w goffadwriaeth a llun ei delyn yn gerffedig arni, yn nghyd a'r geiriau.—BEDD DAVID OWEN, neu DAFYDD Y GAREG-WEN.]

'ROEDD Dafydd yn marw, pan safem yn fud  
 I wyllo datodiad rhwng bywyd a byd ;  
 "Ffarwel i ti 'mhrïod, fy Ngwen," ebai ef,  
 "Fe ddaeth y gwahanu, cawn gwrdd yn y nef,"

\* Y mae adeilad ar gyfer Mosul, lle dywed yr Arabiaid y claddwyd Jona. Enw y fan yw Konyunjik.



Fe gododd ei ddwyllaw, ac anadl ddaeth  
 I chwyddo'r tro olaf trwy 'i fynwes oer, gaeth ;  
 "Hyd yma'r adduned, anwylyd, ond moes  
 Im' gyffwrdd fy nhelyn yn niwedd fy oes."

Estynwyd y delyn, yr hon yn ddioed  
 Ollyngodd alawon na chlywsid erioed ;  
 'Boedd pob tant yn canu 'i ffarweliad ei hun,  
 A Dafydd yn marw wrth gyffwrdd pob un.

"O! cleddwch fi gartref yn hen Ynys Fon !  
 Yn llwch y Derwyddon, a hon fyddo'r don,  
 Y dydd y'm gosodir yn isel fy mhen,"—  
 A'i fysedd chwareuent yr "*Hen Gareg Wen.*"

'Boedd Dafydd yn marw, pan safem yn fud  
 I wyllo datodiad rhwng bywyd a byd ;  
 Yn swm yr hen delyn gogwyddodd ei ben,  
 Ac angau r'odd fywyd i'r "*Hen Gareg Wen.*"

## Ti wyddost beth Ddywed sy Nghalon.

Y Miwsig gan Mr. J. D. Jones, Rhuthyn.

[Achlysurwyd y penillion hyn gan eirian ymadawol mam yr awdwr,  
 pan oedd hi yn dychwelyd i Gymru, ar ol talu ymweliad iddo.]

Yn araf i safle'r gerbydres gerllaw,  
 Y rhodiai fy mam gyda'i phlentyn ;  
 I waelod ei chalon disgynodd y braw,  
 Pan welodd y fan oedd raid cychwyn.  
 Ymwelwodd ei gwefus—ei llygaid droi'n syn,  
 Rhy floesg oedd i roddi cynghorion ;  
 Fe'i clywais er hyny yn sibwrdd fel hyn,—  
 "Ti wyddost beth ddywed fy nghalon."

Canfyddodd fy llygad mewn dagrau'n pruddhau,  
 Gwir ddelw o'i llygad ei hunan ;  
 Hyn ydoedd am enyd fel yn ei boddhau,  
 Er nad fy nhristau oedd ei hamcan.  
 Ond er fod cyfyngder yr enyd yn gwneud  
 Atalfa ar ffrwd o gysuron,  
 Mudanrwydd r'odd genad i'w hanadl ddyweyd,—  
 "Ti wyddost beth ddywed fy nghalon."

Nid son am gynllwynion y diafol, a'i fryd,  
 Er enill ieuencyd i'w asael—  
 Nid son am ffolineb, a siomiant y byd,  
 Yr ydoedd pan oedd yn fy ngadael ;  
 Dymunai'n ddiamau bob lles ar fy nhaith,  
 Trwy fywyd i fyd yr ysbrydion :  
 Ond hyn oedd yr oll a ddiangodd mewn iaith,—  
 "Ti wyddost beth ddywed fy nghalon."

I eiriau dirmygus dieithriol nid wyf,  
 Mi wn beth yw llymder gwatwariaeth ;  
 Y mynud diffygiwn dan loesion eu clwyf,  
 Y nesaf dro'i oll yn ddieffraith ;  
 Do, clywais hyawdledd—er teimlo ei rym,  
 Mewn effaith ni lŷn ei rybuddion,  
 Ond hyn gan dysterwch fyth erys yn llym,—  
 "Ti wyddost beth ddywed fy nghalon."

Mae ysbryd yr oes megis chwyddiad y mor,  
 Yn chwarae â chreigiau peryglon ;  
 O'm hamgylch mae dynion a wawdiant Dduw Ior  
 Wyl finau ddiferyn o'r eigion ;  
 Fy nghamrau brysurant i ddinystyr y ffol,  
 Ond tra ar y dibyn echrystlon  
 Atelir fi yno gan lais o fy ol,—  
 "Ti wyddost beth ddywed fy nghalon."

Pe gwelwn yn llosgi ar ddalen y nef,  
 Y tanllyd lyth'renau "NA FHECHA;"  
 Pe rhuai taranau pob oes yn un llef—  
 "Cyfreithiau dy Dduw na throsedda;"  
 Pe mellten arafai nes aros yn fflam,  
 I'm hatal ar ffordd annuwiolion,  
 Anhraethol rymusach yw awgrym fy mam,—  
 "Ti wyddost beth ddywed fy nghalon."

## H Rhosyn.

O HYGARAF flaguryn!—daw yn ol  
 Eden yn y Rhosyn ;  
 I wel'd gwyneb ei mebyn,  
 Anian a'i deil o flaen dyn.

## A thithau, Owain, nid wyt mwy.

[Ar ol cyfaill a pherthynas serchus. Y diweddar Mr. Owen Hughes, y Twr, ger Llangollen.]

A THITHAU, Owain, nid wyt mwy,  
Ehedaist dithau ymaith!

A mil o goffon redant trwy  
Yr adwy wnaeth marwolaeth;

Mae cyfeillgarwch rhai wrth fyw, yn oeri, oeri, beunydd,  
Ond angau sydd yn gallu dwyn hen ffryndiau at eu gilydd!

Ac un o'r cyfryw ydwyf fi,  
'Rwy'n euog o ddiethrio  
Ar lwybrau bywyd oddiwrthyt ti,  
O! maddeu im' am deimlo!

Ond pe gallasai cariad pur, a chyfeillgarwch, gadw  
Olew bywyd yn dy lamp, ni b'aset ti yn marw.

Pan oeddym blant, 'rwy'n cofio'n dda,  
Fel syllai mamau arnom,

A chrybwyll wnaent mor agos oedd  
Y tebygolrwydd rhyngom;

Ond dyna'r oll. Os tebyg it' o ran dy rudd ieuengaidd,  
O! na bai 'm calon i mor bur, a'm hysbryd mor angylaidd!

Er pan adewais fy anwyl fro,

Fe delais ymweliadau,

Gyda'r llanerchi lle glyna co'

Am febyd a'i fwynderau,

Os rhodiaf eto hyd ei ffyrdd, ei meusydd, a'i llechweddau,  
Bydd Cymru wen yn anial gwag, os nad af heibio'r beddau!

Byd oer yw hwn, po mwyaf fo

Ein hadnabyddiaeth ynddo,

Mwyhau mae hiraeth am y gro,

I dafu'n blinder iddo.

Cyfeillion ânt o un i un, nes teimlwn fod sirioldeb

Byd a bywyd yn y pridd, ac angau ar y wyneb.

Ffarwel fy nghyfaill, yn iach i ti!

Cawn eto ail gyfarfod;

Ac enyd fechan iawn yw hi,

Na byddwn oll yn dyfod.

A da gan lawer sydd yn awr mewn estron wlad yn nychu,  
Fydd cael bedd fel gefaist ti, rhwng hen fynyddoedd Cymru!

## Y Baban Diwrnod Oed.

[Y Miwsig gan OWAIN ALAW.]

Y mae un hanesyn nodedig yn nglyn â thiriad y Ffrancod yn Aberdaugleddyf, yn y flwyddyn 1797. Pan oedd y gelynyon yn ymwasgaru yn wahanol fanteioedd, i'r dyben o ladd, yspeilio, a lladrata trigolion diam-ddiffyn glan y môr, yr oedd lluaus o wragedd a phlant yn ffoi am eu bywydau. Yr oedd y cleifion, y rhai methiantus gan henaint, a phawb ag oedd analluog i ddianc, yn cael eu cario ymaith mewn troliau a cherbydau. Nid ychydig o'r cyfryw a gymerwyd o'u gwelyau yn y dull hwn, yn nghanol cystuddiau a salwch. Achoswyd ugeiniau o dai gweigion yn y fan. Mewn un ty, ag sydd yn sefyll hyd heddyw, yr oedd gwraig barchus wedi ei dwyn i'w gwely ar enedigaeth mab. Yr oedd y Ffrancod yn lled agos i'r anedd, a cheisiai y gwr ei pherswadio i ddianc ymaith; ond yr oedd hi yn rhy wan. Penderfynodd aros yn ei gwely, ac ymddiried ei bywyd ei hun a'i baban bychan diniwed, yn nodded yr Hwn sydd yn gofalu am aderyn y tô. Rhuthrodd amryw ddyhirod ffrengig i'r ystafell unig lle y gorweddai, codai hithau ei babi newydd eni yn ei breichiau. Y Ffrancod pan welsant y fath apeliad effeithiol, a adawsant yr ystafell yn ddiwed. Faint bynag o greulonderau a gyflawnwyd ar yr adeg hono gan y gelynyon, y mae yr amgylchiad hwn yn dadlu yn gryf trostynt. Y mae eu hymddygiad, modd bynag, ar yr achlysur hwn yn berffaith gydweddol â nodweddiad naturiol pobl Ffrainc.

ADRODDAWD NADOLIG.

'Roedd swn magnelau yn y graig,  
 A swn tabyrddau'n curo,  
 A chlywid trwst ofnadwy traed  
 Y Ffrancod wedi glanio,  
 A'r waedd i'r frwydr chwyddai'n uwch,  
 Gan alw'r dewr i daro :  
 Terfysgwyd y glanau  
 Gan rym y taranau  
 A rüent ar làn y môr.

I dai'r tylodion rhuthrai gwŷr,  
 Gan ladd y diamddiffyn,  
 A ffamiaï palas hardd gerllaw,  
 Gan dân o longau'r gelyn :  
 Fe ffoai mamau gyda'u plant,  
 A chodai'r claf mewn dychryn ;  
 Ond 'r oedd yno ddynes,  
 A babi 'n ei mynwee,  
 Rhy waelaidd a gwan i ffoi.

Ei gwŷr erfyniai wrth ei phen,—  
 "O cwyd! O cwyd! fy Eurfron!  
 Mae'r march a'r cerbyd wrth y drws,  
 Tyr'd iddo ar dy union!  
 Olwynwn ymaith fel y gwynt,—

Anwylid, clyw 'r ergydion!  
 O Dduw, a ddaeth diwedd  
 Fy mab, fy etifedd!  
 Fy mhentyn a anwyd ddoe!

Atebai 'r wraig yn lleog ei llais,—  
 "Fy mhriod clyw fy ngweddi!  
 O gad fi ar y gwely hwn,  
 Ond gad y baban imi!  
 Dos at y rheng i gadw 'th wlad,  
 Fe gadwaf finau 'r babi:"  
 Y plentyn a hunai,  
 A'r tad a'i cusanai,  
 A yna fe ffodd i'r rheng.

'Roedd sŵn cleddyfau yn nesau,  
 Gwawchiadau ac ysgrechian;  
 A'r wraig weddi' n daer ar Dduw,  
 Gan edrych ar ei baban;  
 Ac yna holltwyd drws y tŷ  
 Gan filwyr oddi allan!  
 A hithau mewn dychryn  
 A wasgodd ei phlentyn  
 Yn nês at ei chalon wan.

Ar glicied drws ei stafell wâg,  
 Hi welai fysedd llofrudd,  
 Ac ar y foment rhuthrodd haid,  
 Yn sŵn rhegfeydd eu gilydd;  
 A syllent fel gwylltflod erch,  
 O amgylch ei gobenydd:  
 A'r wraig wân yn crynu,  
 A ddaliodd i fynu  
 Ei babi bach diwrnod oed!

Atebwyd gweddi 'r ffyddiog fam,  
 A hi a'i mab achubwyd;  
 Mae hi yn awr mynwent werdd  
 Yr eglwys llê 'i priodwyd;  
 Aa erbyn heddyw mae y mab  
 Yn hen weinidog penllwyd,  
 Yn estyn ei freichiau  
 I ddangos y Meichiau,—  
 Y baban a anwyd i ni.

## John Elias.

**GWEL**, Dde a Gogledd wacawl,—anwyl le  
John Elias nefawl ;  
Ond y ddawn nad oedd ddynawl,  
Fry mae hi yn nwyfre mawl.

Bu i Wyndud er bendith,—ac yn hon  
Gwnai hau yr had gwenith ;  
A thrwy wawl ei athrylith,  
Doi'r mân wlaw—doi Hermon wliith.

Rhoes nwyf a gwres y nefoedd—i enyn  
Yn nghalonau miloedd ;  
Gwas i Grist a'i gysegr oedd,  
Hynodwr Seion ydoedd.

I lŷs cenedl esgynodd,—ie gwlad  
Ar ei glin a gadwodd ;  
A'i allu annuw ddrylliodd,  
Ac â'i dân hen greigiau dodd.

Ei law arweiniai luoedd—i weled  
Ymylon y nefoedd ;  
Nerth fu i'n hareithfaoedd,  
A gloew sant ein eglwys oedd.\*

Trwy hwn bu 'r ne 'n taranu,—cofir ef  
Tra cof-rôl yn Nghymru ;  
Y duwiolion yn deulu,  
Ac anadl gan ei genedl gu.

## Draw ar ben y Wyddfa fawr.

[Y Miwsig wedi ei addasu gan OWAIN ALAW.]

**DRAW** ar ben y Wyddfa fawr  
Cyn toriad gwawr :  
Sêr wrth nofio 'r fawr-nos ddu,  
Ymsuddent yn yr eigion fry !  
**CYDGAN**,—Gwawr ! gwawr ! fel enfys fawr,  
Gwawr ! gwyd o draw,  
A'r haul mawreddus ddaw !

\* Dewiswyd yr englyn hwn gan Eben Fardd a Hiraethog yn un o'r rhai gwobrwyedig yn Risteddffod Llundain, 1855.

Gyra 'r dydd ei waew-ffyn,  
 O'r Dwyrain gwyn ;  
 Lliw 'r bidogau 'n gochion wnaed,  
 Fel pe bai 'r nos yn gollwng gwaed.  
 Gwawr! gwawr! &c.

Plygain gloch yr hedydd sydd  
 Yn galw dydd ;  
 Dreigiau 'r nos ânt ar wahan,  
 A diffodd mae y prfyn tân.  
 Gwawr! gwawr! &c.

Gwyn yw pen y mynydd mawr,  
 Daeth Haul y wawr !  
 Dydd a goleu daf! o'i rawd,  
 I lŷs y teyrn a bwth y tlawd.  
 Haul! haul! a'i danllyd ael,  
 Haul! gwyd o hyd  
 O amgylch ogyrch byd !

### Claddasom di, Elen.

CLADDASOM di, Elen! ac wrth roi dy ben  
 I orwedd, lle foru down ni,  
 Diangodd ochenaid i fyny i'r nen,  
 A deigrin i lawr atat ti.

Claddasom di, Elen! a chauwyd dy fedd,  
 Pe hefyd b'ai bosibl ei gau ;  
 Mae llygad yn edrych o hyd ar dy wedd,  
 Ac ni fedr angau nacau.

Cyflawnwyd dy freuddwyd, ond ni ddarfu'r gro,  
 Ar gauad yr arch dy ddeffroi ;  
 Ond udgorn a gân, ac o'r dywell fro,  
 Yn wen a dihalog y doi.

Ai "tywell" dd'wedasom? nid tywyll i ti,  
 Fu pyrth trag'wyddoldeb a hedd,  
 Dy lamp oedd wenoleu;—nid ti, ond nyni,  
 Sy'n d'wedyd mai du ydyw 'r bedd.

I ninau mae breuddwyd i ddyfod i ben,—  
 Canfyddem di 'n mhell oddi draw  
 Ar furiau Caersalem, a'th wisg yn glaer wèn,  
 Yn gwenu gan estyn dy law,—

I'n derbyn yn ninas drag'wyddol dy Dduw ;  
 A thybiem ein bod wedi dod,  
 I gyffwrdd a'th law, ond deffroisom yn fyw,  
 Yn mhell oddiwrth gyraedd y nod !

Claddasom di, Elen ! ond rhyngot a ni,  
 Nis erys gagendor yn hir ;  
 O fewn y bedd yna lle rhoisom dydi,  
 Claddasom ein hunain yn wir.

Na, na, nis ffarweliwn, mae 'r Iesu yn fyw,  
 I'n dwyn ato 'i hun a thydi ;  
 Mae 'r ffordd yn agored o'r ddaear at Dduw,  
 A'r nef mewn addewid i ni.

## Charles o'r Bala.

### IN MEMORIAM.

[Achlysurwyd y rhai hyn gan gylochgrawn bychan a gyhoeddiid dan yr enw uchod.]

MAE cysegredig lwch y saint  
 Mewn culion feddau 'n nghadw,  
 Ond mewn llythrenol gwsg y maent,  
 Y *dinod* sydd yn *marw*.  
 Er tafu pridd a gosod maen,  
 Ar batriarchiaid Gwalia,  
 Maent yn llefaru fel o'r blaen,  
 Ac felly Charles o'r Bala.

Ei einioes megis coelcerth wen,  
 Oleuodd ein mynyddoedd,  
 Ond tymor bywyd ddaeth i ben,  
 Ac aeth y fflam i'r nefoedd :  
 Bu farw Charles ! os marw yw  
 Ymollwng i orphwysfa ;  
 Ond llosgi mae y marwor byw  
 Adawodd Charles o'r Bala.



Hyn ydyw ein hymroddiad gref,  
 Wrth ymgyfenwi arno :—  
 Anadlu ar ei farwor ef,  
 A'i enyn yn mhob Cymro.  
 A dysgu 'n plant i'w alw 'n dad  
 Gwybodaeth Feiblaidd Gwalia—  
 Yn *In Memoriam* gwasg ei wlad,  
 Cyflwynir "Charles o'r Bala."

Nac wyla ar y beddrod cul,  
 Sydd yn Llanycil acw ;  
 Tyr'd gyda ni i'r Ysgol Sul,—  
 Y dinod sydd yn marw.  
 Ond byw mewn mil o lanau mae  
 Y gŵr y'm yn ei goffa ;  
 I'r byd o'i ðl nid marwol glai  
 Adawodd Charles o'r Bala.

Ni raid wrth wasg nac argraff wan,  
 I goffa 'i enw hynod ;  
 Mae ganddo golofn yn mhob man,  
 Ac yn mhob man ei feddrod.  
 Mae genyt Feibl yn dy law,  
 Ac enw 'r Gymdeithasfa :  
 O oes, fy nghyfaill! dyna 'r bedd  
 Lle hunodd Charles o'r Bala!

## Y Pererin Colledig.

Mae 'r afon yn ddofn, ac mae Canaan yn bell,  
 O! aros, bererin, mae 'r anial yn well ;  
 Na, na : ni ddychwela, a'i ffon yn ei law  
 Gwyneba 'r Iorddonen heb arswyd na braw.

Y gwyntoedd y'nt gryfion, a thithau wyt wan,  
 Ac Aifftaidd dywyllwch yw gwyliwr y lan :  
 O! aros, bererin, arswyder dy fron ;  
 Na wele 'r pererin ar ymchwydd y dòn!

Mae'n suddo! mae'n suddo! ond cyfyd ei law,  
 A'r Cyfaill yn angau, i'w ymyl ef ddaw ;  
 Collasom ef yma, ond neb na thristaed,  
 O'r anial fe'i collwyd—yn Nghanaan fe'i caed.

## Etifedd Nanhoron.

[CADBEN R. LLOYD EDWARDS, Nanhoron, yr hwn a laddwyd mewn brwydr o flaen Sebastopol, yn ystod y nos.]

YMLUSGODD y gelyn i ymyl ein ffôs,  
Pan wyllem ein brodyr yn huno ;  
A'i ddrylliau borphorent dywyllwch y nos,  
A tharan ar daran wnai ruthro.

" *Yn mlaen !*" medd ein Cadben—" *yn mlaen !*" oedd ei lef,  
Aem ninau ar warthaf y gelyn :  
Ychydig feddyliem mai marw 'r oedd ef,  
Pan oedd yn anadlu'r gorchymyn.

Wrth ini ddychwelyd canfyddem y lloer  
Trwy hollt yn y cwmwl yn sylwi ;  
Gan ddangos ein Cadben, a'i fynwes yn oer,  
Mor oer a'r bathodyn oedd arni.

Golchasom ei ruddiau â dagrau diri',  
Ac ar ei weddillion syrthiasom :  
Ymgiliodd y wenlloer, ond aros wnaem ni  
Yn ymyl y gŵr a gollasom.

Tra gwllith ar y ddaear a niwl yn y nen,  
A chyn i'r cyfegrau ymddeffro ;  
Fel milwr Prydeinig gogwyddodd ei ben  
I'r bedd anrhydeddus wnaed iddo.

Lle huna Cimmeriaid boreuaf y byd  
Mae yntau y dewraf o'u meibion :  
O Walia fynyddig, o honot pa bryd  
Daw milwr fel milwr Nanhoron !

## Newyddion Da.

TON BILLYNAIDD,—*"The Chapel."*

CLYWCH ! clywch y gân sydd yn mhellder y nen,  
Mae'r sêr yn rhoi clust i'r beroriaeth uwch ben,  
Mae'r byd yn deffroi, a'r wybren ddyddha,  
Wrth gario i ddynion *newyddion da !*

Clywch ! clywch y gân sydd yn arwain y wawr,  
Tra sylla y ser, mewn addoliad i lawr ;  
Ac angel olaerwyn i'n hymyl nesha,  
I dd'wedyd wrth ddynion *newyddion da*.

Awn gyda'r newydd i Fethlem ynghyd,  
I wel'd yr Un Bach ddisgwylasom gyhyd ;  
Yr Arglwydd yw Ef—Tŷ Dafydd fywha,  
Daeth heddyw i Israel *newyddion da*.

## Cyfieithiad o "Chatterton's Resignation."

[Y llinellau a gyfansoddwyd gan y bardd ieuanc a digyffelyb hwn, cyn yfed y gwenwyn, dan effeithiau marwol pa un y caodd ei lygaid ar gyfyngderau y byd.]

O DDUW, yr Hwn â'i daran ddirgryna'r entrych bân  
Goruwch y gronyn daiar—Ei lygad wél bob man,  
I Ti, fy unig Noddfa a'm cadarn Graig, yr âf,  
A chanu am drugaredd yn dy gyfiawnder wnaif.

Mae dyrus bethau'th 'wyllys, a'th holl gyfrinion cudd,  
Cysgodion y goleuni sy'n ffurfio nefol ddydd ;  
Tu hwnt i bob dirnadaeth a gallu dynolryw,  
Ond union oll er hyny yw holl weithredoedd Duw.

Yn awr fy mhrofedigaeth, O dysg fi, Arglwydd mawr,  
Pan chwydda ing y deigrin sy'n disgyn ar y llawr :  
I esmwythau fy ngofid, i ganiatau dy rym,  
I garu dy ddaioni, ac ofni'th iawnder llym.

Os daeth i'r fynwes yma ddim amgen na Thydi,  
Gan geisio rhwysg, awdurdod, ac anherfynol fri,  
Fe welodd Hollwybodaeth y perygl oedd ar ddod,  
A threiddgar drem trugaredd droi'r achos byth o fod.

Am hyn, paham, fy enaid, trymha dy gŵyn o hyd ?  
Y nychi mewn hiraethiant am arall dduach fyd ?  
Ysgydwa'th bruddglwyf ymaith—hen gadwen melldith yw,  
Er bendith i ddynoliaeth y crewyd oll gan Dduw.

Ond O ! mae'm mynwes eto yn dyner ddynol fron !  
Mae'r ddwys ochenaid gyfyd, a'm dagrau'r enyd hon—  
Mae egwan firwd fy mywyd, mewn sain gyffrôus yn awr,  
Yn datgan poen fy enaid yn ei gyfyngder mawr.

Ond eto, mewn gwroldeb i dynu'n ol, yr wyf  
 Yn diolch i'r tarawydd ro imi farwol giwyf,—  
 Atalio yr ochenaid, lonyddo'm trywyllt fryd—  
 A rwystro i'm trueni liffeirio'n ffrwd o hyd.

Y dywell fantell yma—y nos gaddugol, sydd  
 Yn dyfod i enhuddo'm suddedig yspryd prudd ;  
 Ddadlenir yn y boreu—ddifflana pan ddaw'r wawr ;  
 O flaen fy Nuw, fy Nwyrain, fy Haul trylachar mawr !

## Meddyliau am y Nefoedd.

Y Miwsig gan OWAIN ALAW.

[Y mae y tri phenill hyn mewn rhan yn wreiddiol, ac mewn rhan yn gyneithiedig.]

Daw meddyliau am y nefoedd,  
 Gydag awel wan y nawn ;  
 Gyda llanw'r mor fe ddeuant,  
 Gan lefaru'n felus iawn.  
 Pan fo'r mellt fel ser yn syrthio,  
 Yn y storm gynhyrfus gref,  
 Pan fo'r llong yn teimlo'r creigiau,  
 Daw meddyliau am y nef.

Daw meddyliau am y nefoedd,  
 I unigedd fforest goed,  
 Ac i'r anial, lle nas tyfodd  
 Un glaswelltyn bach erioed.  
 Ar fynyddau'r iâ trag'wyddol,  
 Ac ar greigiau llymion, lle  
 Bydd eryrod yn gorphwyso,  
 Daw meddyliau am y nef.

Daw meddyliau am y nefoedd  
 I ynysig leia'r aig,  
 Lle mae'r ddn yn gosod coron  
 Gwrèl wen ar ben y graig ;  
 Trwy holl gyfandiroedd ddear,  
 Glynoedd dwfn, a brynau ban,  
 Pur feddyliau am y nefoedd  
 Ddont eu hunain i bob man.

## I Gysfaill, ar Harwolaeth un a garai.

O! EDRYCH i'r nefoedd, nac edrych i'r bedd,  
 Gollynga dy enaid i'r wybren ;  
 Os cuddiodd y ddaiar sirioldeb ei gwedd,  
 Gwnaed hefyd gan ser y ffurfafen ;  
 Os myni ymgrwydro yn araf a syn  
 Ger beddrod un fu yn dy garu,  
 O! cofia mai *gwendid* tynerwch yw hyn,  
 A *chryfder* yw edrych i fynu.

I fynu, fy nghyfaill, O! cyfod dy drem,  
 Dy dristwch ymgyl mewn goleuni ;  
 Lle oer ydyw'r fynwent—mae'r awel yn llem  
 O amgylch yr fw a'r beddfeini :  
 Lle oer yw'r byd hefyd, pe treuliem ein hoes  
 Yn uchaf ar uchel deyrnasoedd ;  
 Ond diolch i'r Crëwr, i ddynion fe roes  
 Olygon i weled y nefoedd.

O! edrych i'r nefoedd, a ehyda'r ser dos,  
 Pan deithiant o orwel i orwel,  
 A gwna gydnabyddiaeth â gwylwyr y nos,  
 Derbyniant fab daear fel angel :  
 Cyfoda'th olygon, a dos gyda hwy,  
 Cei weled y llachar wyn lysoedd,  
 Nid oes yno alar, nid oes yno glwy',—  
 Edrychwn o hyd tua'r nefoedd.

## I goffadwriaeth Dr. W. O. Pughe.

(Y ddau Englyn cyntaf yn awgrymedig.)

PAN ydoedd niwloedd a nos—ar iaith yr  
 Hil Frython yn aros,  
 “ Cyfod, Puw,” ebai Duw—“ dos  
 I ddwyn eu hiaith o ddunos.”

Ac yna goleuni canaid—a roed  
 Ar iaith ein henafaid ;  
 A'n llên oedd fel gem mewn llaid,  
 Hwn a'i dygai'n fendigaid.

Bu hwn hefyd ben Ifawr,—ie, bu  
 Yn ben bardd a doethawr ;  
 Yn mysg dysgedigion mawr  
 Nis gwelwyd fath ysgolawr.

Ow ein gwlad ! cyn geni ein glyw,—marw'r  
 Omeriaith ddigyfryw !  
 Ond rhyfedd wele heddyw,  
 E'n ei fedd a'n hiaith yn fyw !

### Gwahoddiad i Janceinion.

MAE wythnos y Sulgwyn wrth riniog y tŷ,  
 A chyda hi lu o rai anwyl ;  
 A mil o galonau serchiadol a chu  
 Gynesant wrth feddwl a disgwyl.

Pob cyfaill i gyfaill addawa fwynhad—  
 Mae'r wlad yn ymarllwys i'r trefydd ;  
 A'r dref yn myn'd allan i ganol y wlad,  
 I'r dyffryn, i'r graig, ac i'r mynydd.

Cychwynwch gyfeillion, mae yma le iawn,  
 Ni raid i chwi wisgo fel beilchion,—  
 Cewch chwareu, cewch garu, cewch ddangos eich dawn,  
 A chwerthin eich hunain yn deilohion.

### Gwyn, gwyn yw Mur.

Y Miwsig wedi ei addasu gan OWAIN ALAW.

GWYN, gwyn yw mur y bwthyn ar y bryn,  
 O'i bared tŷf rhosynau coch a gwyn ;  
 Tu allan, hardd a pharadwysaidd yw—  
 Tu fewn mae'r ferch, fy nghariad wen yn byw.

### Beddargraff y diweddar Barch. Ll. Samuel.

AE ei fedd oer, crefydd ddél—i alw  
 Ei Llewelyn Samuel ;  
 E ni yngan, rhodd angel  
 Enau y sant o dan sel.

Was Duw, er dy ddystewi—yn y bedd,  
 Byw o hyd dy wersi,  
 A d'einiocs ddywed ini,  
 Heb ystaen y buost ti.

### Ochenaid am fy Ngwlad.

Am hensaint ni ddymuna',—a chysur  
 Ni cheisiaf tra yma ;  
 Na! gofid trwm gaf fi tra  
 O ddolydd fy ngwerdd Walia.

Ai dyma'r fan roed imi—i farw  
 O f' hiraeth am dani ?  
 Hyn o fraint, fy Ion, fy Rhi,—os caf  
 Yn angau hunaf lle ce's fy ngeni.

Tra'n oesi y truenusaf—o bawb  
 Yn y byd a fyddaf ;  
 A phan fy oes orphenaf,  
 Yn fy ngwlad lwys gorphwys gaf.

Hyn garwn tra'n gorwedd—yn y ddaear  
 Hyd oni ddoi adwedd,  
 Er fy mharch, O! ar fy medd  
 Gwened gwyllt-flochau Gwynedd.

Siriol feillion a sieryd—am danaf  
 Gan ymdoni'n hyfryd !  
 Doed yr hun! doed yr enyd!  
 Yn fy medd O! gwyn fy myd!

### Tuag Adre'.

O DDYDD i ddydd mae melyn haul  
 Yn pasio yn ei gerbyd ;  
 O nos i nos mae'r lleuad wen  
 Yn codi ac yn machlud ;  
 O awr i awr mae'r ser yn troi  
 Ar draws yr eangderau ;—  
 Yn wir, mae holl gre'digaeth Duw  
 Yn teithio tuag adre'.

Mae'r ffrydlif fach, ar ben y bryn,  
 Yn rhedeg megis crwydryn ;  
 Ac afon fawr, y dolydd ia,  
 Yn rhedeg yn y dyffryn ;  
 Mae'r gwynt yn crwydro yn y nef,  
 A symud mae'r cymylau,  
 Ac O ! mae holl grê digaeath Duw  
 Yn teithio tuag adre'.

Mae gwynt Diwygiad ar ei daith,  
 A derw Cymru'n gildio,  
 Mae sŵn gorfoledd yn y dail,—  
 A sŵn cangenau'n cracio ;  
 O ! Anadl tyr'd o'r pedwar gwynt,  
 A chymer y byd mewn hymnau,  
 Cân a moliant iddo Ef,  
 I byrth trag'wyddol gartre'.

*Rhag.* 1859.

### O ! Dowch i'r Mynyddoedd.

Y Miwsig wedi ei addasu gan OWAIN ALAW.

O DOWCH ac anghofiwch helbulon y llawr,  
 Ac awn ar ysgwyddau y Wyddfa wen fawr,  
 I redeg fel ceirw—i chwareu fel wyn,  
 Gan yfed ffynonydd yn nghysgod y brwyn,—  
 O ! dowch i'r mynyddoedd i hyfryd fwynhau  
 Awelon yr entrych am ddiwrnod neu ddau.  
 O ! dowch ar frys, O ! dowch ar frys,  
 I ardd y mwyar gwyllt a'r llus,  
 Lle mae'r ehedydd bach a'r dryw,  
 Ac adar man y grug yn byw.

O dowch ac eisteddwn ar gribyn y bryn,  
 Lle bu yr eryrod yn gorphwys cyn hyn :  
 Ond dawnsio mae'r 'hedydd i delyn y gwynt,  
 O amgylch y creigiau lle sagent hwy gynt—  
 Eryrod Eryri ni welir hwy mwy,  
 Ond byddwn ni'n rhyddion a hyffion fel hwy !  
 O ! dowch ar frys, O ! dowch ar frys,  
 I ardd y mwyar gwyllt a'r llus,  
 Lle mae'r ehedydd bach a'r dryw,  
 Ac adar man y grug yn byw.



Os hoffwch beroriaeth, O ! dowch gyda fi,  
 I wrando anthemau yr awel a'r lli !  
 Os hoffwch gynghanedd mewn darlun neu dant,  
 Fe gydgan y celfion mewn rhaiadr nant ;  
 Os hoffech gael ffrwd o ieuentyd i'oh gwaed,  
 Ar gopa 'r mynyddoedd gosodwch eich traed.  
 O ! dowch ar frys, O ! dowch ar frys,  
 I ardd y mwya'r gwyllt a'r llus,  
 Lle mae 'r ehedydd bach a'r dryw  
 Ac adar man y grug yn byw.

## Beth yw Cariad.

ALAW,—*Llyngs Onn.*

A FEDEWCH chwi ateb ai cryfder yw cariad,  
 Neu ynte ryw wendid perthynol i ddyn ?  
 Rhyw dro aeth athronydd i wneuthur atebiad,  
 Ond syrthiodd mewn serch, ac ni wyddai pa un !  
 Aeth mynach dro arall i wneuthur traethodyn,  
 I ateb y cwestiwn yn ddoeth, megis mwnc,  
 Ond cofiodd am lances wrth ymdrin a'r testun,  
 A llosgodd ei bapur cyn deall ei bwnc !

Gan frawd o fynachydd fe'i gwawdiwyd ar unwaith  
 Am wendid ei synwyr, a gwendid ei gnawd ;  
 A'r ail a ddechreuodd gyflawni gorchestwaith,  
 I ddangos ei ddoniau yn gryfach na 'i frawd ;  
 Bu flwyddyn a haner—os gwir ydyw 'r stori  
 Yn dal at ei draethawd yn ddiwyd a chaeth,  
 Ac yna fe gym'rodd y goes o'r mynachdy,  
 A byth ni hysbyswyd ble gebyst yr aeth.

Bu prydydd yn treio, a threiodd ei oreu  
 I roddi esboniad, a d'wedyd wna'i ef,  
 Mai gwllith ydyw cariad, o Eden wen foreu,  
 Yr hwn gan yr haul ni chymerwyd i'r nef.  
 Ac yna bu critig go sychlyd ei deimlad—  
 Y beirdd oeddynt ffaidd yn ngolwg y dyn—  
 Yn ffurfio deffiniad dysgedig o gariad,  
 Ond yn ei ddeffiniad—prydyddodd ei hun !

“ Mae 'r byd wedi 'i hulio â philosophyddion,  
 A phrin gallid meddwl fod un gyfrin gell ;

Yn mhalas mawr natur, na rhol o gyfrinion,  
 Na dim yn rhy ddwfn, na dim yn rhy bell ;  
 Yn ngolwg fferyllydd, elfenau a nwyau,  
 Yw 'r awyr, a'r ddaear, a phobpeth a wêl :  
 Ond bywyd a chariad a heriant wyddonau,  
 Maent hwy megis llythyr heb agor ei sêl."

P'un bynag a'i *cryfder* a'i *gwendid* yw cariad,  
 Dadleued prydyddion a doethion y byd ;  
 Fe adwaen i lances rhwng bryniau fy mam-wlad  
 Sy'n deall y testun yn well na nhw i gyd ;  
 'Does ynddi ddim rhodres dysgedig furseniad,  
 'Dyw hi ddim yn gritig, athronydd, na mwnc :  
 Ond pe baech yn disgyn tan amrant ei llygad,  
 Chwi deimlech eich calon yn deall y pwnc.

### Mae Jane ein Merch.

DEUAWD rhwng gwr a gwraig. Y dôn "*Godlye*" wedi ei haddasu  
 gan OWAIN ALAW. Gwel ail rifyn o'r "*GEMS*."

HI. MAE Jane ein merch am gymryd gwr ;  
 EF. Gad iddi hi, ond pwy yw 'r dyn ?  
 HI. Nis gwn i fawr am dano 'n siwr ;  
 EF. Ond gwell cael gwr na bod heb 'r un.  
 Y DEAU. Rheoli 'r byd mae cariad :  
     Troi y dw'r haws i ni  
     O naturiol wely 'r lli ;  
     Mynais i dy gael di,  
     Mynaist dithau fy nghael i,  
 Ac waeth i ni yn wir heb siarad.

HI. Cawn golled fawr os collwn Jane :  
 EF. Gad iddi i fyn'd, a doed a ddoed ;  
 HI. Pan ge's i di ro'wn i yn hen :  
 EF. Un ddigon hen wyt ti erioed :  
 Y DDAU. Ond caru 'r y'm er hyny.  
     Hardda'r wedd, hardda'r wên,  
     Fel po meina' 'r elo 'r ên,  
     Cryfaf serch, serch yr hen ;  
     Lawr i'r bedd fe deithia Jane,  
 Ond serch, ond serch a deithia i fyny.

HI. Ond rhaid cael morwyn yn ei lle,—  
 EF. Os rhaid cael *dwy*, gad hyny fod.

HI. Rwy'n crio bron, nas gwn am be';  
 EF. Pa bryd mae'r llanc yn meddwl d'od?  
 Y DDAU. Myn cariad fod yn benaeth.  
     Felly bo, felly bo,  
     Myn'd yr y'm o do i do.  
     Pan f'om ni yn y gro,  
     Er sy'n porthi'r deryn tō,  
     Fydd dynar dad i'n hanwyl eneth.

### D Gwely o Gymry.

Y Miwsig wedi ei addasu gan Mr. J. D. JONES.

Yn nghanol fy ngwely rwyf fi,  
 Yn nghanol dwfn eigion fy ngwely :  
 Yn methu yn glir cael fy ngwynt,  
 Ac heb fod yn ddeffro na'n cysgu.

'Rwy'n chwrnu nes deffro fy hun,  
 Ond chwrnaf fy hunan i huno !  
 'Rwy'n deffro yn nghanol fy nghwsg,  
 Ac wedyn yn cysgu wrth ddeffro !

Mewn gwely a gefais gan mam,  
 Dych'mygaf fy hunan yn cysgu ;  
 Ond wedyn fe drof ar fy nghefn,  
 Ac yna mi fyddaf yn Nghymru.

Ar fawn Dolydd Ceiriog mae'm pen,  
 A'm traed a gyrhaeddant Lanarmon ;  
 Ac un o bob ochor im' mae  
 Moel Sarffle, a Phen Ceryg Gwynion !

Petruso fel yna 'r wyf fi  
 Pwy ydwyf, beth ydwyf yr awrhon ?—  
 Pa un wyf, ai Ceiriog y bardd,  
 Ai ynte yr hen Geiriog afon ?

Ymddyddan a murmur mae hi,  
 Wrth redeg hyd raian ei glanau ;  
 Mae'r afon yn siarad trwy 'i hûn,  
 A siarad trwy f' hûn yr wyf finau.

Mae'r afon yn canu am fôr,  
 Ac wedi d'od iddo'n tawelu ;  
 Ond nid fel yr afon 'r wyf fi,—  
 'Rwy'n dechreu fy nghân yn fy ngwely.

Mi wn beth gydnebydd fy mam  
 Im' wneuthur fel diolch am danu;  
 Sef plygu fy nglin at fy Nuw,  
 Wrth fyned a chodi o hono.  
 Ei chosio mewn cariad bob nos,  
 Y dodaf fy mhen i orphwyso—  
 Ei gadw 'n ddihalog a phur,  
 A myned i'r nefoedd o hono.

### Alles o'r Cloty.

Yn Nhloty 'r Sir yr wyf yn byw,  
 Neu 'n *marw* ddylwn dd'wedyd,  
 Gan bwysu 'm pen ar swp o wellt,  
 A meddwl am f' anwylyd,  
 Ac am ei amod gynt y gwnai  
 Fi'n briod iddo 'i hunan;  
 Ond tori ei adduned wnaeth,  
 Am nad oedd genyf arian:  
 A dyma 'r fodrwy oedd i fod  
 Yn fodrwy fy mhriodas,  
 Yn awr yn llosgi ar fy llaw  
 Fel cylch o haiarn eirias.  
 Cofleidio 'r wyf ei ddelw ef,  
 Ond gwarth dy fam, fy mychan;  
 O! Dduw! ai bastardd yw fy merch  
 Am nad oedd genyf arian!  
 O! sugna 'm bron, a chwsg, fy merch,  
 Fy maban difrycheulyd;  
 Mi ro'f fy mron i ti, fel rho'is  
 Fy nghalon i'm hanwylyd.  
 Mae ef yn mhell mewn estron dir,  
 Am fod y byd yn llydan:  
 A ninau yn Nhloty 'r Sir,  
 Am nad oes genyf arian!  
 Mae adar bach y tô yn d'od  
 I daro y ffenestri,  
 Fel pe baent eisieu d'od i mewn,  
 I'th weled *ti*, fy mabi.  
 Ond nid oes mamau plant yn d'od,  
 I wel'd dy wyneb mwynlan;  
 Ond hwy a ddeusent pe b'ai gwledd,  
 A thy, a thê, ac arian.

## Gohebiaethau Swnddogol

SYR MEURIG GRYNWTH, BYWBOTHFARDD,  
AC ENWOGION ERAILL.

AT OLYGYDD YR "ORIAU."

LLYTHYR CYNTAF.

SYR,—Nid gyda chwi yr wyf yn siarad, ond gyda y beirdd; ac wele fi yn danfon yr hysbysiad pwysig canlynol i'w sylw, heb godi dim tâl arnoch am ei adferteisio.

AT Y BEIRDD.

Am fod yr amser drwg presenol wedi gwneud y fath ostyngiad dirfawr yn mhrisiau awdlau ac englynion cydsain-glecsain, ac oherwydd methdaliadau eisteddfodol, adolygiadau anffafriol, anghyfiawnder beirniaid, a gonestrwydd eraill, y mae un o *feirdd* enwocaf y Dywysogaeth yn cael ei orfodi gan amgylchiadau i wneud arwerthiad llwyr ar ei holl feddianau,—ei weithfa, ei ystorfa, a'i siop, lle mae peirianau a nwyddau o bob math perthynol i'r gelfyddyd o farddoni. Dechreuwn gydag enwi rhai o'r pethau mwyaf gwerthfawr yn y siop.

1. *Myrddiwn a haner o linellau cynghaneddol*, yn anfarwol i gyd, ac yn barod ar unrhyw foment ddifyfyr i'w dethol allan i wneud yr awdl odidocaf yn ein hiaith, ar unrhyw bwne neu destun a ddymuno y prydydd eu defnyddio.

2. *Deunaw mil o englynion ar haner eu gwneud*—oll ond un yn cael eu gwarantu gan y gwerthwr i fod yn anfarwol.

3. *Cywydd bychan a wnaeth yr awdwr pan yn ieuanc*, o'r un hŷd ag ysgol Jacob. Bwriedir gwerthu hwn wrth y llaith, neu fel y bo y prynwr yn dewis.

4. *Deunaw o bryddestau hirfaith ar wahanol destunau*, oll yn sôn am "anian fawr," yr "adar bach," a'r "blodau blydd." Gofalwyd hefyd i anerech yr awen yn nechreuad pob un o honynt.

5. *Tri ugain o bryddest-gerddi*, tryloewog o flodionos

F

eurawg, tlysgain, urddasberth gan fân-ddeilios, gwynber, ireiddlas; a llawndwf feillion ceufrigog, ceindlws. I eiriadwyr, a masnachwyr hen fathodau, bydd y rhai hyn yn dra defnyddiol.

6. *Un cant ar bymtheg o fedalau a llawryfon*, oll yn arian pur, wedi eu gwneud o blwm.

7. (Yn yr ystorfa o dan y siop.) *Pymtheg cant o farilau yn cynwys pŷg cynghanedd*. Y mae hwn o'r fath oreu; ni wyddis am un linell, erioed, â ddatododd ar ol ei gludio â'r pŷg rhagorol hwn.

8. *Pedair hogsiad ar ddeg o ddyfroedd Marah*, i wneud galarnadau ar ol enwogion Cymru, am wobrwyon a thlysau; ac i bobl ddinod, na chlywsom ac na welsom eu henw cyn ei gysylltu â swm gwobr eu marwnad.

9. *Triugain ffurcyno sebon meddal* i lithrician brawddegau, ac i rwbio beirniaid a phwyllgorau eisteddfodol.

10. (Yn y gweithdy, yn cael eu gyru trwy rym ager.) *Peiriant Garwneuthurol*, yn alluog i dafu allan ugain mil y munud o eiriau cyfansawdd, diledryw; er engrhaifft, —awrlais (cloc), rhych-gorphlu (rheifflgor), egwyddorwas (prentis), diddosben (het), penguwch (bonet), &c.

11. *Peiriant tori*, gyda chwech o gyllill i'r dyben o dori, darnio, hacio, llurgunio, torfynyglu a chrebychu geiriau yn bob ffurf a llun ellir ddychymygu, er mwyn eu ffitio i forteisiau acen, corfan, hŷd, a chynghanedd.

12. *Megin awelon*, neu yn ol yr iaith fawr Anglo-Sacsonaidd, *Æolian Blowing Machine*, i lanw y cyfansoddiadau gyda gwynt. Y mae hon mewn cyflwr ysplenydd; a'r gwynt, medd y doethawr Creuddynfab, mor debyg i arucheledd fel nad eill ein beirniaid manylgraff wahan-iaethu rhyngddynt.

13. *Peiriant Parod Breintebol*, i gyfansoddi englynion difyfyf. Bu y meddianydd presenol yn alluog i wneud dau englyn ar unwaith gyda'r offeryn hwn, heb wybod testun yr un o honynt tan ddydd yr Eisteddfod, yr hon a gynaliwyd yn mhen wyth mis ar ol gwneud yr englynion. Dyma un o honynt fel engrhaifft:—

#### ENGLYN I'R FRAN.

Rhoi ohwe swllt am arch hosan,—Dic awyl,  
Daw cinio yn fuan;  
Clyw yn y nef fréf y fran,  
Trwy beisiau tarw Basan.

Ond gan fod y cyfansoddiadau fel y peirianau i ddyfod dan y morthwyl, rhaid ymatal rhag cyhoeddi ychwaneg; ond gwasanaetha yr uchod i ddangos difeusrwydd barddonol y lleill. Os oes neb yn teimlo yn awyddus i brynu yr holl eiddo ysplenydd yma yn gyfrinachol, anfoned lythyr, wedi eu flaendalu, i Llanfihangel-y-gwllaw, at

SYR MEURIG GRYNSTWTH.

O.Y.—Os ceir pris teilwng am y pethau uchod, y mae yr arwerthydd yn meddwl y derbynia gyfarwyddyd i werthu holl OFFERI BEIRNIADU perthynol i'r un awdwr; megis peiriant gwyntyllo, gograu ysbwrial, cyllill ys-gythru, clorianau teilyngdod, heblaw rhai galwyni o ddyfroedd Helicon, a bwndeli o ddail Parnasws, wedi eu cynhauafu yn y dull goreu, ynghyda *Llyfr Triciau* yn dysgu y ffordd i benderfynu teilyngdod cyfansoddiadau heb eu darllen, i wobrwyo cyfaill anheilwng heb archolli cydwybod; at ba un yr ychwanegwyd atodiad gan law ddiweddar, yn egluro yr egwyddor newydd o wneud dau, pedwar, chwech, wyth, neu gant o ymgeiswyr, os bydd digon o ddewis, i fod yn fuddugol—bob un yn gystal a'r llall, ac yn well hefyd. Rhoddir manylion yn rhad mewn hysbysiad dyfodol.

SYR M. G.

YR AIL LYTHYR.

AT SYR MEURIG GRYNSTWTH:

*Arwerthydd Breninol Beirdd Braint a Defawd Beirdd  
Ynys Prydain.*

SYR,—Y mae cyfiawnder âg achos gwlad, yn galw arnaf gydnabod yn gyhoeddus ger bron Cymru benbaladr a Llanystymdwy, y fantais a ddigwyddodd i mi trwy dderbyn eich gair fel gwr boneddig. Rhaid imi ddyweyd ar yr un pryd, fy mod ar y dechreu, pan gyda chwi ddiwrnod yr arwerthiad, yn meddwl fod pedair punt ar ddeg yn arian go fawr i'w rhoddi am y peiriant englynu, ond erbyn heddyw yr wyf yn gweled ei fod yn rhated a thom yr heol—maddeuwch y gydmariaeth, yr wyf mewn cryn hwyl, ac ar dipyn o frys. Wrth fyned adref o'r ocsiwn, yr oedd fy awydd yn fawr am gael gweled y

peiriant yn gwneud *un* englyn—dim ond un—i weled wyddoch. Wel, fe gynyddodd yr awydd mor fawr nes y methais a chyraedd adref heb wneud prawf ar alluoedd englynyddol y peiriant. Felly i lawr a'r holl daclau, wrth lidiart Cae'r Gors, a gosod y peiriant mewn ystum weithyddol. Nid cynt y rhoddais dro ar yr olwyn nag y daeth allan yr

ENGLYN I'R PORCHELL:

PORCHELL a dichell y da,—a miwsig  
I Moses ac Efa;  
Tori nyth y tarw wna,  
A thoddion o waith Adda.

Wel, ni fu erioed yn nes i mi neidio o'm croen nag a fu i mi pan welais hwn, ac oni bai ei fod yn ffitio yn lled dŷn, credu yr ydwyf yn fy nghalon mai felly y buasai. Ond yn lle hyny, sefais mor syth a pholyn, neu ryfeddnod wedi ei startsio. Wedi dyfod dipyn o gwmpas, dechreuais feddwl fod y peiriant yn medru Saesneg, yn gwybod hanes Moses ac Efa, ac fod ei alluoedd hanesyddol ef tros ben pob darluniad. Ond nid ydoedd hyny fawr rhagor y ffaith mai hwn fydd yr englyn buddugol yn Eisteddfod Cyrn y Bŵch, y flwyddyn nesaf; yr hon a lywyddir y dydd cyntaf gan G. H. Whalley, yr ail dydd gan Gyrnol Tottenham, y trydydd dydd gan Williams, Castell-Deudraeth, a'r pedwerydd dydd a'r olaf gan W. W. E. Wynne, Ysw., o Beniarth. Mewn munud i fyny a'r taclau, ac ar ol i gariwr y felin gyda thri o fulod pyniog fy mhasio, dechreuais synfyfyrto a chyfrif pa hyd y byddai y peiriant yn talu am dano ei hun. Fel hyn mewn Eisteddfod Daleithiol fel un Rhuddlan, Llangollen, Merthyr, a Dinbych, oblegid nid oeddwn am ymostwng mwy i anrhydeddu y mâneisteddfodach a'm cyfansoddiadau, ni chynygir llai na phunt am englyn, a dim ond enill, yr hyn nis gallwn fethu, mewn pedair-eisteddfod-ar-ddeg, a dyna yr holl arian a'r gost wedi eu gwneud i fynu. Bydd pob peth a enilla ar ol hyny yn broffit glân gloew. Awn yn mlaen yn araf ar hyd y ffordd, gan geisio dyfalu beth a wnawn gyda'r arian lawer oedd yn sier o ddygwydd imi oddiwrth enilliadau y peiriant. Y meddwl cyntaf darawodd i'm pen ydoedd prynu Sir Fôn, os cawn hi am bris rhesymol, fel ag y gallwn godi castell arni i mi a'm hetifeddion byth. Tybiais drachefu y byddai fy



enw yn fwy anwyl gan fy nghydfeirdd anturiaethus, pe bawn yn gwneud cytunteb gyda brenin Patagonia, i gael y wlad hono am 999 o flynyddoedd ar osodiad. Ond wrth ollwng y rhaff i'm meddwl a synfyfyrio am y dyfodiant, cyfarfyddais â Tobi, yr hwn oedd wedi fy nghanfod yn neshau adref. Wedi cyrhaedd yno, meddwn i,—“Gan fod y peiriant mewn cyflwr rhydlyd fel hyn yn gwneud y fath englyn, beth ellir ddisgwyl oddiwrtho wedi ei loewi, ac iro tipyn ar ei echelau,

“A thoddion o waith Adda.”

Rhoi spel o lanhau ac iro, ac iro a glanhau, nes oedd y peiriant yn haner siarad. Wrth fyned yn mlaen gyda'r gorchwyl dyddorol hwn, canfyddais wialen haiarn fechan, ac fod yn hawdd efo hono estyn hyd y llinellau yn ddeg neu ddeuddeg o latheni o hyd, a'r casgliad naturiol oddiwrth hyny oedd, fod y peiriant wedi ei gymhwyso i wneud toddediau hirlinellog yn gystal ac englynion pert. I foddloni fy hun ar y pen pwysig hwn, rhoddais brawf; symudais y wialen, rhoddais dro ar yr olwyn, a chyn y gallwn ddyweud Abracadabra Jones, dyma y toddaid toddedig canlynol yn gwneud ei ymddangosiad fel cyn-yrch swynlath:—

#### Y WIBYMDAITH ANTURUS.

Ar ol pasio rhyw wely peiswyn,  
Ac yna brathu caceuau brethyn,  
Gweled y rhodau a gwlad y rhedyn,  
A chain ogoniant ychain a gwenyn,  
A thop esgidiau o waith pysgodyn;  
Rhyfeddodau mwy rhyfedd wed'yn  
Syl'n dod i swyno dyn—ar gynydd,  
Ac ieir y mynydd yn cyweirio meny.

“Siwmpwl!” meddwn i,—“y mae hwn wedi bod yn *studio* borddoniaeth dan Tegai athronyddol; wedi gwneud y ‘Drych Barddonol,’ y ‘Barddoniadur,’ ‘Tafol y Beirdd,’ a llyfr Robert Davies, yn eiddo priodol iddo ei hun; ac wedi ymgeisio mor uchel a gwneud prif awdlau Gwalchmai, a Rhiangerddi Llangollen, yn gynlluniau i'w hefelychu.” “Wyddost ti beth, beiriant?—yr wyf yn ffondiach o honot ti nag yw Iorwerth o'i ‘boni bach,’ nag yw Llwyfo o'i ‘Wenhwyfar,’ a Ceiriog o'i ‘Fyfanwy.’ Y mae ‘Iliad’ Homer, a ‘Choll Gwynfa’ Miltwn, yn glasu yn eu hwynebau yn ymyl dy doddeidiau!—y mae

eu hanfarwoldeb hwy yn marw o eisiau achles!'" Ust! dyma englyn a thoddaid,—beth sydd yn rhwystro i mi gael awdl ar y pedwar-mesur-ar-hugain cerdd dafawd; Nid cynt y ffurfiwyd y meddylddrych nag yr aethum yno at y gwaith o'i gynyrchu. Dim ond deugain tro a phump ar yr olwyn, a dyna hyny drosodd! Ond peidiwch arswydo, Mr. Golygydd, nid wyf yn myned i'ch trafferthu chwi y tro hwn gyda'r awdl benigamp a neidiodd yn y fan i fodolaeth. Digon yw dyweud fod ynddi holl aruthredd Eben Fardd, holl fanyleb Caledfryn, holl dynnerwch Emrys, holl gawrineb Hiraethog, a holl gynganeddrwydd Gwalchmai ap Meilir. Fe allai y caiff y cyhoedd, ond iddo fyhafio ei hun, yr anrhydedd o'i gweled mewn rhifyn dyfodol o'r '*Oriau*,' os bydd awydd am un arall allan. Rhyngoch chwi a hyny.

Yn awr, Syr, sef Mr. Golygydd, ac nid Syr Meurig wyf yn feddwl gan nad ydych chwi yn foddlon i roddi ond rhyw bum puntan, faint bynag fo hyd a gwerth yr erthygl, nid wyf yn gweled ysport yn y byd i mi weithio fy mheirianau allan o wynt. Felly yr wyf yn terfynu y tro hwn gydag un enghraifft ychwanegol, i gynyrchu pa un fe ddefnyddiwyd y fegin awelon y peiriant gairwneuthurol, a'r peiriant englynu. Er mwyn yr anwybodus yr wyf yn dymuno hysbysu yn ddiraul mai englyn ydyw

#### I'R AFR.

Ar grugrgroen yr hagr grogrgraig—a llamsach  
Hyd hell lemserth lethrgraig;  
Ochran neu grub uchran y graig,  
Grothawggrub ar greithiograig.

Ac wele un arall i'r rheiff a ddyfeisiodd Whitworth, yr hwn fel y gwyr y rhai wyddant, sydd yn cynwys chwech o rychau tu fewn i'r barrel. Yr enw Cymraeg medd ieithiaduron yw

#### Y RHYCHDDRYLL.

Y Rychddryll gerwyll i'n gorawr,—archrochydd,  
Erch wreichion a phylawr;  
O awch uchel chwech ochawr,  
Ei fflwch luwch fflachia i lawr.

Y mae gwallgofdy newydd yn Sir Ffint, ond nid heb ei eisiau, ac os oes rhywun yn amheu nad yr uchod fyddai y buddugolion, pe cynygid y testun, gyrwch ef yno.

BYWBOTHFARDD.

O.Y. Gan fy mod yn caru lles y cyffredin yn *nesaf* at fy lles fy hun, yr wyf yn cymeryd y cyfleustra hwn i hysbysu fy mod yn bwriadu rhoddi 'Coll Gwynfa' Miltwn trwy y peiriant awdlu, er mwyn tawelu ysbryd Goronwy, yr hwn a ddywedodd na welodd ef ddim yn debyg i farddoniaeth yn yr iaith Saes'neg. Pe gallwn gael gan ryw Gymro gwladgarol a medrus gyfieithu cyfieithiad y Dr. Pughe i'r iaith *Gymraeg*, gwnawn yr un drugaredd â hwnw hefyd. Rhoddai hyn daw bythol ar y baldordd-wyr hyn sydd yn edliw ar bob egwyl na feddwn gyfansoddiad arwrol yn yr iaith heblaw cynyrchion y Merthyr. Dymunwn hefyd fod o dipyn o wasanaeth i feirdd ieuainc. Os bydd ganddynt gymalau englyn go anystwyth, yr wyf yn barod i'w hystwytho am naw a chwech y dwsin. Os gofynir am gymeradwyaeth, y mae i'w gael yn yr eng-rhaifft hon.

Rhoddwyd y ganig ganlynol yn ysgrifenedig ar bapyr llwyd yn y *machine* :—

GWRANDEWCH ar gân y gwco fwyn,  
Fel llais ðieithriol yn y llwyn ;  
Y sw n a glywir tros y wig,  
Ond rhyfedd iawn yw gwel'd ei phig.

Canlynaf di a'th ganig fwyn  
Sy'n swnio'n felus yn y llwyn ;  
Dywedi wrthyf yn ddiðaw,  
Y gauaf aeth, a'r hâf a ddaw.

Yr oedd honyna yn gân go dda hefyd i un peiriant feddwl am wella rhyw lawer arni, ond daeth allan fel hyn ar bapur claer wyn,—

GWRANDEWCH ar lais y gwco fwyn,  
Fel llais y Gwanwyn yn y llwyn ;  
Fe wena'r coed mewn blagar mân.  
A genir byd yn sw n ei chân.

Fel gwas y góg, o lwyn i lwyn,  
Canlynaf di i'y nghwco fwyn ;  
Ac O ! na byddai mwy fel ti,  
Yn d'weyd am hâf o hyd i mi.

Mwy o ddwys-deimlad yn y peiriant, y'ch chwi yn gwel'd?

O.Y. Mr. Gol.—Os barnweh hyn o natur hysbysiad, wel, cedwch eich swllt, ac anfonweh i mi bedair punt a phedwar swllt ar bymtheg yn lle pum'punt. B.

## TRYDYDD LLYTHYR.

## ARWERTHIANT YR OFFERYNAU LLENYDDOL.

MR. GOLYGYDD,—Dyma i chwi bapur pum-punt at eich pum-punt eich hun, i'w hanfon i Brychan Bywboth-fardd, Ysw., am ei lythyr synwyrol, gonest, a bonedd-igaidd, mewn perthynas i'r peiriant englynu a brynodd oddiarnaf ddydd yr ocsiwn diweddaf. O ran hyny ni chlywais i neb erioed a wnaeth fusnes gyda fi, yn cwyno oherwydd ei fargen, oddigerth Heenan y paffiwr mawr Americanaidd, yr hwn fel y gwyddoch sydd hyd heddyw yn parhau i arswydo rhag cyfarfod a fi eto. Gan na fu'm ond ychydig fisoedd wrth fy musnes presenol, fel arwerthwr, (*auctioneer*) fe deimlwn yn dra diolchgar i'm cydwladwyr, os gadawant i mi eu gwerthu i fynu; ac wrth y rhai a werthais i fynu eisioes, ac eraill na feddant eiddo o gwbl, dymunwn ddywend fod fy ngwasanaeth, fel angladdydd cyhoeddus, (*funeral undertaker*), yn barod iddynt bob amser. Yn awr at y pwnc, gan nad yw llyfr yr arwerthiad wedi cael cychrediad hollol mor eang a'ch "*Oriau*" chwi, wele fi yn nodi ychydig o'r pethau hyny sydd genyf eto heb eu gwerthu: Rhif, 357, ar y rhestr yw *Peiriant Efelychol*; nid oes bardd na chrachfardd o Gaergwydion i'r Berw, nad ellir gyda'r peiriant cyw-rain yma ei efelychu i'r dim.

364, *Gogr* heb yr un twll ynddo, yn mha un yr ysgydwir ac y cedwir gweithiau dynion dystaw sydd o flaen eu hoes. Y mae llawer o farddoniaeth Islwyn, ac erthyglau o'r "*Traethodydd*" a'r "*Taliesin*" yn cael eu cadw yn ofalus yn y gograu hyn.

378, *Rhidyll fras* a ddefnyddir i safio llafur corfforol, a myned trwy y gwaith o lanhau y grawn yr un fath.

385, *Cant neu gylch Rhidyll*, yn dwll i gyd, trwy yr hwn y bydd brodyr o'r un daliadau yn lluchio gwaith eu gilydd.

392, *Bocsiad o gyllill ysgythru*, newydd eu derbyn o Brimijam, o bob math ac o bob min, y maent ar gynllun diweddaraf cyllill y banditti Ysbaenaidd; hynod o'r pwrpasol i gyhoeddiadau ceiniog ladd eu gilydd, ac i ymgeiswyr siomedig yr Eisteddfodau i ollwng gwaed cyf-

iawnder a barn. Os bydd eisieu cefnogi unrhyw bwyllgor gonest, neu ddiolch iddynt am eu llafur dirfawr ynglyn ag achos llenyddiaeth, gellir eu trywanu i farwolaeth efo'r gyllell ddefnyddiol hon. Pe bai Eben Fardd, neu bwyllgor y Merthyr, er enghraifft yn galw am gynorthwy rhyw feirniaid parchus ereill, heb ofyn i Mr. John Jones am ei ganiatad, bydd y gyllell hon yn barod i'w law bob amser. Os bydd llys y manddyledion yn gwrthod ymyr-aeth â boneddigion a danysgrifiasant eu punoedd at Eisteddfod genedlaethol, bydd min ar y dur a brath ar y ddagr hon. Ni ddylai un bardd aflwyddianus, yr un traethodwr ieuanc, yr un telyniwr difarf, na'r un paentiwr siomedig, fod heb yr erfyn pwrpasol hwn yn ei logell. Fe werthir y cyllill yn lotiau bychain fel bo y prynwyr yn dewis.

398, *Clorianau teilyngdod*, yn mha rai gellir pwygol Solomon fel ynfytddyn, awdlau a phryddestau buddugol fel Iliadau Homer, a Thwm o'r Nant fel Shakespere Cymreig.

401, Peiriant gwyntyllio heb edyn (*fans*) rhag ofn brifo teimladau neb trwy chwythu ei ūs i'r tomenydd.

410, *Colyr* i dori colynau pobl dafotwrg.

411, *Traiddfwyadur*, neu fath o ficroscope tra defnyddiol i bob ysgrifenydd a beirniad Eisteddfodol, i'w galluogi i weled enwau priodol yr ymgeiswyr trwy y sêl; defnyddir ef hefyd i ddarllen llyfrau heb eu hagog, ac i weled yr haul bob amser o'r nos.

416, *Amrywion*, yn mysg pethau eraill y mae swm dirfawr o belenau y doctor Lefi Zeciel Brown, i ladd beirdd ieuainc, chwislod, chwilod a llygod mawr; tynelli lawer o finceg rhag diffyg anadl wrth gynghaneddu, a phan fyddir yn fyr o feddylddrychau wrth bryddestu; dau gopi o lyfr triciau, yn cynwys y tric newydd sydd newydd ei ddarganfod eleni, sef, cyfarwyddyd i brofi fod Madog wedi darganfod America yn anibynol ar ffeithiau neu dystiolaethau trafaewyr; un o'r "Cyllill Hirion," gyda charn o gorn Belzebub, wedi ei gloewi a'i ailhogi; esgid fechan un o gawri Cantref-y-gwaelod, yn mha un y diangodd wyth o'r trigolion: y mae *mythology* yn profi mai hon yw arch Noa; un o'r wyau a grogid gynt wrth wddf y Derwyddon, newydd ei ddodwy gan yr un celfyddydwr ag a wnaeth ŵy yr archdderwydd ar lan y Taf,—awdwr Henafiaeth y Delyn, &c., &c.

Rhaid gwerthu yr oll yn ddiarbed cyn y cyntaf o Ion-awr nesaf, oblegid fod y tenant newydd yn myned i wneud ychydig gyfnewidiadau ar yr adeilad lle bydd yr arwerthiad, trwy ei throi a'i gwadnau i fyny i wneud y seler yn garet.

Yr eiddoch,

SYR MEURIG GRYNSTH, B.B.D.B.Y.P.

O.Y.—Anghofiais anfon y papyr pum'pant gyda'r llyth-yr hwn. Gyrais Sarah Jones, y forwyn newydd sydd yma, ar ol y postmon, ond methodd a'i oddiweddyd, felly does dim i'w wneud ond gadael iddo fyned heb y prës Heb-law hyny, yr wyf wedi selio y llythyr hwn fel nas gellir ei agor. Syr M.G.

PEDWERYDD LLYTHYR.

Y TACLAU BEIRNIADU, Y GWYLIAU, A'R GOLYGYDD.

AT SYR MEURIG GRYNSTH.

SYR,—Sef ydych chwi yn deall, Mr. Gol, oblegyd dyna y ffasiwn ddiweddaraf, dechreu gyda'r olaf yn y rhestr. Yn awr, Syr, yr oedd darn tair ceiniog rhwng dau haner coron yn yr arian a anfonasoch i mi, ac wedi ei gyfrif fel darn grot,—y'ch chwi yn gweled? Wel, nid oedd hyny fawr o bwys, ond pe digwyddai rhyw dri chant o weithiau, byddai yn dipyn dros bunt o golled i mi,—dyna'r cwbl: camgymeriad oedd y peth yn ddiau, ac yr wyf yn ei grybwyll rhag iddo ddigwydd eto. Ond pe bawn i yn gwybod ei fod wedi ei wneud o ddichell a malais rhag-fwriadol, caech ei chychwyn hi yn chwim trwy gynffon y sarff dorchog hyd Annwn, ar ol Stephens o Ferthyr, ac ysgymedigion ereill; ond yr wyf yn meddwl yn well am danoch chwi. Ystyriaeth bwysig arall, deallwch, y mae y Saeson wedi aroglu fy nhalent, ac yr wyf wedi fy ngwahodd i ysgrifenu erthyglau i'r *Punch* Saes'neg. Fwaswn i ddim yn meddwl am frolio hyn, ddim, ond rhag i bobl Llanrwst yna feddwl nad oes neb yn y byd yma ond hwy. Pe digwyddai y fath anffawd gymeryd lle ag i mi roi i fyny ysgrifenu Cymraeg, yr hyn gwareded y wlad rhag iddo gymeryd lle,—wel, ni byddai un newyddiadur yn ein hiaith yr wythnos ganlynol,—rhoddai pawb hwy i

fynu; dyna chwi yn awr yn deall ystyr pethau. Dyma'r Gwyliau wedi dyfod, ac nis gallwn feddwl am lwybr mwy difyrus i'w dreulio na gwahodd tŷaid o'm cyfeillion i weled prawfion (*experiments*) yn cael eu gwneud gyda'r Taclau Beirniadu, &c., a brynais yn ddiweddar gan yr hybarch a'r bythgofiadwy Syr Meurig Grynswth. Yr wyf yn teimlo fy hun yn myned yn ddoniol wrth sôn am yr hen batriarch derwyddol hwn; y mae rhywbeth yn ei lygad, yn enwedig yr un a gollodd trwy losg eira yn ei drwyn, fel ag y bu yn galed arno lawer tro rhag cymeryd mwy nag un Mrs. Grynswth; ond erbyn ystyried, nid oes a wnelo hyn â'r pwnc. Cyn myned at y prawfion, dylwn ddyweud un peth ag sydd yn dwyn perthynas bwysig â chwi a minau: coeliwch fi, bu yn agos i ni ein dau, h.y. chwi a minau, gael ein treio am ddynladdiad, a haner gwyrth a barodd i ni ddianc. Bore Sadwrn y daeth yr *Oriau* yma, yn cynwys fy llythyr o'r blaen; tafliwyd Llanfihangel-y-gwllaw a'r gymdogaeth i fraw dirfawr, yr hwn a derfynodd yn marwolaeth un Hucyn Llwyn-y-gwter. Yr oedd ei awydd yn gymaint am ddarllen fy llythyr, fel yr aeth ati cyn boregwest; ac efe oblegyd hyny dipyn yn newynog, aeth yr englyn i'r Afr yn gam yn ei geg, ac i gwblhau yr anffawd, llithrodd y paladr i lawr ei wddf, a daeth y gair cyrch "*a llamsach*" allan trwy fôn ei drwyn, a'r esgyll un trwy bob boch. Ceisiwyd cynorthwy y meddygon medrusaf yn y wlad, ond bu pob ymdriniaeth yn analluog i achub y dyn o'i gyflwr peryglus. Cynaliwyd conswltiad gan y meddygon, ond y penderfyniad ddeuwyd iddo ydoedd,—fod yn rhaid dadgymalu yr englyn neu adael i'r adyn farw yn ei boenau. "Dadgymalu yr englyn!" meddwn i,—“Ewch i Jerico i ganlyn y gweddill o'r greadigaeth; y mae yn haws gwneud cant o Huwycynod nag un englyn fel yna.” Yn gweled pwys fy ymresymiad, gadawyd i ddeddf natur gymeryd ei chwrs. Claddwyd ei weddillion yn ymyl gwal mynwent Llanfihangel-y-gwllaw, yr ochr chwith i'r eglwys, ac ar ei fedd dodwyd yr argraff hon, er rhybudd i eraill rhag caffael o honynt hwythau eu hanafu gan farddoniaeth beirianol.—

Bu farw wrth lyncu Gafr—gochel  
Er gwyched wyt ti rwan  
Peiriant Syr Meurig purlan,  
Wnaeth yr englyn aeth yn gam.

Y mae yn gysur meddwl fod Huw cyn, fel Dic y Coed-leoedd, heb ddim ond naw o gywion; yr anffawd fwyaf ydoedd, nad oedd yn damaid haws cael yr englyn o'i safn ar ol iddo farw nac o'r blaen; ond gan fod yr englyn yn anfarwol ac anlychwinadwy, i arbed teimlad perthynasau, goddefwyd iddo aros fel yr oedd hyd nes byddai Huw cyn druan wedi malurio. Wel, nid oedd digon o bwys mewn *episod* bach fel yna i atal y gwahoddedigion i fwynhau difyrwch y Gwyliau. Ar ddymuniad boneddiges ieuanc cafwyd un engrhaifft gyda'r Peiriant Englyn, a chan nad oedd cymaint o ddyddordeb yn hwn ag a ddisgwylid yn y Taclau Beirniadu, heliwyd y geiriau segur oedd hyd y bwrdd ar un o'r llawfyrddau, (*trays*). Cafwyd eu bod yn gynwysedig o'r gymysgedd ganlynol: O'i anian Eden hygaraf yn wel'd a'i daw y gwyneb deil yn rhosyn ei o flaguryn ol mebyn dyn flaen! Taffwyd hwy blith draphlith, fel tatws newydd mewn sospon, yn bob sut ond y sut y daethant allan o'r peiriant.—Tro ar yr olwyn, a dyma englyn allan fel pin mewn papur.

O! hygaraf flaguryn,—daw yn ol,  
Eden yn y Rhosyn,  
I wel'd gwyneb ei mebyn,  
Anian a'i deil o flaen dyn.

Mi wnawn lŵ pe bai yn weddus i wr mewn urddau wneud hyny, na welodd llygaid dyn erioed y fath effaith ar greaduriaid ag a gynyrchodd hwn ar y cwmni. Pe buasai ysbryd wedi ymrithio i'r merched yn ei gryns ni buasai y cyffro yn ddim ychwaneg; fe wridd Dic y Dine o glust bwy gilydd nes i'r fflam o'i foch roi ffril cap Cadws o'r Ddôl ar dân; fe welwodd Guto'r Glec nes trodd wŷn ei lygad i fynu, a ffeintiodd Malen y Plas i ffrwrdd fel diffodd canwyll; neidiodd Miss Lucy, y Bwlch, ar ei thraed a dechreuodd ddawnsio; aeth Myfanwy Ceiriog i wichian, a chwerthodd Miss Betsi, Ty'n y pwll dros y tŷ, tra yr oedd Sian Gryffydd yn euro y muriau a'i dyrnau moelion; ac aeth Sarah Emily Jones yn swp diymadferth ar y soffî; yr oeddwn i heb fy llwyr orchfygu, ac i aros i'r *paroxism* fyned trosodd, troais yn sly bach i Weithiau Ceiriog i edrych oedd yr englyn yno rhwng *inverted commas*, neu rywbeth i awgrymu awduriaeth estronol yr englyn.—Ond dim gair na haner gair, awgrym nag haner awgrym; y mae un o ddau beth yn eglur i bawb,



meddwn i, y mae Ceiriog wedi lladrata yr englyn oddiar y peiriant, neu y mae y peiriant wedi ei ladrata oddiar Ceiriog. Wedi i'r pwnc gael ei ddadlu yn *pro* a *con* am rai oriau, daethom i'r penderfyniadau a ganlyn yn unfrydol:—Yn 1af, nad oedd y peiriant wedi gweled “Oriau'r Hwyr;” yn 2il, pe buasai, nid oedd wedi dysgu darllen; yn 3ydd, pe buasai wedi ei weled ac wedi ei ddarllen, nad oedd ganddo un math o gymelliad i'w ladrata; yn 4ydd, fod yn rhaid gan hyny mai Ceiriog oedd wedi lladrata yr englyn oddiar y peiriant; gan hyny yr wyf yn teimlo fy hun dan rwymau i gyhoeddi fy hawl iddo fel meddiant anwadadwy, ac yr wyf yn benderfynol o'i dafu ar unwaith i'r *Court of Chancery*, os bydd rhyw gorachod yn datgan hawl ynddo. Yr oedd y boneddesau, modd bynag, yn awyddus iawn am weled y peiriant gwyntyllio mewn gwaith, ac amryw o honynt wedi dyfod a darnau o'u *favourite poets* gyda hwynt—darnau ag oedd wedi bod yn eu swyno am flynyddoedd. Teimlai pob un yn hyderus, y safai ei hoff ddernyn hi y prawf mwyaf gerwin y gellid byth ei roddi arno:—

Dowch gantorion union enwog,  
A'r baledwyr abl oediog  
I gyd ystyried hyn o stori,  
Sydd heb wad ar ganiad geny'.

Clywch, clywch, medd y dyrfa. Dyro dro araf bach ar yr olwyn, Ned, meddwn i wrth y llanc, gan roddi y llinellau yn y peiriant ar yr un pryd, a dyma fel y daeth allan:—

Dowch gantorion—————  
A'r baledwyr.—————  
I——ystyried——stori  
Sydd———ar ganiad geny'.

Ha! ha! ha! ebai rhai o'r lodesi, “tyllog iawn onide?” Ond pan welsant fod y foneddes a'i rhoddodd i'r prawf yn gwrido, ac fel y mynai rhai, yn wylo, galwyd am y darn nesaf. Felly daeth Neli y Fron ym mlaen, gan edrych braidd yn gellweirus ar y ferch ieuanc a'i blaenorodd, ac fel pe bai yn herio y peiriant i wneud y fath ddinystyr felly ar ei darn hi. Gyda dyweud ei fod yn dra thebyg i'r peiriant golchi oedd person y plwyf wedi

ei brynu yn Lerpwl, rhoddodd y papur i mewn gyda llaw ddigryn. Dyma fel yr aeth i mewn:—

O wir lawenydd cynydd cenwch  
Hoew frodyr mewn hyfrydwch,  
Pob perchen tafod ystod wastad  
Cydgenwch fawl arferawl fwiad.

Ac fel hyn y daeth allan:—

O wir lawenydd ——— cenwch  
————— mewn hyfrydwch,  
Pob perchen tafod ———  
Cydgenwch fawl. ———

Ar ymddangosiad hwn bu tipyn o ymddadlu; mynai Neli fod y dyferyn gwin a gafodd Ned cyn rhoddi gwynt i'r darn, wedi achosi iddo weithio y peiriant yn fwy creulon nag y dylasai. Dadleuai yn egniol oni bai hyny, y buasai y geiriau "*ystod wastad*" wedi aros i mewn. Yr oedd y cwmpeini mewn tymer led dda ar y pryd, a chaniatawyd o bosibl y buasai y geiriau yn aros i mewn, oni bai i Ned ysgythru cymaint wrth droi y peiriant. Wedi gweinyddu tipyn o gerydd i'r bachgen am ei amryfusedd, a'm gosod inau dan fath o ymrwymiad na chai ddyferyn ychwaneg nes gorphen y prawfion, galwyd ar Miss Louisa, o'r Wern, i ddwyn yn mlaen ei deryn hithau. Rhoddwyd pedair llinell i mewn, a daeth pump o eiriau allan.

Gan fod tynged led debyg wedi cyfarfod yr holl ddarnau, nid oedd gan yr un le i genfigenu wrth y llall, felly yr oedd pawb yn awyddus am weled yr *experiment* FAWR yn cael ei gwneud. Nid oedd hono yn ddim llai nag amgen na Rhiangerdd Myfanwy Fychan. Arferai Betsi, Ty'n y pwll, alw hon yn *love of a poem, a sweet little darling*, ac enwau anwesog eraill. Ond wedi gweled y lleill yn dyfod allan mor garpiog, nid oedd arni lai nag ofn y buasai rhyw ranau o honi yn troi allan yn weiniaid. Yr oedd yr awydd yn rhy fawr i oedi, ac wedi i Betsi hyfforddi Ned yn holl fanylion ei waith, gyda chymaint o bwyslais ag a arferai Hamlet hyfforddio ei chwareuwyr, rhoddwyd y Rhiangerdd i fewn yn gorfforol. Chware teg i Ned, fe drôdd y peiriant wrth nodau arafol yr Hen Ganfed. Yn awr am y *grand result*. Chwilio am y gerdd ar lawr y *Drawingroom*, yn mhlith plygion gwisg satyn Miss Betsi, tynu y peiriant oddiwrth ei gilydd, holi yn mhlith y cwmpeini a oedd neb wedi gweled dim o

honi? Tybed ei bod mor felus ag i'r peiriant ei bwyta? A roddwyd hi i fewn o gwbl? Pa le y gallai fod yn awr? oedd y cwestiynau oedd ar bob gwefus. O'r diwedd cefais hyd i'r "Nodiadau" a'r "Amlen" ar lawr, a dim ar y ddaear arall. Sut y mae hyn, meddwn! Ned yn gweled y pryder oeddwn ynddo, a ddywedodd o'r diwedd ei fod ef wedi gweled rhywbeth fel niwl yn myned trwy ffenestr yr ystafell. Wrth edrych tua'r terfyn-gylch, gwelwn beth tebyg i gwmwl o fŵg yn syrthio tros ddibyn y byd. Felly terfynodd "Myfanwy Fychan."  
BYWBOTHFARDD.

PUMED LLYTHYR.

Y PEIRIANT GALARNADOL.

SYR,—Yr uchod oedd y peiriant a darawodd fy ffansi i yn fwyaf neillduol. Ryw dipyn o bregethwr wyf fi, yn Llanymynydd, ac yr wyf wedi bod yma bellach yn dŷn ar ddeng mlynedd ar hugain. Pan oeddwn ieuanc cefais gyhoeddi amryw ddarnau barddonol mewn misolyn perthynol i'r enwad, yr hwn sydd yn awr ar restr y cyhoeddiadau rhagorol a fu. Llwyddais i enill dro neu ddau mewn Cyfarfodydd Cystadleuol, am gywyddau a galar-nadau. Y mae fy nghym'dogion, o ganlyniad, yn edrych arnaf fel tipyn o fardd lled lithrig. Pan fydd rhywun yn yr ardal hon wedi marw, y mae rhai o berthynasau yr ymadawedig braidd yn ddieithriad, yn siwr o ofyn i mi am gyfansoddi ychydig linellau coffadwriaethol, i ymddangos yn y newyddiadur, englyn ar ei fedd, neu benill ar gôf-gerdyn. Yr wyf wedi gwneyd hyny o gymwynas i laweroedd, os nad yn foddol im' fy hun, yn weddol foddhaol iddynt hwy. Ond claddwyd baban bychan chwech wythnos oed, yn eglwys y plwyf, tua dwy flynedd yn ol; dieithriaid ydoedd y rhieni, ac nis gallaf ddyweud i mi erioed ymddyddan âg un o honynt tan ar ol marw-olaeth y plentyn bychan a fynwesent mor anwyl. Un nos Sadwrn, pan oeddwn yn lled brysur, galwyd gyda fi gan dad y bychan dedwydd hwnw oedd wedi osgoi y byd helbulus presenol; y neges ydoedd, a wnawn i alarnad ar ei ol, i'w hanfon i'r "Amserau"? Dywedais inau fod yn

anhawdd iawn i mi addaw y noson hono, oblegid pethau eraill oedd o fy mlaen ag oedd yn rhaid eu cyflawni. Nid oedd ef yn hidio pa fesur a gymerwn, ond os gallwn y dôn "Trymder," byddai yn ddiolchgar tros ben os dewiswn y mydr galarus hwnw. Yr oedd arnaf ofn gofyn iddo am benill er enghraifft o'r dôn, rhag y buasai yn ystyried hyny fel awgrym o fy mod yn bwriadu gwneyd yr hyn a ofynai. Cawsom ymgom hir, ac yr oeddwn yn teimlo yn wir ofidus am nas gallwn fforddio awr neu ddwy i gyfansoddi ychydig linellau fel y dymunid arnaf. Aeth ef allan, a gadawodd finau wrth ben y llafur mawr oedd genyf ar y bwrdd. Dyna oedd y tro cyntaf erioed i mi wrthod cyfansoddi galarnad, er i mi benderfynu ddengwaith yn gyffelyb cyn hyny, ond bob amser yn tori fy mhenderfyniad pan ddeuai rhywun i ofyn i mi. I rai pobl mae nacau ac addaw yn hollol mor hawdd a'u gilydd, ac ni flinir eu meddyliau wedi hyny gan y naill atebiad a roddant yn fwy na'r llall; ond pan y mae tad neu fam dyner wedi claddu delw bychan o brydferthwech difrycheulyd, ac o anwyldeb byw, nid gwaith mor hawdd yw briwo eu teimladau yn mhellach trwy nacau, os bydd yn ngallu dyn rywfodd, hyd yn nod ar draul ei fywioliaeth, i liniaru eu teimladau drylliog, neu sychu ymaith ddeigryn oddiar amrant anhysbydd gofid. Y mae dyledswydd yn galw arnom o bob cwr; ond gan nad oes yn ngallu dyn wneud pob peth—bid y pethau hyny yn dda, yn rhagorol, neu pa mor rinweddol bynag y byddont—rhaid i ddyn ymfoddloni ar y mesur o dalent ac amser sydd yn ei feddiant.

Yn mhen pum niwrnod neu chwech, gofynodd boneddiges i mi am gymwynas gyffelyb ar ol ei gŵr. *Boneddiges* yn gofyn ffafir—gwir brofedigaeth ydoedd hon. Gorfu arnaf, yn y fan, adael y penderfyniad o'r neilldu, a phlygu dan rym ei hedrychiad prudd, a'i geiriau dwysion. Ond er gwneud addewid ar y pryd, ac er i'r weddw barchus alw gyda fi am yr alareb, ac er i mi adnewyddu fy addewidion amryw weithiau, ac addaw gyru iddi y darn pan y gorphenid ef, ni chefais funud o hamdden hyd y dydd heddyw i osod pin ar bapur. Ond prynais yn ddiweddar, trwy gyfaill imi o Lanfihangel, *Beiriant Galarnadol* anferth, ac anfonais am un o weithwyr Syr Meurig Grynswth i ddyfod yma am ddiwrnod neu ddau i'm hyfforddi yn

brïodol pa fodd i'w ddefnyddio. Dygwyd ef i Gonwy ar un o geir y ffordd haiarn. Casglodd llawer o bobl ynghyd i edrych arno pan safai yn yr orsaf; holai pawb beth ydoedd, ond nid oedd neb yn alluog i ateb. Barnai llawer mai *bathing van* wedi ei phaentio yn ddu at wasanaeth ymwelwyr yn yr haf oedd hi. Trwy fod y geiriau "*London and North Western*" ar y tryc oedd dani, credai amryw mai o Lundain yr oedd yn dyfod, ac mai i *North Western* yr oedd hi yn myn'd. Yn ystod yr amser yr arosodd yn ngorsaf Conwy, cafwyd llawer o ddyfaliadau rhyfedd yn ei chylch; ond yn fwyaf cyffredin yn mysg y Saeson a boneddigion y dref, bernid mai *hearse* newydd oedd, ar ei ffordd i Eglwys Gadeiriol Bangor. Ond y peiriant siariad Cymraeg fuasem yn meddwl am yru i'r lle hwnw. Modd bynag deuwyd a'r Peiriant Galarnadol ar bedrolfen i Lanymynydd, yn cael ei lusgo gan chwech o geffylau, a dodwyd ef yn ei le, tan hofail bwrpasol yn yr ardd o flaen fy nrws. Ar ol llawer o lafur a helynt a damweiniau—tori trosolion, a dinystrïodwy goeden afalau—cawsom orphwys oddiwrth drybini y dydd, gyda'r boddhad o feddwl y caem godi yn fore dranoeth i wneud y galarnadau oeddym wedi addaw—llawer o honynt er's blynyddoedd yn disgwyl awen ac hamdden i'w cyflawni.

Tranoeth yn fore, gyda'r dydd, curodd Joseph Smithson, gweithiwr gyda Syr Meurig, wrth ddrws y cefn. Nid oedd un o'r morwynion wedi codi, ond ni buont yn hir cyn y gollyngasant ef i'r gegin. Curwyd wrth ddôr fy ystafell inau, a deuais i lawr mor fuan ag oedd modd. Yr oedd genym awr o amser cyn y buasai y boreufwyd ar y bwrdd; felly cychwynodd Joseph a minau at ein gwaith. Dyn bychan, byr, a golwg llym braidd ydyw Joseph. Wele ni yn sefyll un bob ochr i'r peiriant. "Yr wyf yn ofni, Syr, fod yr olwyn fawr yma braidd wedi ei chamu ar y ffordd; on gadewch i ni fwrw golwg arni hi a'r deintyrion cyn y rhoir hwy mewn gweithrediad, rhag ofn y bydd rhyw ddamwain yn cymeryd lle." Ar ol arolygu yr holl ranau, i mewn ac allan, a thynhau yr ysgriwiau, gyda llygad craff. Wel, ebai ef. "Y mae pobpeth yn ei le rwan, o ran dim fedraf fi weled. A oes genych destyn yn barod?" Dywedais inau y fod, sef galarnad ar ol William Doby, yr hwn a gyfarfyddodd & marwolaeth ddisymwth, trwy syrthio i bwl glo. Yna

rhoddais y testyn yn y boc—tebyg i'r boc y rhoir gwellt ynddo yn mheiriant gwellt y ffermwyr. Cydiodd Joseph yn handleu yr olwyn a throdd am tua dau funud, ac yr oedd y cyfansoddiad allan: Pryddest o bedwar can' llinell ydoedd, ac ar y cyfan yn amlygu cryn ddwyyster a galar. Dodwn y dyfyniad canlynol o un ran o honi:—

\* \* \* \*

Fel hyn myfyriai'r hoff Dobyn wrth fyned,  
At ei orchwyllion yn nglobwll Cil Dyfed;  
Cyrhaeddodd y lan—a neidiodd yn ddiaball  
I gawell diogel, fel'roedd ef yn deall;  
Ond och! och! och! mae'm hanadl yn colli,  
Fy ngwallt ar fy nghoryn yn syth sydd yn codi,  
Ac iasau oer hynod sy'n ymlid eu gilydd  
Trwy f'nghyfansoddiad, tra'r ydwyf yn syllydd.  
Y bach a ollyngodd ei afael yn sydyn,  
Y cawell a ochrodd, a syrthiodd Wil Dobyn!  
Och! och! och!

Nid oedd amser i ddarllen yr holl alareb, ond fe'i plygais i fynu ar ol bwrw bras-olwg trosti, a dodais hi mewn amlen, yn barod i'r *post*. Cefais berffaith foddhad yn yr ymgais gyntaf o eiddo'r peiriant, fod ei allu galarnadol yn mhell uwchlaw yr eiddof fi, fel y gwel y darllenydd oddiwrth y deryn a nodais. Tra yr oeddwn yn gwneud y gorchwyl hwn, yr oedd Joseph yn gosod ychwaneg o bwysau ar y lle priodol, er mwyn rhoi mwy o "och" yn y deryn dilynol. Gwelais yn y fan mai gwaith hawdd i'w ryfeddu oedd gosod *ochau*, a deallais hefyd fod yr *och* yn bur hawdd i'w throï yn y peiriant. Y testyn nesaf ydoedd beddargraff ar ddau o'r pentrefwyr, o'r enw Benjamin Hughes, Siopwr, a Moses Jones, Tafarnwr. Fe droais i yr olwyn fy hun, i weled pa mor galed oedd y gorchwyl, a daeth allan y penill dwys canlynol:

"Yn y llawr mae Benjamin Hughes,  
Er pob doctor, nid oedd dim *use*  
Cymerwyd pills a *doses*;  
Ac efo-gefo Moses Jones,  
Sydd yn aros ddydd a nos;—  
Dyn tal oedd y cyntaf, ond un bach oedd Moses."

Yr hyn a'm synodd fwyaf wrth ganfod yr uchod, ydoedd fod Joseph yn dyweyd ei fod yn gosod ychwaneg o "och," a dim un *och* wedi dyfod allan yn y penill! Yr oedd camgymeriad pwysig wedi digwydd oblegid ei ddiotalwch ef, neu yr oedd ryw ddiffyg yn y peiriant; ond esboniwyd y dyryswch yn ddioced, trwy i Joseph ddangos i mi fod

yn ofynol pan bo *och* yn cael ei defnyddio, i'r dyn fo'n troi yr olwyn, osod cleddr ei law ar ei fynwes ac edrych i fynu ac i lawr efo edyn yr olwyn pan yn troi. Cymerodd Joseph afael yn yr olwyn i ddangos, a dodais inau feddagraff y diweddar Mr. Simon Evans yn y boes. Wele fe, fel y daeth allan :

Och, bu farw, och, bu farw  
Simon Evans Pentre Garw ;  
Och, och, ddaagrau och !  
Er fod cwrw 'n boddi trwbwl,  
Och, bu farw wedi 'r cwbl !  
Och, och, och !

Gwnaeth Joseph a minau un-ar-bymtheg o wahanol alarnadau, ar wahanol hydau, i wahanol ymadawedigion ; ac ofer fyddai i mi feddwl yn bresenol am fanylu yn eu cych. Os na chewch ddyfyniad arall cyn terfynu, gwn y siomir chwi yn ddirfawr ;—o'r goreu ; dyma un eto, sef deryn o'r unfed alarnad ar bymtheg. Y testyn yw y ddiweddar Miss Emma Evans, neu fel y cyfenwid hi yn fwyaf cyffredin yn Sir Forganwg, yr "Hen Emma'r Ysgubau," oblegid gwneud a gwerthu yr offerynau hyn ydoedd ei gorchwyl er pan oedd yn ugain oed. Cafodd lawer o fasnach a diod gadarn, yn mhob cwr o'r Deheubarth :—

O ! awen, a dagrau, yn awr cydgychwynwch  
I wylw 'n llifeiriol, ac na fyddwch lon ;  
Ow ! ow ! 'r hoff Miss Evans, ai yna yr hunwch ?  
Fy ngwlad, O fy ngwlad, dy benaf brydferthwch !  
Gwyddelod a Saeon, O deuwch ac wylwch  
Ar fedd boneddiges mor hawddgar a hon !

Yr oedd amryw o'r cym'dogion wedi ymgasglu o amgylch y peiriant erbyn hyn ; ond gwthiwyd trwy eu canol gan Jemima, y llances sydd genym fel *under-cook*, a sibrydd yn fy nghlust, fod y boreufwyd ar y bwrdd, a bod y feistres wedi codi. Codais inau fy mys ar Joseph, ac aethym i'r tŷ wedi gwneud mwy o waith mewn un awr nag a allasai y galarfardd mwyaf doniol gyflawni mewn blwyddyn gron.

Y mae genyf air â chwi y bobl dda yna sydd mor enwog am eu lledneisrwydd, a'u chwaeth naturiol, a choethder meddyliol, sydd yn cynyg gwobrwyon o arian ac aur—o fedalau gloewon, a llawryfon disglaer, i'r *galarwr* goreu ar ol eich cyfeillion. "O !" farwnadwyr, "O !" feirdd naturiol ! Onid yw arian yn destyn toddedig ? O mor

ddwys yw'r dagrau, ac mor drwm y mae'r aur yn pwysu ar deimladau drylliog! Peiriant ardderehog ydyw fy un i, ond chwi yw'r offerynau tecaf. Cyfaddefaf fod fy mheiriant i yn hawdd i'w droi, ond yr ydych chwi yn llawer haws. Mae fy mheiriant i yn nodedig o râd, ond yr wyf yn gorfod cydnabod fod eich gwasanaeth galarnadol chwi yn anrhaethol ratach.

Enw o fardd sydd genyf fi, ond pe bawn yn fab gwirioneddol i'r awen wir, fuaswn i fawr yn prynu y peiriant hwn. Ond fe rown i gyngor i bob person a phregethwr sydd yn derbyn archebion dyddiol am englynion a phenillion galar, am iddynt wneud y defnydd goreu o'u hamser gyda myfyrio, llefaru, ac ysgrifenu pethau da; ac am iddynt bwrcasu peiriant galarnadol at y rhan arall o'u gwaith, a dysgu eu gwragedd, eu plant, neu eu gweision, i droi a gweithio yn briodol y peiriant defnyddiol a rhyfeddol hwn.

Yr eiddoch, heb arwyddair,

OND NID ADERYN CORFF.

O.Y. Yr wyf yn casâu yr olwg ar ol-ysgrifau, ond hyn oeddwn yn myned i ddyweyd. Ar ol gorphen ein tîst a'n coffi, dangosodd Joseph i mi nad oes dim gwahaniaeth hanfodol rhwng fy mheiriant i a'r peirianau a ddefnyddir gymaint yn y Deheubarth, i foli a chlodfori pobl fawr, stiwardiaid gwaith, neu glarcod twrne. Dywedai hefyd y gellir trwy newid ychydig ar ranau o'r peiriant, wneud iddo gyfansoddi Càn Briodasol. Yr oedd James Jones ac Anne Watson, wedi priodi yn Llanymynydd ychydig ddyddiau yn ol, a dodasom hwy yn destyn i'r peiriant er prawf o haeriad Joseph Smithson, ac ni'n siomwyd. Wele yr hyn a gynyrchwyd :—

Llawer iawn o boen ga'dd Nansi,  
Nes ca'dd wr yn ol ei ffansi;  
Llawer dybiodd James y Marian,  
Am gael gwraig yn graig o arian.  
Os yw Nansi braidd yn farus,  
Nid yw'r iau yn anghydnarus;  
Ac os daw ef byth i d'lodi,  
Fe gaiff ddiagon o'i dafodi.



## CANIADAU SYR MEURIG.

## Y Tren.—The Train.

Y miwsig, yn nghyd a chyfleithiad i'r Saesneg, yn yr ail rifyn o'r  
*Gene of Welsh Melody.*"

'ROL lapio'm traed mewn hugan llwyd,  
Fel pawb oedd yn y trên ;  
Ac ysgwyd llaw ag Wmffra Llwyd,  
A chanu 'n iach i Jane,—  
Chwibanodd y peiriant yn gryf ac yn grôch,  
Fel gwichiad soniarus pum ugain o fôch ;  
" *All right,*" meddai rhywun, a chanwyd y glôch.  
Hergwd a phwff,  
Ac mewn haner chwiff  
Ysgythiad a chwff—  
Piff, piff, piff-a-piff-piff,  
Hwlti heltar skiltar skeltar,  
A ffwrdd a ni  
Fel rhai ar badellau,  
Neu rês o degellau,—  
Linc lonc wrth gynffon ci.  
O danom mae teiau,  
A llwyn o simneuau  
Yn agor eu safnau'n syn ;  
Ond wele ni'n sydyn,  
Heb neb yn anhydyn,  
Mewn haner mynodyn  
Tros ddyffryn a bryn ;  
Trwy y twnel—tros y pynt  
Fel y gwynt :  
Bwrw drwyddi—'mlaen a hi  
Yn gynt, gynt, gynt.  
Pellach, pellach  
Cipir ni  
Strim stram strellach ;  
Ha! Ha! Hi!  
Dacw efail, dacw siop,  
Dyma Gymru,—stop, stop, stop!  
[*Ogŷleithiad i'r Saesneg yn "Oriau'r Bore."*]

## Mae Robyn yn Flin.

[SEF yr cchr arall i'r darlun nodedig "Robyn yn Swil," gan Talhaiarn. Yr ydym, ysywaeth, wedi digwydd gweled tu cefn y pictiwr, ac yn teimlo yn awyddus am osod allan y ddau du i'r ddalen.]

Y miwsig gan Mr. J. D. JONES, Rhuthyn.

Mae Robyn fy mhriod ar ol cael crys glân,  
Yn edrych gan futred, gan ddued a'r frân;  
Mae'n eistedd mewn cadair a gefais gan nain,  
A'i wyneb fel ffidil, yn hir ac yn fain:  
O! mae Robyn yn flin,  
Mae Robyn yn flin,—  
Mae'n ofid i'm calon fod Robyn mor flin.

Pan rwbial y ffendar yn loew a glân,  
Daw yntau i smocio a'i drwyn yn y tân;  
Os d'wedaf yn dyner,—Paid, Robyn bach, paid,—  
Fe dania, fe fyga, fe boera'n ddibaid:  
O! mae Robyn, &c.

Ar ol bod am oriau ar gareg y drws,  
Yn sowrio y lloriau yn lân ac yn dlws,  
A'i draed yn un rwbel, fy Robyn ddaw at  
Ei fwyd yn y pobtŷ, cyn gweled y mat:  
O! mae Robyn, &c.

Os bydd arnaf eisiau ystenaidd o ddwr,  
Rhaid rhedeg i'r ffynon—wiw gofyn i'r gŵr,  
A phan fydd fy 'sgidiau yn myned yn wael,  
Mae'n danod pob ceiniog am bobpeth wy'n gael:  
O! mae Robyn, &c.

Pan fydd arnom eisiau rhyw lwythyn o lô,  
Bydd Robyn am wythnos fel adyn o'i go';  
Ac wrth iddo gyfrif pa faint a barha'dd  
Y llwythyn blaenorol, bydd bron a fy lladd:  
O! mae Robyn, &c.

Er iddo gael brecwest o goffi a thôst,  
A chigau i ginio, berwedig a rhôst;  
Ac er imi ferwi dau ŵy efo'i dê,  
Gwneyd gwyneb, a gwefus, a thrwyn, y bydd e':  
O! mae Robyn yn flin,  
Mae Robyn yn flin,—  
Mae'n ofid i'm calon fod Robyn mor flin.

## Dafydd Llwyd y Mynydd Du.

'Roedd Dafydd Llwyd, y Mynydd Du,  
Yn glamp o ddyn esgyrniog cry',  
A thrwy ei oes hardd aelod fu  
Yn Eglwys yr hen lanciau.  
Rhaid fod ei ben yn fwy na llawn,  
Oherwydd yn ei logell cawn  
Fod Dafydd Llwyd yn cadw 'i ddawn,  
A thipyn yn y banciau.

Wrth gweirio 'i wely—cwcio 'i fwyd,  
Neu drwsio llewys ei glos llwyd,  
Un doniol fyth oedd Dafydd Llwyd—  
Pob parch i'r hen bechadur.  
'Roedd ganddo ffordd wrth olchi 'i grys  
O arbed sebon efo chwys;  
'Roedd crefft neillduol yn mhob bys  
Ar law yr hen greadur.

Colledion sydd yn fynych iawn.—  
Pan oedd ei fol yn berffaith lawn,  
Bu farw Dafydd un prydnhawn,  
Heb wneud ei 'wyllus, druan.  
Ond 'wyllus wnaed yn union deg,  
A thynwyd hono trwy ei geg,—  
A'r eiddo wnaed i Wil Frondeg,  
A'r tyst oedd Dei Ddyllhuan.

“O'i enau daeth yr 'wyllys hon—  
Diogel wyf!” medd Wil yn llon.  
Ca'dd Dei, medd rhai, gàn' gini gron  
Am beidio d'eud hyd farw.  
Gwnaed arch o ddél gan Dwmi'r Coed,  
A Dafydd Llwyd yn hono roed  
I ddiogi am tro cynta' 'rioed—  
Ac 'roedd o'n ddiog arw.

Cyn lapio 'r corff mewn amdo wen,  
Fe alwyd rheithfarn uwch ei ben.  
'Ro'wn i yn un o'r *jury men*,  
Fu arno 'n llygadrythu.  
Ar ol pendroni awr neu ddwy,  
Daeth pawb i'r farn mai eisio mwy

O aur ac arian oedd y clwy'  
Fu 'n gwneud i Dafydd sythu.

Nid tipyn bach o fri fu  
Y'ngylch arwerthu 'r Mynydd Du ;  
'Roedd yno anifeiliaid lu,  
A gwenith er's blynyddoedd.  
'Roedd "Jip," y gaseg braidd mewn oed,—  
Gan henafiaethwyr hanes roed  
Ei bod hi yn y byd erioed,  
Fel un o'n hen fynyddoedd.

I dd'eud i chwi sut ddyn oedd o,  
Am Ddafydd Llwyd mae genyf go'  
Na bu ei iachach yn y fro—  
Fu arno 'rfoed lynoryn.  
Os oes ar chwedlau unrhyw goel,  
Mi glywais fod ei ben yn foel,  
Oherwydd cym'ryd castor oil,  
Ca'dd ryddni 'n ngwallt ei goryn.

Chwi wyddoch am y Mynydd du,—  
Mae ceubren mawr tu cefn i'r tŷ,  
Ac ysbryd Dafydd yno sy'  
Ag 'wyllys yn ei enau.  
Rh'odd Dei i'r ceubren lawer rheg,  
A chanwaith tyngodd Wil Frondeg  
Y saethai 'r ysbryd yn ei gég  
Nes tori tair o'i senau.

### Can y Gynen.

ADWAENOCH ehwi Meurig Gryn-swth ?  
Adwaenoch yn enw dyn, dyn :  
Mae 'n fachgen dedwyddaf dan haul  
Os ceiff ef ei ffordd fach ei hun.  
Os tynwch eich llaw esô 'i raen,  
Fel cath bydd yn canu 'n ei grwth :  
Ond os rhowch eich troed ar ei droed  
Daw 'r andros at Meurig Gryn-swth.

Mae Meurig yn debyg i gi,  
Heblaw bod yn debyg i gath ;  
Mae 'n ffyddlawn wrth ochor ei ffrynd.  
Ond pan welo elyn fe frath.

Ohwi wyddoch am GELERT y ci,  
 Ddrwgdybiwyd heb ddigon o sail,—  
 Mae Meurig yn cadw ci bach,  
 A'i enw yw GELERT YB ALL.

Mae Meurig yn debyg i *mi*,  
 A dyna gydmariaeth led dlôs,  
 Mae 'n credu fod canu cyn dydd,  
 Yn arwydd o ffræo cyn nôs.  
 Bwy 'n credu 'n ddiysgog fod ffræ,  
 Yn iechyd i galon pob un ;  
 Ni ro'wn i'r un swllt am gael gwraig,  
 Os na fedrai ffræo fel *dym*.

Mae cynen yn debyg i *bils*  
 I'w cym'ryd mewn gwîn yn y nôs,—  
 A'r drwg efo physig go gryf  
 Yw cym'ryd braidd ormod o ddôs.  
 Gyfeillion, rho'wch hwn yn eich llaw,  
 Dyledswydd arbenig yn awr  
 Yw yfed o'r dwr neu o'r mêdd,  
 Nes golchi'r hen physig i lawr.

#### OLYSGRIF.

MAE 'B awel a'r coed yn parhau  
 I sisial i'w gilydd yn fwyn,  
 Er hyny, mae 'r gwynt ambell waith,  
 Yn rhuo mewn *llid* yn y llwyn.  
 Mae 'r ceinfor yn caru 'r lân bell,  
 Fel cara gŵr priod ei wraig :  
 Er hyny, mewn ewyn a storm,  
 Daw 'n fynych yn erbyn y graig!

Yn mhoethder hyfrydwch yr haf  
 Mae 'r daran fel cynen yn d'od ;  
 Ni theimlem ni wrês yr hin boeth  
 Pe na bai *clairwch* yn bod.  
 Y dydd sydd yn dangos y nôs,  
 A'r nôs sydd yn dangos y dydd,—  
 Yw owmni cyfeillgar mor ffol  
 A diagwyl y *llon* heb y *prudd* !

## Pastai Cisteddod Fawr Llangollen.

Yr oedd fy nhad yn llipryn main,  
 A nain fy nain yn hogen ;  
 Yr oeddwn inau bron yn ddyn,  
 Yu myn'd ar un-ar-hugain,  
 Yn *eighteen hundred and fifty* wyth,  
 Yn 'Steddod Fawr Llangollen.

Yr oedd y babell, meddynt hwy,  
 A godwyd yn Llangollen,  
 Wedi 'i thoi yn benigamp,  
 A chlamp o wrthban gwlanen—  
 Un pen iddo yn y Cefn,  
 A'r llall yn Nghlochdy Corwen.

Nis gwyr holl ddysgedigion byd  
 Mo hyd y canol-bolyn ;  
 Ond 'roedd fel ysgol Jacob gynt,  
 Pan gafodd ryfedd gynt-hun :  
 Am fod iloerigion hyd y pawl  
 Yn disgyn ac yn esgyn,  
 (Na thybied arglwyddi Syr Meurig a Byw,  
 Fod yma gyfeiriad o un rhyw.)

Pan oedd pob perchen siop,  
 Yn gwneuthur pop, a hwylio—  
 Pan oedd tafarnwyr mawr y Llan  
 Oll wrthi 'n darllaw *stingo*,  
 I dynu trwyth un llwyth o frag,  
 Aeth Dyfrdwy 'n wâg, *by jingo*.

'Roedd yno orsedd wedi 'i gwneud,  
 Yn uwch na Chadair Fronwen,  
 I ddim ar ddaear, am wn i,  
 Heblaw i fod yn domen  
 I urddo 'r beirdd a graddio 'r baw  
 A ddeuai i Langollen.

O gydymdeimlad at y beirdd  
 A gawsant siomedigaeth,  
 Ac o lawenydd at y lleill  
 A gawsant fuddugoliaeth,

Gwnaed pastai o anferthol faint  
I'r saint a'r holl frawdoliaeth.

Aeth deunaw cant o wyau ieir,  
A phedair twn o dripyr—  
(Ac yr oedd hyny 'n dipyn)  
Aeth mil a chwech o wyau chwid—  
Rhyw lawer byd o fenyn,  
A phedair sach ar ddeg o flawd,  
I ddim ond gwneud y crystyn.

'Does neb yn gwybod pa sawl buwch  
O'r herwydd ga'dd ei darnio—  
'Does neb yn gwybod rhif yr ŵyn  
A'r geifr a ga'dd eu blingo—  
Na pha sawl ci, na pha sawl gast,  
Oedd yn y bastai hono.

Ond anghofiasom dd'weud o'r bron,  
Fod mil o benwaig cochion,  
Yn berwi yn y bastai hon,  
A deugain llwyth o gloron ;  
A gwynt y rhai'n gynhyrfodd Pat  
Am 'Steddfod yn y 'Werddor.

Yr oedd y bastai meddyn' nhw,  
A *nhw* sy'n hollwybodol,  
Yn haner milltir ar ei thraws,  
A'i thrwch yn oraruthrol,—  
Ac ni's gallesid gwel'd ei thop,  
Heb delisgop seryddol.

Daeth dyn o Ffrainc i ddringo 'i phen,  
Ac efo gant o bobol ;  
A dringo buont bedwar mis,  
O ris i ris Alpyddol,—  
Ac yna hyrddiwyd oll i lawr  
Gan ddarn o eira oesol.

Am nad oedd lle i grasu hon,  
Fe 'i berwyd yn llyn Tegid,  
Ar ol i Vulcan daro *match*  
Yn nghwt yr Aran fflamlyd :  
Os aeth y bastai yn rhy wleb,  
Ni chlywais neb yn d'wedyd.

Ond berwi, berwi, berwi bu,  
 Am bedwar dydd ar hugain,  
 Nes oedd y dwr yn rhuo 'n groch,  
 A'r tir mewn ofn yn ochain,—  
 A chodai 'r ager llaith o'r llyn  
 Yn darth tros ynys Brydain.

Ond wrth ei berwi hi mor hir  
 Mi chwyddodd filltir gyfan,  
 Nes aeth mor dŷn yn mol y llyn  
 Na chafwyd mo'ni allan,—  
 A chlywais nain fy nhaid yn d'weud,  
 Mai yno mae hi 'rwan.

### H Galanten Hll.

'Bwy 'n diolch am eich darlun,  
 Y mae e 'n ddarlun da ;  
 'Rwyf wedi tori 'm hesgyrn  
 Efo Ha! Ha! Ha!  
 Pwy wnaeth eich darlun, Catrin,—  
 Darlun mor dda?  
 Mae 'n werth y byd o chwerthin,  
 O Ha! Ha! Ha!

Yr wyf yn fachgen gwirion,  
 Heblaw yn fachgen da,  
 Oherwydd tori 'm calon  
 Efo Ha! Ha! Ha!  
 Ni thoraf byth fy nghalon  
 O eisiau 'ch llaw bach wen,  
 Ond gallaf dori 'm calon  
 Wrth chwerthin am eich pen.

### Evan Benwan.

[*Rhan I.*]

ARTH Evan Benwan, Blaen-y-Cwm,  
 A Moses Joseph Parry,  
 A Bili Jones, a Jacko Prys,  
 I'r ffair i wel'd stalwyni ;  
 'Boedd cyflog blwyddyn gan yr oll,  
 A bil y teiliwr druan,



Ond daeth pob un yn ol o'r ffair,  
A'i bwrs gwrthwyneb allan.

## CYDGAN.

Os oes dymuniad mawr ar rai,  
Am gario llai o arian,  
Boed iddo fyn'd i ffair Mis Mai  
Yn nghwmni Evan Benwan.

Fe welsant yno lawer iawn  
O ryfedd ryfeddodau ;  
Sef merch yn chwarae tymbarin,  
A dawnsio ar strydfachau,  
A mwnci del, mewn gwasgod goch,  
A dyn yn chwarae organ,  
A ffidler dall wrth lyfyr nôts  
Yn chwarae " Siencyn Morgan."

'Roedd yno Sais o'r Ynys Werdd,  
Yn cadw arddangosfa,—  
Yn dangos cawr oedd wedi ' ddal  
Yn nghoedydd Patagonia ;  
Ac er mai porthmon boliog, mawr  
O ymyl Rhos-y-Tryfan,  
Mewn croen llewpartes oedd y cawr,  
Boddhawyd Evan Benwan.

'Roedd doctor Lefi 'Zeciel Brown,  
O Lundain wedi dyfod ;  
A chodi yno stondin fawr  
I ddangos y llyngyrod,  
A'r llyffaint du, a'r nadrodd coch,  
Oedd wedi dynu allan  
O ymysgaroedd pobol sâl,  
'R un fath ag Evan Benwan.

'Roedd doctor Lefi wedi rhoi  
Ei frethyn gwyrdd godidog,  
I hulio 'r bwrdd oedd dan y rhes  
Boteli amryliwiog ;  
Ac yna codai ar ei draed,  
Cyn brolio ei gyfferi,  
I sicrhau i'r dyrfa fawr,  
Mai fe oedd Doctor Lefi.

'Rol rhwbio 'i law, a sychu 'i safn,  
 Pesychu 'n sych a phoeri,  
 A thynu 'r cadach gwyn i lawr  
 I guddio cornel "*Dici*,"—  
 "'Bwyf wedi 'm anfon," ebai fe,  
 "Tros toctor ei Mhowrhydi,  
 I roddi eli, pils, a dail,  
 I pobol tlodion Cymri.

Fe'm ganwyd i yn Paris, Ffrainc,  
 'Roedd nhad yn Marshall yno ;  
 A fe oedd Admiral y Fleets,  
 Yn brwydr Navarino.  
 'Roedd ef yn fab i Duc Orleans,  
 A'i blas yn Chateau Mordant,  
 A merch i modrib Tallyrand  
 Oedd mam eich *humble servant*.

'Rol bod yn ysgol Notre Dame  
 Fe'm gyrwyd i i'r coleg,  
 Ac yn y coleg gorfim bod  
 Nes ow'n yn bimp ar bymtheg ;  
 'Roedd Lladin, Saes'neg a Cymraeg,  
 Americaeg, a Ffrengig,  
 Yn hyddisg imi cyn eriôd  
 Astudio metaphysig.

Myfyrio b'im am deugain blwydd,  
 Glefydau hypogastrics,  
 Cholericas, colics, cronics cas,  
 Pulmonics, ac hysterics ;  
 Emmetics hefyd wyf yn ddallt,  
 A dyma bils gwerth dwy-bunt,—  
 Iachant yr oll, 'dwy' gofyn dim  
 Ond ceiniog y bocs am danynt.

Lunatics, caustics, classics, a  
 Y ffrantics, a'r splenetics ;  
 Mewn cant o icsiau, Gymri da,  
 'Bwyf fi uwchlaw y critics ;  
 Ond waeth heb enwi ics, ac ics,  
 Dyledswydd pawb rhag o'wilydd,  
 Yw prynu bocs a myn'd i ffrwdd,  
 Er mwyn rhoi lle i'ch gilydd.

'Rwy'n rhoi pob boc yn rhad am dim,  
 Tros doctor ei Mhowrhydi;  
 Mae'r pres a rowch, bob dimeu'n myn'd  
 I was wyf yn cyflogi—  
 Ar hyn daeth ffrynt y crys yn rhydd—  
 Medd yntau, O fy mrenin!  
 O Richard y Third, yr wythnos hon  
 'Rwyf wedi tori'th llyn."

[*Rhan II. yn "Oriau'r Bore'."*]

## H Rheifflogau.

Cân yw hon a wnaed mewn fit, pan oedd y Colera Seisonig yn enoi ymysgaroedd glythion John Benbwl, a'r holl genedl fawr Anglo-Sacsonaidd yn gwelwi gan ofn y Ffrancod.

DEFFROWCH! Brydeiniaid dewr,  
 Peidiwch ymddiried i'r môr;  
 Peidiwch rhoi ffydd i Ffrainc,  
 Na gwawd i'r rheifflogor.  
 Mae'r byd wrth droi a throï  
 Yn troi'r Napoleon hwn:  
 Brydeiniaid! dysgwch roi  
 Eich bysedd dan y gwn.

Deffrowch, Brydeiniaid dewr,  
 Casglwch, ysgwyddwch ynghyd:  
 Mae Prydain mewn heddwch yn awr—  
 Y nefoedd a w'yr am ba hyd!  
 Y byd wrth droi a throï  
 Eill droi o'r heddwch hwn:  
 Brydeiniaid! dysgwch roi  
 Eich bysedd wrth y gwn.

Deffrowch, Brydeiniaid dewr,  
 "Lanciau'r Eryri" draw:  
 Mae cyfaill yn gweled craith  
 Trafalgar ar ei law.  
 Mae beddau Waterlō  
 Yn siarad â'r cyfaill hwn:  
 Brydeiniaid! dysgwch roi  
 Eich ysgwydd wrth y gwn.

## Boneddwr Mawr o'r Bala.

Y miwsig wedi ei addasu gan OWAIN ALAW.

BONEDDWR mawr o'r Bala,  
 Ryw ddiwrnod aeth i hela,  
 Ar gaseg deneu ddu ;  
 Carlamodd ar ei gaseg,  
 O naw o'r gloch tan ddeuddeg,  
 Heb unwaith godi pry !  
 Ha ! ha ! &c.,  
 Heb unwaith godi pry.

O'r diwedd cododd lwynog,  
 Yn ymyl tŷ cymydog ;  
 A'r corn a roddodd floedd—  
 Yr holl fytheid redasant,  
 A'r llwynog coch ddaliasant,  
 Ond ci rhyw ffarmwr oedd !  
 Ha ! ha ! &c.  
 Ond ci rhyw ffarmwr oedd.

Wrth fyn'd yn ol o hela,  
 Daeth y boneddwr tila  
 I groesi hen bont bren :  
 Ond chana' i ddim chwaneg  
 Fe syrthiodd efo' i gaseg,  
 I'r afon, tros ei ben !  
 Ha ! ha ! &c.,  
 I'r afon, tros ei ben.

Ond, os rhaid penill eto :  
 Hen wraig a redodd ato,  
 A chredai 'n ddigon siwr,  
 Gan nad oedd lwc ar hela,  
 Ei fod ef am bysgota  
 Y pysgod yn y dwr ;  
 Ha ! ha ! &c.,  
 Y pysgod yn y dwr.

## Priodas Meddyg.

[Sef David Wilson Morris, Ysw., Trysorydd Eisteddfod Cynr y Bwch.]

I MORRIS a'i gydmares wen—y rho'f  
 Naw Hwrê, yn llawen ;  
 Ond byth, byth, ni ddaw i ben  
 Naw Hwrê yn yr awen.

Oes o aur i'n Trysorydd,  
 A chleifion ddigon i'w ddydd :  
 Iâ, mynwn am enyd,  
 Fyn'd yn glaf i'w wneyd yn glyd.

## Gair tros y Delyn.

Mesur,—“*Nô Galan.*”

GLYWSOCH chwi am grefydd Sionto,  
 Llithau, ffydd, a gair ei greddo ?  
 Do 'n ddiarnheu, os wyt Gymro,  
 Clywaist son am grefydd Sionto.

Gwnaeth ei ddeddf mewn dau orchymyn,  
 Byr, cynwysfawr, fel y canlyn :—  
 Edrych ar y gwin fel gwenwyn,  
 Ac na ddos i swm y delyn.

Os rhoest glust i'r grefydd yna  
 Yn mysg Phariseaid Gwalia,—  
 Gostwng hefyd glust i wrando  
 Hanes breuddwyd gafodd Sionto.

Tybiai ei fod yn “drwm ei galon,”  
 Ac fod dau o hen feddygon  
 Wedi 'i ladd ef yn ei nychdod,  
 Wrth roi gwin ar flaen ei dafod.

Tybiai wed'yn fod adenydd  
 Yn ei godi i'r wybrenydd,—  
 Ar ol hofran yno'n hyfryd,  
 Gwelai 'i hun yn nghanol gwynfyd.

H

Tybiai weled golygfaoedd,  
 Tybiai glywed hymnau'r nesoedd ;  
 Ond pan welodd *Delyn* yno,  
 Rhodd ei galon dro, nes deffro !

Byth er hyny, anfoesoldeb  
 Ydyw gwin mewn cymedroldeb ;  
 Byth er hyny, hen offeryn  
 Halogedig ydyw'r *Delyn*.

Ond cymysged llwch fy nhadau  
 Gyda llwch fy nghalon inau,  
 Cyn anghofio'm llaw i ganu  
 Ar dy danau—*Delyn Cymru* !

## Y Botel Wag

Oedd yn codi ei phen truanlyd yn mysg nwyddau ac addurniadau ys-  
 plenydd ar fwrdd Bazaar Cyngrair y Deyrnas Gyfunol.

Ow'r Botel! mawr, mawr biti—ei gweled  
 Yn golofn trueni ;  
 Hi ddarfyddodd ar feddwi,  
 Ow! yr hen chwaer,—prynwch hi.

## Syr Meurig Grynthwth.

Y miwsig gan OWAIN ALAW.

MAE Meurig Grynthwth ar ol cael y fath drip  
 I'r lleuad y llynedd, i othod y clip,  
 Yn awr wedi dychwel yn ffyddlon fel dyn,  
 I'ch dythgu chi ganu, fel gwelwch chi' ch hun ;  
 Doeth neb o'r proffethorth eill ganu mor dlwth,  
 Mor rydd oddiwrth lithpian a Meurig Grynthwth.

Doedd neb yn y Bala yn gwybod pa le,  
 Na dim am y siarter a roddwyd i'r dre' ;  
 Gwirioniaid dithynwyr, on'te meddech chwi,  
 Na bathent hwy'n dyfod i ofyn i mi ?  
 Caent weled yn union fod Meurig mor neis  
 I siarad ag efo, a'r hen Mistar Price ;  
 Gall Maer yn ei balas, neu dlawd yn ei fwth  
 Gael rhyddid i siarad a Barwn Grynthwth.

Mae llawer o dwrw, a llawer o nád,  
 O achoth ethgobion Theithnigaidd y wlad ;  
 Mae'n gofyn dythgeidiaeth i edrych ar ol  
 Pum' mil yn y flwyddyn a'r degwm and all ;  
 Os na wneiff y Thaethon na'r Scotsmyn forsooth,  
 Gymeryd lle ethgob, gwaiff Father Grynthwth.

Mae Bright, fel y gwyddoch, yn cario gwn clats,  
 I saethu byddigions ac aristocrats ;  
 Mae'n saethu mell't fforchog a th'ranau Reform !  
 Beth ddaw o Thy'r Watcyn pan ddel yr ythtorm ?  
 Fe ddenfyn rhyw Dori o ffwtman bach glwth,  
 I nol ymbarelo at Meurig Grynthwth.

Mae'r Tories a'r Whigiaid mewn hiraeth tros ben  
 Am weled eu hunain in office again ;  
 Mae pawb efo'i helynt, ei fesur a'i fil  
 A'r Cymry yn canu " Mae Robyn yn Thwil ;"  
 A chath y frenineth yn canu'n ei chrwth  
 Wrth feddwl am rwbio yn Meurig Grynthwth,  
 Yn nghoesau breninol Thy'r Meurig Grynthwth.

Mae'r Pab yn ei gadair yn crynu fel ci,  
 A thyrthiodd i'r afon o flaen ein tŷ ni ;  
 Mae gorsedd Napoleon yn cwympe bob dydd,  
 Am nad yw'r Italiaid ac Hungary 'n rhydd ;  
 Ond be wneiff Napoleon 'rol twyllo Kossuth ?—  
 He'll send an ambassador, he will indeed truth,  
 To form an alliance with Monsieur Grynthwth.

Chwi wyddoch i Nicholas, pob parch i'r hen frawd,  
 Wrth 'myraeth â Twrci, gael slap ar ei fawd ;  
 Gall Rwsia falchio a siarad yn gry,  
 O blaid ei gwroldeb ar lan y Môr Du ;  
 Ond byth ni chroesasai y Danube na'r Pruth,  
 Pe b'asai yn gwybod am Meurig Grynthwth,—  
 Am Army and Navy Syr Meurig Grynthwth.

I 'Steddfod Llangollen daeth beirddion y De,  
 A phrif-feirdd y Gogledd i gyd i'r un lle ;  
 A fi ydoedd testun y siarad a'r son,  
 Gan Estyn, Carn Ingli, ac Andras o Fon ;  
 Ac yna cynygiwyd gan Weirydd ap Rhyth,  
 Cefnogodd Ab Ithel, a phasiwyd yn syth,

"Fod gwir ddiolchgarwch y byd a Llanrwth  
Yn cael ei gyflwyno i Meurig Grynthwth."

(*Wedi Encor*)

'Rwy 'n diolch am encor er mwyn i mi ddweud  
Am relwê s newyddion sydd newydd eu gwneud ;  
I bawb sy'n trafaelio rhwng England and Wales,  
Does dim byd wirionach na myn'd efo 'r rêls ;  
The Queen and Prince Albert may go as they chooth ;  
The Telewag wires for Meurig Grynswth,—  
A myn'd efo rheiny mae Duke of Grynthwth.

(*Mewn Cwrdd Tê.*)

Bu Emprwr mawr China trwy'r Missioner Yeh,  
Yn atal rhydd fasnach Canton a Shanghai,  
Ond gyrwyd Lord Elgin i ddweud wrtho 'fe  
Fod yma gyfarfod i gyd-yfed tê ;  
Caed heddwch mewn munud, gwnaed treaty ar ffrwth,  
Pan soniwyd am dê parti Meurig Grynthwth,  
'N enwedig am ganister Duches Grynthwth.

## D Dedwan Ben Lauç.

TON,— "*Dadl Dau,*" wedi ei haddasu gan OWAIN ALAW.

CYNTAF. EB nad wyf ond deugain oed,  
Fu arna' i 'rïoed fwy awydd  
Am gael setlo yn y byd,  
Mewn bwthyn clyd a dedwydd.

CYDGAN.

Dyn helpo 'r dyn,  
Dyn helpo 'r dyn a'i dlodi ;  
Dyn helpo 'r dyn  
Nad allo ddim priodi.

AIL. Ifanc wyf, ond 'r wyf fi braidd  
Yn henaidd o ran hydy ;  
Testun gofid hyd fy oes  
Yw 'r fenyw roes i fynu.  
Dyn helpo 'r dyn, &c.

TRYDYDD. (*yn adrodd.*) Dylech wybod pethau gwell,  
Nid cyffes-gell sydd yma :



Er na fedraf gân i chwi,  
Uwch beunydd mi chwibiana':—  
(*Chwibiana.*) Dyn he-po 'r dyn, &c.

PEDWERYDD. Dywedai Evan Hughes y saer,  
Fod dyn o Gaer yn gyru  
Adferteismant yn y *Times*,  
Am wraig i fyw yn Nghymru!  
Dyn helpo 'r dyn &c.

CYNTAF. Welaist ti 'r fath beth erioed,  
Mae 'mys i wedi chwyddo,  
Wrth roi botwm ar fy nghrys  
Aeth blaen y nodwydd iddo.  
Dyn helpo 'r dyn, &c.

AIL. Mae hi 'n ddeg *just* ar fy *watch*,  
Caf batch gan Ddoctor Cooper,  
Nos dawch heno, paid a dweud,—  
Rhaid imi wneud fy swper.  
Dyn helpo 'r dyn,  
Dyn helpo 'r dyn a'i dlodi;  
Dyn helpo 'r dyn  
Nad allo ddim priodi.

## Ymddyddanion y Gelin.

WILLIAM A JOE.

JOE, Wel, William Robats bach,  
Mi wadaist lawer tro  
Na byddet ti un amser  
Yn smocio, onido?  
Onido!  
Ti elli slipio 'r cetyn  
I ochor cafn y blawd,  
A gwneuthur llygaid gwirion,  
Ond *that 'll do*, 'r hen frawd—  
'Rwyf wedi 'th ddal o'r diwedd  
A 'th getyn hefo 'th di,  
Ond paid ti byth ei wadu  
Byth eto wrthyf fi.

WILLIAM. Pwy! fi! y fi!  
Wadais i ddim, myn Mair.

- JOE. Na, na, paid d'wedyd gair  
Mawr na bychan ;  
Ysmocia yn dy flaen  
Rhag i'r tân fyn'd allan,—  
Fe ddeudaist wrthyf fi,  
A Robyn Jacko,  
'Doedd neb o'ch teulu chwi  
Yn cym'ryd 'baco.
- WILL. Dd'eudais i ddim fath beth !
- JOE. Do, do, *honor's faith*,  
Neu *honor's bright*,  
Ac imi dd'eud yn reit—  
Mi dd'eudaist wrth Wil Sioned,  
Ac Hezeciah Pugh,  
Na chym'rest ti 'ricied gatied,—  
Do, William fel 'rwy' byw !  
Mae 'th wyneb gan euogrwydd  
Yn llosgi megis fflam ;  
Ond daliais di yn 'smocio,  
Ac er mwyn dy brofocio,  
Mi dd'eudaf wrth dy fam.
- WILL. Wyt hynod o garedig, Joe,  
A pharod iawn i brepian ;  
Ond dywedaf wrthyt cyn it' fyn'd,  
Mae mam yn smocio 'i hunan ;  
Os at fy mam yr ei di, Joe,  
I yngan peth mor anghall,  
Fe 'th daf di allan megis llo,  
I dd'eud wrth rywun arall.
- JOE. 'Does dim ond buwehod, byth,  
Yn arfer tafu lloiau ;  
Ac wrth dy iaith, debygwn i,  
Mae 'th dafu gefaist dithau.
- WILL. Ond gad im' falu 'th sachaid ŷd,—  
Dim 'chwaneg o ddiflasdod ;  
Oddiwrth dy faich, mae 'n rhaid dy fod  
Yn Samson mawr y mulod ;  
Ond lle bod genyt *glust* go hir,  
'Rwyt ti yn hir dy *dafod*.

JOE. Ond paid ti bod yn *hir*, fy *mrawd*,  
Yn gwneud y gwenith yma 'n flawd.

WILL. Fe ddaw i lawr mewn munud awr,  
Os malu bras a hoffi.

JOE. Na, malu *mdn*,—cei falu 'n fras  
Pan ddof â sach o goffi.

WILL. Dos allan, Joe, i wel'd yr hwch  
A brynais yn ffair y dre' :

JOE. Tra tithau 'n myn'd i'r llofft yn glyd  
I dolli f' yd i on'd tê ?

WILL. Ond tyr'd a gwêl fi 'n tolli 'r yd,  
Ac wed'yn gwêl y mochyn :

JOE. Ond beth pe baet ti mewn mistêc  
Yn myn 'd i dolli wed'yn !

WILLIAM (*yn humian wrtho ei hun*).—  
Pe bai pob cwsmer fel efe  
'Chawn i ddim siwgr yn fy nhê ;  
Na bara bwff, na theisen fraith,  
Na menyn efo nhatws 'chwaith.

'Roedd nhad, a nhaid, a nheidiau,  
Yn dwbwl dolli'r yd ;  
Heb fawr o feddwl deuai 'r  
Fath newid ar y byd,—  
Yn mhell bo 'r bobol, rwan,  
Sy 'n pwyso 'r yd a'r blawd ;  
Yn wir, mae 'r byd yn galed,  
I hen felinydd tlawd.

## Llygad y Dydd.

[Wedi ei ysgrifenu yn benodol i'r casgliad hwn gan y William Roberts uchod—dyn ieuanc tra gobeithiol.]

Llygad y dydd,  
Botwm bychan o dlysiheb byw—  
Llygad baban ar lin ei fam—  
Seren loew ar ael y nôs—  
Wyt ti, O flodyn ! mor hardd a theg  
A menyw ieuanc mewn *druggist shop*.

## Hy anwyl Arthur Ifan.

Mae 'm pen yn d'weyd y dylwn droi  
Fy nghefn at Arthur Ifan ;  
Mae pawb yn d'weyd ei fod yn hŷn  
O lawer na fy hunan.

Ond O! mae 'm calon, ddydd a nos,  
Yn sisial wrthi hunan,—  
Na fyn hi neb, na fyn hi neb,  
Ond anwyl Arthur Ifan.

Mae mam yn d'weyd ei fod ya ddyn  
Di-dda, di-ddawn, di-enaid ;  
Ni wadaf finau, mae 'n ddi-ddysg,  
Yn ddiddrwg, a diniwaid.  
Ond O! mae 'm calon, &c.

Mae nhad yn d'weyd ei fod yn d'lawd,  
A gwael am enill cyflog ;  
Fe allai fod ei well i'w gael  
Am drin y byd arianog.  
Ond O! mae 'm calon, &c.

Mae 'm pen yn gwranddo ar fy mam,  
Ac ar fy nhad anwylaf ;  
Mae gŵg fy mrawd, a llid fy chwaer  
Yn duo, duo arnaf.  
Ond O! mae 'm calon ddydd a nos  
Yn sisial wrthi hunan,—  
" Os curaf byth, mi guraf byth  
I'm hanwyl Arthur Ifan."

## Cadwch oddiwrthi, onide.

Miwsig gan OWAIN ABAW.

Os oes lodes lân a siriol  
Ar ymweliad yn eich tŷ,  
Gyda chwrllog wallt modrwyol,  
Gyda llygad glas neu ddu ;  
Cadwch oddiwrthi, onide  
Fe deimlwech eich mynwes  
Yn myn'd yn rhy gynes,  
A'ch calon yn myn'd o'i lle.

Peth peryglus iawn yw gweled  
 Tywallt tē gan fenyw lân,  
 A pheryglus iawn yw gwrando  
 Ambell un yn canu cân :  
 Cadwch oddiwrthynt onide, &c.

Os oes geneth ieuanc brydferth,  
 Dros y ffordd i'r fan lle'r y'ch,  
 Planwch goed o flaen y parlwr,  
 Cloddiwch glawdd, neu codwch wrych ;  
 Cuddiwch hi ymaith, onide, &c.

Os oes rhywun yma 'n gwrando,  
 Braidd yn tynu 'ch llygad chwi ;  
 Os dymunwch gysgu heno,  
 Gwell yw edrych arnaf fi :  
 Canwch y corws, onide  
 Fe deimlwch eich mynwes  
 Yn myn'd yn rhy gynes,  
 A'ch calon yn myn'd o'i lle.

## Telyn Cymru.

Mesur,—“ *Pant corlan yr wyn.*”

Os parod y'ch yn ddiwahan  
 I esgusodi Cymro glân,  
 Fe ganaf i chwi bwt o gân  
 A wnes i Delyn Cymru :  
 Y delyn hon, diaddurn iawn  
 Ei charfan main a'i thanau rhawn,  
 Ond mae y deircainc eto 'n llawn,  
 Ac ysbryd dewr ein tadau ni  
 Yn llercian ar ei thanau hi :  
 Henafol Delyn Cymru.

Myfi fe allai sydd ar fai—  
 Mae pawb yn feius fwy neu lai—  
 Ond gwared fi rhag rhagfarn rhai  
 Yn erbyn Telyn Cymru :  
 Mae ambell un yn hoffi sŵn  
 Y claronet neu 'r *bass* basŵn,  
 Ac ambell Gadi fel babŵn  
 Wrandawai byth ar hen drambŵn ;  
 Ond waeth geny' glywed band o gŵn,  
 Os na chaf Delyn Cymru.

Yn sŵn y bagpeip grás ei nad  
 Fe gofia 'r Scotsmon am ei wlad,  
 Ei fam, ei dad, a'i deulu :  
 Gadewch i'r Niger fyn'd o'i go,  
 A dawnsio hefyd os myn o,—  
 Wrth rygnu ar ei hoff banjo ;  
 Oes neb mor ddwbwl dwl na ad  
 I Gymro hefyd hoff o'i wlad  
 Gael tón ar Delyn Cymru.

Fel dw'r y nant yn gloewi ' hun  
 Mewn murmur-gerdd, 'r un fath mae dyn  
 Mewn miwsig yn ymburo :  
 Mewn pur gerddoriaeth chwyddawl gref  
 Dyrchefir ei ysbrydoedd ef  
 Nes teimla bron wrth byrth y nef ;  
 Ond dyn digerdd, difwyd, llwfr,—  
 Mae fel y dystaw farw ddwfr,  
 I'w ochel rhag myn'd ato.

### Gofidian Serch.

Wyt ti yn cofio 'r lloer yn codi  
 Dros hen dderw mawr y llwyn,  
 Pan ddywedaist yr aberthet  
 Nef a daear er fy mwyn ?  
 Wyt ti 'n cofio 'r dagrau gollaist  
 Wrth y ffynon fechan draw ?  
 Wyt ti 'n cofio 'r hen wresawgrwydd,—  
 Wyt ti 'n cofio gwasgu 'm llaw ?

“*Hyd fy marw,*” oedd dy eiriau,  
 Y parhaet yn ffyddlawn im' :  
 O fy ngeneth, O fy nghariad !  
 Nid yw poenau marw 'n ddim.  
 Er wrth dori 'th addunedau,  
 I ti dori 'm calon i,—  
 Magi anwyl, mae dy gariad  
 Eto 'n gariad pur i ti.

Mae 'th lythyrau yn gwneud i mi  
 Lwyr anghofio mi fy hun ;  
 Mae dy gydyn gwallt yn hongian,  
 Fel helygen tros dy lun !  
 Llun dy wyneb, Magi anwyl,  
 O mae 'n t'wynu fel yr haul !

Nes 'r wy'n teimlo gwae a gwynfyd  
Nef ac uffern bob yn ail!

O f' anwylyd ! er mai *cyfaill*

Yw yn awr fy enw i,  
Maddeu imi am ddefnyddio  
Yr *hen enw* arnat ti ;  
*Cariad* wyt ti, Magi anwyl,  
Bur dduhalog fel erioed ;  
Tro'ist dy wyneb cefnaist arnaf,  
Minau garaf ol dy droed !

**Pobl y Potes, a Phobl y Llymru.**

A GLYWSOCH chwi hanes  
Am ddau fan yn Nghymru,  
Lle mae pobl y potes,  
A phobl y llymru ?

Mae pobol y potes yn meddwl o hyd  
Am bobol y llymru sy'n brafied eu byd ;  
A phobol y llymru a haerant o hyd,  
Fod potes yn curo 'r holl fwydydd i gyd.  
Gofynais i dafarnwr, a safai ger fy mron,  
Pa addysg fedrai dynu oddiworth y chwedl hon ?  
Atebai, " Pe bai cwrw mor brin a gwin yn awr,  
Y cwrw fyddai diod yr holl o'r bobol fawr."  
Gofynais i ddirwestwr, oedd ddyn o dalent gref,  
Oddiworth yr un ystori, pa addysg dynai ef ?  
Atebai yntau 'n union, " Pe bai holl foroedd byd  
Yn win a diod gadarn, a'r dwr yn brin a drud,  
Am ddwr sychedai dynion—arianaid ddyfroedd byw  
Yn hael dywelltid allan i gwpan dynolryw.

**Sulgwyn Llynedd, 1859.**

[Y mae yn arferiad gan Ygolion Sabbothol Manchester fyned gyda'u gilydd i'r wlad, neu i rai o'r parciau, i dreulio wythnos y Sulgwyn, i chwaraeu, &c. Yr oedd y "GYMDEITHAS LENYDDOL A DADLBUOL" yn cynnal cyfarfod dadlu yn Mhare Chelford, yn Sulgwyn, 1859, a'r testun a ymdriniwyd ág ef oedd, " *A oedd teithiau Sulgwyn yr Ygolion Sabbothol yn llesol, neu yn niweidiol i foesoldeb yr ieuenctyd ?*" Gwnaed yr isod gogyfer a'r cyfarfod hwnw ar ddymuniad y Gymdeithas Lenyddol.]

Os gwelwch chwi 'n dda, am funud bach,  
I wrando arna' inau ;  
Mi 'ch gwna' chwi 'n ddoethach bedair gwaith  
Nag oeddych heddyw borau.

Mae golwg blin ar wyneb rhai  
 Oherwydd, fel mae'n rhyfedd,  
 Heb ddadffino 'r ydych siwr,  
 Ar ol y Sulgwyn llynedd.

Mae rhai o honom wedi dod  
 O bwrpas yma i dd'wedyd,  
 Fod rhedeg naill ar ol y llall  
 Yn dda er mwyn ein hiechyd ;  
 'Bwyf *inau* 'n d'weyd, a *fi* sy'n iawn,  
 Fod rheumatics diddiwedd  
 Yn holl gymalau stiff fy nghorff  
 Ar ol y Sulgwyn llynedd.

Mae stondin hetiau yn Shudehill,  
 A hono yn bur glên un,  
 Lle gellwch dynu 'ch het, a chael  
 Un *newydd* am yr *hen* un :  
 Ond beth yw 'r achos, nis gwn i,  
 Mae hyn yn rhywbeth rhyfedd,  
 Wnaiff neb ddim ffeirio het â mi  
 Ar ol y Sulgwyn llynedd.

'Roedd genyf drowsys brethyn brith  
 A rhes o'r top i'r gwaelod ;  
 A phoced watch, os nad oedd watch,  
 Yn ochor chwith fy ngwasgod ;  
 Ond wrth im' redeg yn y parc  
 Mi dorais dri o' nanedd,  
 A rhwygais, do, fy nau ben glin  
 O achos Sulgwyu llynedd.

Nid wrthyf ' hun yr oeddwn i,  
 Ond gwyn ei fyd na f'aswn,—  
 'Roedd lodes ieuanc yn fy mraich,  
 A'r cylchau yn y ffasiwn ;  
 Hi syrthiodd yn y *kissing ring*,  
 A thorodd ei hamgylchedd,  
 Ond byth ni wisgodd grinolin,  
 Ar ol y Sulgwyn llynedd.

Os lles y galweh beth fel hyn,  
 Mae lles yn dra niweidiol ;  
 A gwell bod hebdo meddaf fi,  
 I'r ienctyd a'r hen bobol,—



Mae genyf waew yn fy nghefn  
 Er's agos ugain mlynedd,  
 A hyny i gyd, i gyd, i gyd,  
 O achos Sulgwyn llynedd.

### Sulgwyn Yleni.

(1860.)

'Doks neb ar y ddaear mor ffol  
 A disgwyl am Sulgwyn y llynedd ;  
 'Rbyn basiodd ni ddaw yn ei ol  
 Er cyfoeth y byd na'i anrhydedd :  
 Mae pob peth yn dda yn ei le,  
 Ac felly mae'n werth ei gyhoeddi—  
 Fod pawb trwy'r gym'dogaeth a'r dre'  
 Yn disgwyl y Sulgwyn yleni.

'Roedd Ceiriog yn ddig wrth ei waith,  
 A Derfel yn methu a chysgu ;  
 Sion William yn dangos y graith  
 A gafodd y llynedd wrth wasgu—  
 Wrth wasgu gwraig William o'r Cefn,  
 A cheisio dwyn cusan oddiarni,  
 A hiraeth am gusan drachefn  
 Gan rywun y Sulgwyn yleni.

Cychwynem bob un dan ei faich,  
 A'r fasedd a'r gostrel yn llawnion ;  
 Y dynion a'r plant ar eu braich,  
 A'r merched yn cario'r bendithion ;  
 'Roedd pob un yn llawen dros ben,  
 A'r sobraf yn llawn o ddireidi,—  
 'Roedd hyd yn oed Morgan a Gwen  
 Yn 'smala y Sulgwyn yleni.

Cerbydau y gwartheg a'r môch  
 A roddwyd yn serchog i'n cludo,  
 Fe'n llwythwyd, a chanwyd y glôch,—  
 Ac ymaith a ni tuag yno.  
 'Roedd rhai yn dynwared y Clown,  
 A rhai yn lle canu yn gwaeddi ;  
 Ond edrych wnai Ruth ar ei gown,  
 A'r cerbyd, y Sulgwyn yleni.

Peth rhyfedd oedd gweled y gwyr  
 Yn colli eu gwagedd mor forau,  
 A'r gwagedd yn edrych mor sur,  
 Ar ol myned allan i chwarau ;  
 'Roedd Edwin yn chwilio pob man  
 Am Bronwen ar ol iddo 'i cholli,  
 A Bronwen yn cerdded drwy'r Llan  
 Am Edwin y Sulgwyn yleni.

Cyn hir fe wnaed cylch ar y cae  
 I redeg o'i amgylch yn fuan,  
 Nid am fod yr un, fel pe dae,  
 Yn meddwl dim byd am y cusan.  
 Ond at ferched ieuanc 'r a'i 'r gwyr,  
 A'r gwagedd at rai heb briodi,—  
 'Doedd ryfedd fod Moses mor sur  
 O'r herwydd y Sulgwyn yleni.

Wrth weled hen wr trigain oed  
 Gan lances dan naw yn cael cusan,  
 Aeth Moses o'i go' yn ddiwed,  
 A digiodd o'r bron wrtho 'i hunan ;  
 A d'wedodd " Mae'n arw o beth !  
 'Ro 'i gusan i neb byth ond hyny ;"  
 Ond ei wraig gyda ' dwylaw yn mhleth  
 A chwerval, y Sulgwyn yleni.

Ai 'r daran i chwarau uwch ben,  
 A phawb heb yr un *Umbrella* ;  
 Rhai redent dan gysgod y pren,  
 A rhai tua'r tai i gael bwyta :  
 Ond basged rhyw *lot* oedd yn wâg,  
 A photel rhyw *lu* wedi tori—  
 Fel pe b'asai'r gwirod a'r brâg  
 Am chwarau, y Sulgwyn yleni.

Rhy fach oedd ei ddeudroed i Huw  
 I guro cyflymder ei gymhar ;  
 Gan hyny rhoes hergwd i Puw,  
 A thafodd ei hun ar ei bedwar :  
 Ond Elin er pob peth a wnai  
 Trwy gydol y dydd oedd yn colli,  
 A dirif gusanau a gai  
 O'r herwydd, y Sulgwyn yleni.

Syr Daniel a gollodd ddarn grôt,  
 A chriai yn drwm wrth ddychwelyd ;  
 A William a rwygodd ei gôt-  
 Mor dost nad oedd modd ei hadferyd :  
 Ond cwyno mae Margaret a Jane  
 Fod cylechau eu pais wedi tori ;  
 A chrio na chafodd na chusan na gwên  
 Mae Catrin y Sulgwyn yleni.

Fu Sulgwyn erioed yn y byd  
 Yn debyg i'r Sulgwyn presenol ;  
 Daw rhywbeth yn newydd o hyd  
 I olwg y meddwl o'i ganol :  
 Fe welwyd Sion Dew yn ei ddwbl—  
 Ond, ond mae yn rhaid i mi dewi ;  
 A'i cyfrol i adrodd y cwbl  
 A welais y Sulgwyn yleni.

R. J. DERFEL.

### Sulgwyn Nesaf.

(1861.)

MAE DERFEL yn siwr wedi myn'd  
 Yn "Sulgwyn Yleni" i foedro ;  
 Gobeithio mae Meurig, fel ffrynd,  
 I'r Sulgwyn dyfodol ei fendio.  
 Peth poenus yw gwaled "coll 'r"  
 Yn un o'n cyfeillion cynesaf,  
 Ond hwyrach bydd newid mawr ar  
 Ei feddwl y Sulgwyn nesaf.

Mae Sulgwyn yleni mor bell  
 Oddiwrthym a Sulgwyn y llynedd ;  
 "Twyll pengoll" ymlusgodd i'w gân,  
 Er nad oedd ei gân ar gynghanedd :  
 'Roedd "Sulgwyn y llynedd" yn lew,  
 A "Sulgwyn yleni" yn eithaf,  
 Ond bydd pobol deneu yn dew,  
 Os pesgant y Sulgwyn nesaf.

Fe godir ein calon, a bydd  
 Ein clwyfau ni oll yn cael eli,  
 Pan welwn beth wnaeth Masnach Bydd  
 I'r *duty* oedd ar y "poteli."

Peth da ydyw gweled y byd  
 Yn dyfod i'w le er yn araf,—  
 Mae pobpeth ddisgwyliwyd cyhyd  
 Yn dyfod y Sulgwyn nesaf.

'Roedd Sulgwyn yleni yn wlyb—  
 Y gân oedd y sycha' peth 'leni,—  
 Achoswyd gryn gás a drwg-dyb  
 Rhwng pobol oedd wedi priodi ;  
 'Roedd yno bêl-droed gan y gwŷr  
 I'w cadw oddiwrth y lodesa',  
 Ond cicir pob un gicio'r bêl,  
 Os byw fydda'r Sulgwyn nesa'.

Am Sulgwyn y llynedd bu co',—  
 Am wên ac am gusan a gafwyd ;  
 Daeth Sulgwyn yleni 'n ei dro,  
 A dydd y briodas bennodwyd :  
 Wrth adael rhyw un ger y trêrn,  
 A wyddoch chwi'r geiriau diweddaf  
 A basiodd tros wefus wên Jane ?  
 " *Ffarwel tan y Sulgwyn nesaf.*"

O Sulgwyn i Sulgwyn o hyd  
 Mae wisgars y bechgyn yn tyfu—  
 O Sulgwyn i Sulgwyn o hyd  
 Mae grudd y genethod yn harddu :  
 Tra penau ein tadau yn myn'd  
 Yn wynach a harddach bob gauaf ;  
 O boed i ni weled pob ffrynd  
 Yn chwareu y Sulgwyn nesaf.

A choeliwoh chwi fi ar fy ngair,  
 Mae gwledd heb ei bath ar ein cyfer,—  
 Pork pies, a tharts eirin mair,  
 A mwstard a chwstard fel arfer ;  
 Bydd sibbols yn tyfu 'r un fath—  
 Young onions a'r radishes neisiaf,—  
 Cawn sandwiches fesur y llath,—  
 O ! gwawried y Sulgwyn nesaf.

Y Byd yn



erbyn y Gwir.

EISTEDDFOD FAWR GENEDIAETHOL CYRN Y  
BWCH, 1865.

BYDDED hysbys i'r Byd benbaladr, yn nghyda Chymru, a Lloegr, a Llanrwet, y cynelir ar y llanerch fwyaf amlwg ar Gyrn y Bwch ar ddydd ao awr i'w penodi rhagllaw

EISTEDDFOD DALEITHIOL,

Sef Cadair Gorchennain, pryd y gwobrwyir yr ymgeiswyr buddugol ar y testynau canlynol.

“Yn ngwyneb haul a llygad goleuni.”

BARDDONIAETH.

1. Testyn y Gadair. Awdl ar neillduolion Cloncwyr. Gwobr gan Ned y Nailor, hoelen modfedd a phen pres.
2. Cant o benillion Hir a Thoddaid, ar Ogoniant neillduol Cyrn Malwen. Gwobr gan Sion y Gof, darn o hen bedol.
3. Un-ar-bymtheg-ar-hugain o englynion unodl union, ar Briodoliaethau Naid Chwanen. Gwobr gan Sali y Minceg, gwerth dimeu o gyflaith mewn papur llwyd.
4. Cân ar unrhyw fesur, ar Urdduniant gwaedd Hywaden Wylt. Gwobr gan Dafydd y Siop, chwech o gnau Barcelona.
5. Marwnad am y diweddar Hugh Fawdrwyn, Ysw., yr hwn dan ddylanwad brandi a dw'r, ac yn nghanol ei ddefnyddioldeb, a fu farw o ddiffyg anadl. Gwobr gan Philo Hugh, Cnauen Ffrengig gymaint a dwy o rai bychain.
6. Marwnad ar ol *Jip*, merch i Captyn y Felin, o Ranger y Plas, yr hon tra yn tynu llwyth o lo at fuarth yr ofail, a fu farw yn ddisymwth gan y Jaundice. Yr oedd y gaseg hon,

yn nodedig yn yr ardal er's llawer dydd, am ei gwasanaeth cymwynasgar i wyr parchedig y gwahanol enwadau; a theil-ynga barch cyffredinol yr holl wlad. Disgwylir i'r ymgeiswyr pan yn cyfansoddi y farwnad amddiffyn cymeriad yr ymadawedig, pan daflodd berson y Llan i ffos y Wern Siglen, ac yn erbyn cyhuddiadau anwireddus eraill. Rhaid i'r cyfansoddiadau fod tros bum can llinell o hyd, a disgwylir o leiaf tuag wyth ugain o "Och! och!" deugain neu ragor o "Och!" ac "ah! fy nagrau llifeiriol—fy nghalon dromlwythog—fy ngrudd gystuddiedig—a'm mynwes orddrylliog, &c." Gwobr ugain gini a medal aur.

7. Awdl ar y pedwar mesur ar hugain cerdd dafawd, o fawl i Eangder troed Gwydd, a'i ddefnyddioldeb, wedi ei falu, i ryddhau y coluddion. Gwobr, Coreyn potel Bop; yr unig un a waghaodd Wil y Gwirod poethion yn ei fywyd, a hyny mewn camgymeriad.

#### TRAETHODAU.

1. Afesoldeb athrylith, fel y mae yn cael ei ddangos yn y gwobrwyon a gynygir am orchestion gan Eisteddfodwyr. Gwobr gan y pwyllgor, Barcutan papur lliwiedig, gyda llinyn côch.

2. Yn dair cyfrol—Gwagedd Beirniadaeth, y pwno i gael ei egluro yn helaeth gydag enghreifftiau, o ysgrifau y prif feirniaid. Gwobr, Cwilsyn Twrci, a photelaidd o inc côch.

3. Bywgraffiad ystrydebol; gadawer lle gwag i'r enw, y dyddiad, &c. Gan fod nifer wedi cyraedd perffeithrwydd yn y ganghen hon, ni chynygir un wobwr. Caiff yr ysgrifenydd buddugol yr anrhydedd o'i gyflwyno yn rhad at wasanaeth ei gydgenedl.

4. Yr Adolygydd Beirniadol, yn dair rhan,—1. Adolygiad ar waith un o'r frawdoliaeth. 2. Adolygiad ar waith un ag y teimlir eiddigedd at ei alluoedd, ag y bydd raid ar bob cyfrif ei gadw i lawr. Cyfyngir y testyn hwn i olygwyr, is-olygwyr, ac is-is-olygwyr y misolion. Gwobr, Extinguisher canwyllbren, gyda chadwen ynglyn wrtho.

#### CANIADAETH.

Oratorio ar Gwypm Goruchwyliaeth Hymbyg. Gwobr Llyfr lledr yn cynwys cyfarwyddiadau i godi a gostwng cythreuliaid, bwciod y nŵs, gwrach y rhibyn, tylwyth tég, &c., yr hwn a gafwyd yn llogell un o brif saint y canol oesau. Gwobr i'r ail-oreu, modfedd o flaen coes pibell a'r paent arno.

I'r gwryw a gano oreu y penillion gorchestol a ganlyn. Y wobr heb ei phenderfynu, ond ymrwymir y bydd yn werth o geiniog a dimeu i rôd o leiaf.—

GWENO'R SNISYN.

Tox,—*Distyll y dôn.* (Gems of Welsh Melody.)

*" Mi welais fŵch gan Gweno  
A'i lon'd o snisin ynddo :  
Ni f'ase 'n waeth i'r wraig ddifeth,  
Roi imi beth o hono.  
Mi cauodd o'n glep ! "*

Un llygad oedd y feinwen,  
A hwnw tan ei thalcen ;  
A byth pan geuai hwnw 'i hun,  
Fe dd'wedai dyn o Gorwen  
Na welai hi ddim !

Gofynais am ei geneth,  
A briodasid ddwywaith :  
Dywedodd hithau, " Mae gwr Sal  
Yn gystal mab yn nghyfraith  
A chwythodd erioed."

Gofynais sut 'r oedd Marged,  
A'r môch, a'r cwn, a'r defaid :  
" Symol," meddai " ydi 'r hŵch :  
O dowch cymerwch binsied."  
Ond ohym'wm i ddim.

Ond wedi siarad tipyn,  
Agorodd ei blwch wed'yn,  
A hi gymerodd ar un twrn  
Bron lon'd ei drwn o snisin !  
A sychodd ei thrwyn.

D. S. Yr holl gyfansoddiadau gyda 'r enwau priodol i'w gyru yn ddiraul i'r ysgrifenydd, Mr. Brychan Bywbothfardd, Pontystali, ger Manchester, erbyn y dydd cyntaf o'r pedwerydd mis.

Gan mai hon fydd yr Eisteddfod odidocaf a fu erioed yn y byd, ac y bydd yn fwy anrhydedd cael bod yn feirniaid ar yr achlysur, na phe coronid y bôd dedwydd yn dywysog ; dewisir hwy ar gynllun newydd. Pwy bynag gan hyny sydd yn ewyllysio swydd beirniad, anfoned ei enw a'r swm o arian bathol y mae 'n barod i'w rhoddi am yr anrhydedd. Yr uchaf ei bris, wrth reswm, gaiff ei ddewis.

Bydd yr arian a dderbynir, yn cael eu rhoddi at adeiladu arsyllfa Gymreig, cynal professorion, sefydlu Athrofa Fardd-onol gyda hawl i roddi pob urdd a diploma perthynol i'r wyddor. Cynal yr Indiaid Cymreig, a lledaenu Derwyddiaeth yn mys Pabyddion a Phuseaid y byd, &c.

**RHUTHYN:**  
**ARGRAFFWYD GAN I. CLARKE.**

**3 MH 62**



Now Ready, First Series, Price 2s. 6d.,  
**GEMS OF WELSH MELODY.**

---

A SELECTION OF  
**POPULAR WELSH SONGS,**  
WITH ENGLISH AND WELSH WORDS;  
INCLUDING  
SPECIMENS OF PENILLION SINGING,  
After the manner of North Wales;  
AND  
**WELSH NATIONAL AIRS,**  
ANCIENT AND MODERN;  
Set in a familiar manner for the Pianoforte or Harp,  
WITH SYMPHONIES AND ACCOMPANIMENTS,  
BY JOHN OWEN, (OWAIN ALAW,) PENCERDD.

Orders to be forwarded to **MR. I. CLARKE, Publisher, Ruthin.**

---

**Opinions of the Press.**

"Very little has been done to preserve the exquisitely beautiful melodies of Wales from that obscurity and oblivion in which they have too long lain. ... We have however now before us the first series of a work, which we trust is only a sample of many that are to follow, which will supply a desideratum in Welsh musical literature. ... We heartily commend the work to our musical readers, and we cannot doubt that its extreme cheapness, and the excellent manner in which it is got up, will secure for it a sufficiently extensive sale to induce the author to continue his labours, and produce another and another volume, until we have a properly arranged collection of airs and songs, worthy the fair land which gave them birth—*North Wales Chronicle, July, 21st, 1860.*

"The accompaniments, it will suffice to say, are written in Mr. OWEN'S usual classical and masterly style,—not overcharged with wild and ornamental clauses, but simple, solid, and harmonious; and in perfect keeping with the noble melodies to which they are attached. A new feature in the work is the specimen of Penillion Singing ... We also invite attention to the admirable style in which the work is got up. ... We may safely pronounce the work as a whole to be far in advance of any musical publication that has appeared in the Principality. ... There are many English and other visitors now in this country to whom these "GEMS" would be a very suitable and pleasing souvenir of their visit to Wales.—*Carnarvon and Denbigh Herald.*

WORKS PUBLISHED BY I. CLARKE, RUTHIN.

NOW READY, PRICE 2s. 6d.  
SECOND SERIES  
OF THE  
GEMS OF WELSH MELODY.

*Contents of the Second Series.*

SONGS WITH ENGLISH AND WELSH WORDS.

Y ddeilen ar yr Afon,—*The Leaflet on the River*; Clychau Aberdyfi,—*The Bells of Aberdovey*; Y Gwenith Gwyn,—*Hal and Annie*; Y Bardd yn ei Awen,—*The Inspired Bard*; Cymry lân gwlad y gân,—*Beauteous Wales, dearest Wales*; Y Gadlys,—*The Camp of the Palace, or, Of noble race was Shenkyn*; Gweno fwyn gu; Caru'r lleuad; Codiad yr Ehedydd,—*The rising of the Lark*; Y Trên,—*The Train*.

SPECIMENS OF PENNILLION SINGING.

Mwynder Corwen,—*The Delight of Corwen*; Merch Megan,—*Margaret's Daughter*; Dystyll y Dôn,—*The ebb of the tide*.

WELSH NATIONAL AIRS.

Cader Idris,—*The Air of "Jenny Jones"*; Cnocell y Coed,—*The Woodpecker*; Diferiad y Gerwyn,—*The droppings of the Mash Tub*; Meillionen,—*Sir Watkin's delight*; Gorhoffedd Owain Gyfeiliog,—*Owain Gyfeiliog's delight*; Sweet Richard; Triban gwyr Morganwg,—*The war song of the men of Glamorgan*; Rhuddlan Marsh.

*Now Ready, Price Sixpence,*

MORFA RHUDDLAN:

OR, THE

BATTLE OF RHUDDLAN MARSH;

With an English version of

IEUAN GLAN GEIRIONYDD'S

CELEBRATED ODE,

AND HISTORICAL ILLUSTRATIONS,  
BY ALFRED.

WORKS PUBLISHED BY I. CLARKE, RUTHIN.

On September 1st, 1861, will be ready, Price 2s. 6d.,

THIRD SERIES  
OF THE  
**GEMS OF WELSH MELODY,**

*Contents of the Third Series.*

SONGS WITH ENGLISH AND WELSH WORDS.

Morfa Rhuddlan; 'Roedd mam yn coffeidio ei baban bach glan,—*A mother was pressing her child to her breast*; Galar gwraig y Milwr,—*Lament of the Soldier's wife*; Pictiwr fy mam,—*My mother's Portrait*; Plygiad y bedol,—*Bending the shoe*; Plygeingan,—*Serenade*; 'Ton y Melinydd,—*The Miller's Song*; Sally; Cariad Cyntaf,—*Wenefred*; Cân Eisteddfod,—*Eisteddfod Song, or, St. David's day.*

SPECIMENS OF PENNILLION SINGING.

Eryri Wen,—*White Snowden*; Dyfyrwch gwyr Dyfi,—*Delight of the men of Dovey.*

NATIONAL AIRS.

Gorhoffedd gwyr Harlech,—*March of the men of Harlech*; Codiad yr Ehedydd,—*The rising of the Lark*; Mewn awen fwyn lawen,—*Oh! let the kind minstrel, known as, "Glan Meddwod mwyn"*; Ymadawiad y Brenin,—*The departure of the King*; Ar hyd y nos,—*All night long, known as "Poor Mary Anne"*; Mwynder Gwynedd,—*The sweet melody of North Wales*; Megan a golodd ei gardas,—*Margaret that lost her garter*; Gorymdaith gwyr Meirionydd,—*March of the men of Merioneth*; Ab Shenkin; Hai! down i'r Derri dano,—*Come let us go*; Llwyn oan,—*The Ash grove*; Caingc Dafydd Broffwyd,—*The tune of David the Prophet.*

**NEW MAP**  
**OF THE VALES OF CLWYD AND**  
**LLANGOLLEN.**

Reduced from the Ordnance Survey. Shewing the Line of Railway from Rhyl and Voryd, through Denbigh, Ruthin, Corwen, and Llangollen, to its Junction with the Chester and Shrewsbury Railway at Ruabon. With the Main Roads, Rivers, &c., within the Vales of Clwyd and Llangollen.

**PRICE SIXPENCE.**

RUTHIN: I. CLARKE.

Sold by all Booksellers, and at the Railway Stations.









